# COVID-19 a newidiadau o ran cyflogaeth yng Nghymru

## *Mewnwelediadau ar gyfer polisi – pobl ifanc, cyflogaeth ac iechyd*

### *Canfyddiadau ymchwil ansoddol*



Paratowyd ar gyfer
**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Paratowyd gan
**Beaufort Research**

**Mai 2021**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

beaufortresearch

# COVID-19 a newidiadau o ran cyflogaeth yng Nghymru
## *Mewnwelediadau ar gyfer polisi – pobl ifanc, cyflogaeth ac iechyd*

*Canfyddiadau ansoddol*

Comisiynwyd y gwaith hwn gan Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â PHW.Determinants@wales.nhs.uk

Diolch i'r llu o bobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau am eich amser a'ch mewnwelediad

ISBN 978-1-78986-154-351

**Beaufort Research,** 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG
029 2037 8565, enquiries@beaufortresearch.co.uk, www.beaufortresearch.co.uk
Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies

© 2021 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Beaufort Research. Gellir atgynhyrchu deunydd sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Beaufort Research. Mae'r hawlfraint yn y drefn argraffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Beaufort Research.

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252

## Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol a'r casgliadau ....5
2. Y sefyllfa a chefndir y gwaith ....11
3. Amcanion a dull yr ymchwil ....12
3.1 Amcanion yr ymchwil ....12
3.2 Dull a sampl yr ymchwil ....12
3.3 Canllaw trafod, dadansoddi ac adrodd ....14
**4. Profiadau pobl ifanc o gyflogaeth a llwybrau at gyflogaeth ers i'r pandemig ddechrau. 16**
4.1 Effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc ....17
4.2 Yr effaith ar bobl ifanc a llwybrau at gyflogaeth....21
4.3 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc ....23
4.4 Cydnabyddiaeth i effaith y pandemig ar sectorau sy'n cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc....25
*4.4.1 Gostyngiad mewn incwm* ....28
*4.4.2 Profiadau mwy cadarnhaol ymhlith pobl ifanc* ....29
4.5 Cynyddu anghydraddoldeb ....30
4.6 Heriau dod o hyd i waith da, teg a'i gadw ....32
*4.6.1 Enghreifftiau o gyflogwyr da* ....35
*4.6.2 Barn pobl ifanc am ragolygon yn y dyfodol* ....35
4.7 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg ....36
**5. Ymyriadau cyfredol a'u heffeithiolrwydd canfyddedig .... 37**
5.1 Profiad a chyfleoedd gwaith ....38
5.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc ....41
*5.2.1 Profiadau pobl ifanc o gymorth* ....45
5.3 Ymgysylltiad cyflogwyr....46
5.4 Cymorth ariannol ....47
5.5 Ymyriadau â ffocws ar iechyd a lles sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ....48
5.6 Gweithio mewn partneriaeth ....48
5.7 Cael mynediad at waith da, teg ....49
5.8 Ymyriadau mewn gwledydd eraill....50
5.9 Cefnogi pobl ifanc â phlant dibynnol ....51
**6. Barn am newidiadau sy'n ymwneud â chyflogaeth a fyddai o fudd i bobl ifanc yng Nghymru yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan y pandemig .... 52**
6.1 Parhau i wella ymyriadau presennol ....53
6.2 Cyfleoedd gwaith a warentir....53
6.3 Canolbwyntio ar y grwpiau mwy difreintiedig o bobl ifanc....56

6.4 Ffocws yn ôl sector ar gyfer pobl ifanc ........ 59
6.5 Sgiliau a hyfforddiant amgen ac ychwanegol i bobl ifanc ........ 62
6.6 Mynd i'r afael â rhwystrau o ran seilwaith ........ 63
6.7 Mwy o weithio mewn partneriaeth a chydweithio ........ 64
6.8 Newidiadau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a lles ........ 65
6.9 Cynyddu'r siawns o waith da, teg ........ 66
6.10 Beth os ydym yn wynebu senario llai cadarnhaol yn y dyfodol? ........ 69
6.11 Cefnogi'r rhai â phlant dibynnol ........ 70
6.12 Y system yng Nghymru ........ 71
**7. Cwestiynau ymchwil a bylchau o ran gwybodaeth ........ 72**
7.1 Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio ........ 73
7.2 Iechyd meddwl a lles ........ 73
7.3 Adnabod anghenion o ran gwybodaeth ac iddi ffocws pendant i weithredu arnynt ........ 75
7.4 Deall sut y byddai'r farchnad lafur yn edrych i bobl ifanc ........ 77
7.5 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc ........ 78
7.6 Data ar lefel Cymru o'i gymharu â lefel y DU ........ 79
7.7 Yr hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau ........ 80
7.8 Deall dull polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc ........ 81
7.9 Chwilio dramor am ddatrysiadau posibl ........ 81
8. Casgliad ........ 82

## 1. Crynodeb gweithredol a'r casgliadau

### Cyflwyniad

Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gomisiwn i Beaufort Research i archwilio barn am heriau o ran cyflogaeth a wynebir gan bobl ifanc (â phlant dibynnol a heb blant dibynnol) mewn perthynas â'r pandemig; a beth ellid ei wneud i liniaru effaith newidiadau o ran cyflogaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar bobl ifanc. Fe wnaed ymchwil ansoddol gyda phobl ifanc 18-24 mlwydd oed mewn ystod o wahanol amgylchiadau (chwe grŵp ffocws), mudiadau'r trydydd sector a oedd yn cefnogi pobl ifanc (un gweithdy ar-lein), ac ystod o wneuthurwyr polisi a dylanwadwyr yn y maes hwn (17 o gyfweliadau unigol). Fe wnaed y gwaith maes rhwng 20 Ionawr ac 16 Mawrth 2021.

Yn wahanol i arolygon meintiol, nid yw ymchwilio ansoddol, o ran ei natur, wedi'i fwriadu i fod yn ystadegol gynrychioliadol. Mae wedi'i fwriadu i fod yn enghreifftiol ac i ymorol am archwiliad manwl o'r amrywiaeth mewn perthynas â phynciau o ddiddordeb.

### Canfyddiadau allweddol

***Profiadau pobl ifanc:*** *Mae lles meddyliol a brwydrau i ddod o hyd i waith neu gadw gwaith ymhlith yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc*

***Gwaethygu heriau a oedd yn bodoli cyn y pandemig***

Cyn y pandemig, roedd **amodau gwaith ansicr** yn broblem i rai pobl ifanc. O ran cyfleoedd ar gyfer gwaith teg, roedd cred gyffredinol ymhlith penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod mewn swyddi ansicr. Roedd y bregusrwydd hwn wedi **dwysau** yn sgîl y pandemig.

Roedd potensial i gyflogwyr fod dan **lai o bwysau masnachol i fabwysiadu arferion gweithio teg** oherwydd cronfeydd mwy o ymgeiswyr. Roedd cyfleoedd yn gyfyngedig ac roedd y gystadleuaeth am unrhyw fath o swydd bellach yn ffyrnig.

Byddai rhai pobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn bodloni ar **unrhyw fath o gyflogaeth** er y byddai'n well ganddynt drefniadau fel oriau penodedig na chontractau dim oriau. Hefyd, dywedwyd fod nifer cynyddol o bobl ifanc a oedd yn gymwys i hawlio **Credyd Cynhwysol** ond yn peidio â'i hawlio, er enghraifft oherwydd diweithdra cyfnodol.

Roedd rhai pobl ifanc yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith cyn i'r pandemig ddod i'r amlwg, er enghraifft am eu bod yn methu ag ymrwymo i weithio oriau penodol oherwydd materion gofal plant. Roedd y ffordd yr oedd **ardaloedd gwledig** wedi cael eu taro'n achosi pryder ar adegau i rai o fudiadau'r trydydd sector a phenderfynwyr ac yn cael ei hadlewyrchu ym mhrofiadau rhai pobl ifanc.

Dywedodd rhai penderfynwyr, dylanwadwyr a rhai o fudiadau'r trydydd sector fod disgwyl i'r pandemig fod wedi **cynyddu anghydraddoldebau presennol ymhlith pobl ifanc**.

***Heriau newydd oherwydd y pandemig***

Roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo bod eu sefyllfaoedd a oedd wedi deillio o'r pandemig yn **llawn straen**, yn galed, yn ddiflas, yn anodd, yn ansicr ac yn unig heb ryw lawer o gymorth

amlwg heblaw am deulu a ffrindiau. Roedd **cymhellion** i astudio ac ymgysylltu'n dioddef weithiau. Y rhai a oedd **yn ddi-waith neu ar ffyrlo oedd fwyaf tebygol o grybwyll heriau iechyd meddwl** er bod pwysau cynyddol gan gyflogwyr i weithio rhagor o oriau neu sifftiau gwahanol yn gallu bod yn broblem o hyd.

Roedd mudiadau'r trydydd sector, penderfynwyr a dylanwadwyr yn aml yn pryderu ynghylch sut yr oedd y pandemig yn effeithio ar **iechyd meddwl a lles**. Roedd mudiadau'r trydydd sector yn poeni bod y pandemig yn mynd i **atal neu wrthdroi'r cynnydd** yr oeddent wedi'i wneud gyda phobl ifanc agored i niwed a chyflogwyr.

Roedd pryderon mwy hirdymor yn cael eu lleisio'n rheolaidd hefyd. Er y gallai prif ffigyrau diweithdra fod yn dechrau gostwng, nid oedd **effaith greithio'r** cyfnod hwn yn amlwg eto.

Roedd y pandemig wedi tarfu ar **lwybrau pobl ifanc i gyflogaeth** hefyd. Roedd heriau o ran dysgu **galwedigaethol** yn cael eu nodi weithiau fel rhai a oedd yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd cyflogaeth pobl ifanc, tra bo rhai mewn addysg uwch yn ei chael yn anodd cynnal eu cymhelliant ac yn teimlo nad oeddent yn cael cymorth.

Problem gyffredin i bobl ifanc â phlant dibynnol oedd mynediad at **ofal plant** a tharfu ar eu rhwydweithiau cymorth.

***Gwaith da, teg***

Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc a oedd mewn cyflogaeth sefydlog yn teimlo ar y cyfan eu bod yn cael **cymorth da** gan eu cyflogwr. Fe wnaeth pobl ifanc sylwadau ar adegau bod newidiadau i'w hamgylchiadau cyflogaeth, er eu bod yn her, wedi gweithredu fel **sbardun i ddilyn uchelgais** (e.e. ailhyfforddi). Cyfeiriodd mudiadau'r trydydd sector at ddiddordeb cynyddol mewn **entrepreneuriaeth** ymhlith pobl ifanc.

Fodd bynnag, gallai'r pandemig, **ynghyd ag effeithiau posibl Brexit**, arwain at 'storm berffaith' gyda hynny'n effeithio ar hawliau gweithwyr a safonau, yn enwedig i bobl ifanc.

***Ymyriadau cyfredol:*** *Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn meddwl weithiau bod ymyriadau ffurfiol yn gwneud gwahaniaeth – ond nodwyd cyfyngiadau ac nid oedd rhyw lawer o ymwybyddiaeth o gymorth ymhlith pobl ifanc*

**Nid oedd cymorth yn flaenllaw ym meddyliau'r** rhan fwyaf o bobl ifanc a gyfranogodd yn yr astudiaeth hon. Roedd ymwybyddiaeth isel o unrhyw sianeli cymorth. Soniodd y rhai a oedd wedi defnyddio cymorth allanol am brofiadau cymysg.

Dywedodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr ei bod yn **rhy gynnar** i allu gwerthuso'r ymyriadau cyfredol yn iawn. Hefyd, roedd disgwyl bod y cynllun ffyrlo'n celu cryn dipyn o ddiweithdra.

Roedd rhai'n credu bod ymyriadau blaenorol a chyfredol yn amlygu bod **sicrhau bod pobl ifanc mwy difreintiedig yn cael profiad gwaith**, prentisiaethau, lleoliadau neu swyddi'n bolisïau effeithiol. Roedd **cynllun Kickstart**[1] Llywodraeth y DU yn cael ei enwi'n rheolaidd mewn trafodaethau fel ymyriad cyfredol a oedd yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc gyda phrofiad a chyfleoedd gwaith. Fodd bynnag, roedd weithiau'n cael ei feirniadu am ei gyrhaeddiad cyfyngedig a'i fiwrocratiaeth.

[1] Gweler https://www.gov.uk/government/news/landmark-kickstart-scheme-opens-to-youth-in-wales

Soniodd rhai penderfynwyr allweddol am **Cymunedau dros Waith**[2] ac, yn achlysurol, **Cymunedau dros Waith a Mwy**[3] fel rhaglenni a oedd yn helpu pobl, gan gynnwys pobl ifanc, i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd. Roedd rhai o fudiadau'r trydydd sector wedi clywed am brofiadau cadarnhaol gan bobl ifanc ar y rhaglen Cymunedau dros Waith hefyd. Ymyriadau eraill a amlygwyd fel rhai effeithiol ar adegau oedd ymyriadau a ddatblygwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi pobl ifanc (e.e. anogwyr gwaith pobl ifanc).

Cafodd **ffyrlo** ei amlygu fel ymyriad ariannol llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd sicrwydd y swyddi hynny yn y tymor hwy yn anhysbys i raddau helaeth. Roedd **Credyd Cynhwysol** yn ddefnyddiol i'r rhai a oedd yn ei hawlio.

Ychydig iawn o **ymyriadau â ffocws ar iechyd a lles** mewn perthynas â chyflogaeth a godwyd. Ychydig iawn o gyfeiriadau hefyd a gafwyd at ddulliau cyfredol sydd wedi'u bwriadu i helpu pobl ifanc i gael mynediad at **waith teg**, ac at gefnogi pobl ifanc â **phlant dibynnol**.

Roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr o'r farn bod **gweithio mewn partneriaeth** yn hanfodol ar gyfer heriau cyffredinol o ran cyflogaeth yn ogystal ag ar gyfer pobl ifanc. Roedd enghreifftiau cadarnhaol a roddwyd yn cynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol[4] a Grwpiau Ymateb ar Gyflogaeth.

**Y tu hwnt i Gymru**, amlygwyd yr Alban, Gogledd Iwerddon, Denmarc a Quebec fel gwledydd a oedd yn mabwysiadu dulliau a oedd yn helpu i gefnogi pobl ifanc (e.e. yn yr Alban, Developing the Young Workforce[5], a hybu perthnasoedd cryfach rhwng y Llywodraeth a sefydliadau'r gymdeithas sifil).

***Newidiadau a allai fod o fudd i bobl ifanc**: Awgrymwyd yn eang y byddai cynnig a warentir yn ffordd ymlaen*

Nododd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr y byddai mwy i'w elwa o ehangu **ymyriadau presennol** a oedd â'r potensial i wneud gwahaniaeth go iawn yn hytrach na cheisio dechrau o'r dechrau.

Roedd cyfranogwyr yn aml yn pwysleisio mai ffordd allweddol o wella rhagolygon cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc, yn y tymor byrrach a hwy, oedd **cynnig a warentir** o ryw ddisgrifiad. Gallai olygu parhau ag ymyriadau presennol neu eu hehangu. Byddai **llwybrau strwythuredig** ar gyfer pobl ifanc i mewn i gyflogaeth yn hanfodol hefyd, yn ôl rhai. Roedd rhai pobl ifanc 18-24 oed hefyd yn teimlo y byddent yn cael budd o **gyngor a chymorth gyrfaoedd gwell a mwy parhaus** gan gynnwys unwaith yr oeddent wedi gadael addysg.

Roedd argymhellion y gallai'r **sector cyhoeddus ei hun** wneud mwy i ddenu pobl ifancach i mewn i'w weithlu fel rhan o ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater.

Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn credu'n rheolaidd ei bod yn hanfodol canolbwyntio ymyriadau ar bobl ifanc **sydd fwyaf tebygol o gael eu taro galetaf** gan y pandemig a'r

---

[2] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/dysgu-sgiliau-newydd/cymunedau-dros-waith
[3] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/dysgu-sgiliau-newydd/cymunedau-dros-waith-a-mwy
[4] Gweler https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol
[5] Gweler https://www.dyw.scot/

dirwasgiad. Awgrymwyd **rhagor o amser mewn addysg** ar gyfer y garfan hon hefyd, naill ai dros dro i ddal i fyny, neu drwy fuddsoddi'n fwy yn y sector addysg bellach (AB).

Hefyd, gellid gwneud mwy, yn ôl rhai cyfranogwyr, i gefnogi pobl ifanc ddifreintiedig â **chysylltedd digidol** gwell.

Awgrymodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr y gallai'r deilliannau i bobl ifanc gael eu gwella trwy ddatblygu **mwy o ffocws ar 'swyddi gwyrdd' ac addasu i newidiadau mewn sectorau**, megis y newid yn y sector manwerthu i fwy o arlwyon ar-lein a digidol. Nodwyd y byddai hyn yn golygu bod angen buddsoddi mewn cefnogi cronfeydd **ail-sgilio** ac mewn cynorthwyo pobl ifanc i ystyried dyheadau gyrfa eraill. Byddai datblygu **sgiliau trosglwyddadwy** yn hanfodol. Byddai **mentora a choetsio** effeithiol, parhaus yn bwysig i gefnogi pobl ifanc yn ystod cyfnodau pontio i mewn i waith neu sectorau gwahanol.

Byddai mynd i'r afael â **rhwystrau o ran y seilwaith**, megis argaeledd cludiant cyhoeddus a thai fforddiadwy, o fudd i bobl ifanc yn ôl rhai.

Roedd disgwyl y byddai mwy o **weithio mewn partneriaeth a chydweithio cryfach** rhwng sefydliadau, er enghraifft wrth ddatblygu polisi a rhwng busnesau ac awdurdodau lleol, yn helpu i gefnogi pobl ifanc yn fwy effeithiol.

***Cael mynediad at waith teg***

Fe wnaeth rhai bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod **llais pobl ifanc** yn rhan o'r broses o gydgynhyrchu datrysiadau. Cafodd **codi'r isafswm cyflog** ei gynnig hefyd fel newid allweddol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith teg. Roedd rhai pobl ifanc yn cwyno am faterion gyda gweithio oriau amrywiol ac roedd arnynt eisiau **mwy o sicrwydd** gyda'u trefniadau gweithio.

Nododd rhai cyfranogwyr hefyd y dylai fod yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru neu'n manteisio ar ei chynlluniau cymhellion cyflogaeth neu gyflogadwyedd **gwrdd ag amodau penodol o ran gwaith teg**.

Mewn rhai achosion, roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn teimlo bod a wnelo'n fwy â **gwneud yr hyn oedd yn iawn i'r person ifanc**, ac efallai na fyddai disgwyl gwaith teg i bawb, ym mhob sefyllfa, yn bragmatig iawn yn y tymor byrrach. Roedd rhai pobl ifanc yn daer am unrhyw fath o waith.

Roedd rhai rhieni ifainc yn meddwl y byddai **darpariaeth gofal plant gwell, am gost isel neu am ddim** yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w cyfleoedd gwaith.

***Cwestiynau ymchwil a bylchau o ran gwybodaeth:*** *Mae anghenion penderfynwyr / dylanwadwyr lle mae gwybodaeth yn y cwestiwn yn eang ond mae iechyd meddwl, data ar gyfer Cymru a chlywed gan bobl ifanc oll wedi'u cynnwys*

O bryd i'w gilydd, dywedodd penderfynwyr a dylanwadwyr fod eisoes ddigon o **dystiolaeth a gwersi presennol** o ddirwasgiadau diweddar, ymyriadau polisi, a data sy'n dod i'r amlwg y gellid eu defnyddio i helpu i oleuo polisi yn y maes hwn.

Roedd meysydd o ddiddordeb yn cynnwys y canlynol:

- Effaith newidiadau o ran cyflogaeth ar **iechyd meddwl a lles** pobl ifanc yng Nghymru. Roedd enghreifftiau o fylchau canfyddedig yn cynnwys yr effeithiau creithio hirdymor, a mwy o fewnwelediad ansoddol gan ymarferwyr a phobl ifanc; (*penderfynwyr a dylanwadwyr)*

- Adnabod **anghenion o ran gwybodaeth ac iddi ffocws pendant i weithredu arnynt**. Byddai'n werthfawr mabwysiadu dull croestoriadol o ymdrin â'r heriau i bobl ifanc yng Nghymru: pa nodweddion unigol oedd fwyaf tebygol o roi pobl ifanc mewn perygl; (*penderfynwyr a dylanwadwyr)*
- Mwy o **ddata cadarn ar lefel Cymru ac weithiau ar lefel ranbarthol** ynghylch pobl ifanc ac effaith diweithdra; (*penderfynwyr a dylanwadwyr)*
- **Sut i gyrraedd y bobl ifanc sydd fwyaf difreintiedig** ac wedi ymddieithrio fwyaf; *(penderfynwyr)*
- Sut y byddai'r farchnad lafur yn edrych i **bobl ifanc yn y dyfodol** a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau ei chael ar eu cyfleoedd bywyd. Byddai angen i strategaethau'r Llywodraeth fod ar gael ymhell ymlaen llaw a bod yn ddigon manwl fel bod y rhaglenni **hyfforddiant** a datblygu **sgiliau** angenrheidiol yn gallu cael eu rhoi ar waith. Roedd hefyd yn bwysig deall i ba raddau yr oedd **galw cronedig** mewn rhai sectorau yn y farchnad lafur; (*dylanwadwyr yn bennaf)*
- Effaith heriau o ran cyflogaeth ar **ddibynyddion pobl ifanc**; (*penderfynwyr a dylanwadwyr)*
- **Beth sy'n cael ei nodi gan bobl ifanc fel yr hyn y mae arnynt ei eisiau neu ei angen** o ran cyfleoedd gwaith ac i'w helpu i ailymuno â'r farchnad lafur. (*Penderfynwyr a dylanwadwyr)*

## *Casgliadau*

Nid oedd pobl ifanc ar y cyfan yn **ymwybodol o unrhyw gymorth** a allai eu helpu i edrych y tu hwnt i'r sectorau y byddent yn disgwyl iddynt eu cyflogi neu eu helpu gyda'u pryderon ynghylch eu rhagolygon cyflogaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i ddatblygu a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael.

Un o'r elfennau cyffredin trwy'r gwaith hwn yw effaith newidiadau o ran cyflogaeth ar **iechyd meddwl a lles** pobl ifanc: fel her a wynebir a maes lle mae ar benderfynwyr a dylanwadwyr eisiau dealltwriaeth well am y sefyllfa yng Nghymru. Nid oedd gan rai pobl ifanc yn yr astudiaeth hon a oedd ar ffyrlo, mewn addysg neu hyfforddiant unrhyw ffynonellau cymorth amlwg – roeddent yn ansicr pa gyfleoedd oedd o'u blaenau. Gallai lefelau cymhelliant lleihaol a nodwyd gan rai effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y dyfodol gan yr effeithir o ganlyniad ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a datblygu.

Roedd y rhai a oedd mewn cyflogaeth yn dal i allu wynebu amgylcheddau gwaith a theuluol yn llawn pwysau. Byddai angen i ymdrechion i ddarparu cyngor, profiad a datblygiad sgiliau sicrhau bod iechyd meddwl a lles yn cael eu hystyried, gyda chymorth amlwg i ddatblygu cydnerthedd.

Thema arall ymhlith penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector yw'r angen i **glywed yn fwy uniongyrchol gan bobl ifanc ac ymarferwyr** sy'n gweithio gyda hwy, i ddarparu mewnwelediad ansoddol mewn meysydd o ddiddordeb ac i helpu i oleuo polisi. Byddai hyn yn golygu peidio â dibynnu ar y llinellau cyfathrebu arferol gyda fforymau presennol ac ati o anghenraid ond yn hytrach archwilio ffyrdd o ymgysylltu â'r rhai a oedd prin yn cael eu clywed.

Daeth **cynnig a warentir** o brofiad gwaith, prentisiaethau, hyfforddiant neu swyddi i'r amlwg fel un o'r awgrymiadau allweddol ar gyfer rhoi cymorth gwell i bobl ifanc. Roedd rhai'n teimlo y dylid gwneud ymdrechion i ehangu neu wella'r hyn y gwyddys ei fod yn gweithio ac ymyriadau presennol. Hefyd, nodwyd ei bod yn debygol mai ffocws ar y rhai a allai elwa fwyaf ac a oedd fwyaf difreintiedig fyddai'n dwyn y mwyaf o fudd. Roedd anghydraddoldebau cynyddol ymhlith pobl ifanc yn bryder allweddol.

Argymhellwyd yn aml y dylid archwilio sut y gall pobl ifanc gael budd o **adferiad gwyrdd** a sectorau eraill er y pwysleisiwyd y byddai cyfleoedd yn dal i fod yn gyfyngedig a bod y sectorau sy'n draddodiadol wedi bod yn cyflogi pobl ifanc yn dal i fod yn debygol o ddarparu mwy o swyddi.

Galwyd weithiau am ddarlun mwy eglur o'r sefyllfa yng **Nghymru** (ac ar lefel ranbarthol i rai) o'i gymharu â'r DU a nodwyd y byddai hynny'n hwyluso prosesau penderfynu gwell.

Roedd **gwaith teg** yn tueddu i beidio â bod yn gysylltiedig ag ymyriadau a chymorth cyfredol ac ni roddodd pobl ifanc yr argraff eu bod yn ymwybodol o'u hawliau nac yn teimlo wedi'u grymuso i leisio'u barn yn hyn o beth. Ystyriwyd ei fod yn bwysig ac roedd cyfranogwr yn meddwl y gellid ei gefnogi trwy amryw awgrymiadau megis codi'r isafswm cyflog, cynnwys pobl ifanc mewn cynlluniau ar gyfer adferiad gwyrdd ac yng ngweithlu'r sector cyhoeddus; a gosod amodau pellach ar fusnesau sy'n cael cymhellion a chymorth gan y Llywodraeth. Byddai'n allweddol sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'u bod wir yn cael budd o ymyriadau gyda chyflogwyr o'u cymharu ag unigolion mwy profiadol; a bod rolau ychwanegol yn cael eu creu yn hytrach na'u bod yn disodli staff presennol.

## 2. Y sefyllfa a chefndir y gwaith

Mae pandemig COVID-19 a’r mesurau i’w reoli wedi cael effaith aruthrol ar yr economi a chyflogaeth. Roedd nifer y cyflogeion a oedd ar ffyrlo yng Nghymru’n 125,000 ar 30 Tachwedd 2020 ac fe gynyddodd hyn i 158,700 o gyflogeion a oedd ar ffyrlo ar 31 Rhagfyr[6]. Cododd y ffigwr ymhellach i 183,400 o gyflogeion a oedd ar ffyrflo ar 31 Ionawr 2021. Wedyn mae amcangyfrifon dros dro’n dangos gostyngiad bach i 175,200 ar 28 Chwefror.

Bu gostyngiad mawr yn y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl 16 i 24 oed dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystadegau cyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2021, roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y rhai 16 i 24 oed wedi gostwng 4.7 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol, i 50.8%[7]. Roedd hyn yn cymharu â gostyngiad yn y gyfradd ar gyfer y rhai 35 i 49 oed o 0.7 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol, i 84.9%.

Mae’r sector llety a gwasanaethau bwyd wedi cael ei daro’n arbennig o galed gan effaith y pandemig. Ar hyn o bryd, mae dros hanner (52 y cant) y gweithwyr yn eu 20iau cynnar yn y DU yn gweithio yn y sectorau hyn, i fyny o 44 y cant ymhlith y rhai a aned ddegawd yn gynharach[8]. Pobl ifanc (18-24 oed) a’r rhai o’r grwpiau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed yng Nghymru yw’r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf o ganlyniad i gau busnesau.

Ystyrir bod plant bach, a’r rhai sydd heb gael eu geni eto, yn arbennig o agored i risg o ganlyniad i ddirywiadau economaidd gan bod hon yn adeg yng nghylch bywyd pan fo taflwybrau corfforol a gwybyddol yn cael eu pennu, a bod diweithdra yn gynnar ym mywyd gwaith unigolyn yn gallu cael effeithiau creithio hirdymor[9].

Er yn gymysg, mae tystiolaeth yn dangos bod dirwasgiadau a dirywiadau economaidd yn effeithio ar lawer o ddeilliannau iechyd, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â mynychder cyflyrau iechyd meddwl cyffredin, defnyddio sylweddau a hunanladdiad. Mae’r dystiolaeth ar gyfer effaith diweithdra ar iechyd yn arbennig o gryf. Mae’n debygol felly, heb ymyriadau digonol, y bydd y dirywiad economaidd sy’n gysylltiedig â COVID-19, a hwnnw’n cael ei waethygu gan effeithiau andwyol tebygol Brexit, nid yn unig yn effeithio ar iechyd a lles y genhedlaeth bresennol, ond yn effeithio ar iechyd a lles cenedlaethau dilynol hefyd gyda phosibilrwydd gwirioneddol o gynyddu anghydraddoldebau iechyd.

Fe wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gomisiynu’r astudiaeth hon i oleuo’i waith gydag asiantaethau yng Nghymru er mwyn lliniaru effeithiau andwyol newidiadau o ran cyflogaeth sy’n gysylltiedig â COVID-19 ar iechyd a thegwch iechyd cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol yng Nghymru.

---

[6] Gweler https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-february-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-february-2021

[7] Gweler https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/employmentintheuk/latest

[8] Gweler https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2020/11/From-locking-down-to-levelling-up.pdf

[9] Gweler https://www.ifs.org.uk/publications/14799

## 3. Amcanion a dull yr ymchwil

### 3.1 Amcanion yr ymchwil

Nod cyffredinol y gwaith hwn oedd ennyn mewnwelediad i'r boblogaeth gan sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc, pobl ifanc 18-24 oed (â phlant dibynnol a heb blant dibynnol) a dylanwadwyr ar bolisi a phenderfynwyr ynghylch y newidiadau o ran cyflogaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19. Y pynciau allweddol yr ymdriniwyd â hwy ar draws y cynulleidfaoedd targed oedd:

- Archwilio profiadau pobl ifanc ers i'r pandemig ddechrau gyda ffocws ar newidiadau a rhagolygon o ran cyflogaeth, yr heriau a wynebir, ac unrhyw effaith ar iechyd a lles teuluol;
- Ennyn canfyddiadau am ymyriadau a chymorth cyfredol sydd wedi'u bwriadu i helpu pobl ifanc gyda newidiadau a rhagolygon o ran cyflogaeth;
- Casglu barn ynglŷn â pha newidiadau fyddai'n rhoi cymorth i bobl ifanc yn y dyfodol gyda chyfleoedd ar gyfer gwaith, gan gynnwys gwaith da, teg.

Hefyd, gofynnwyd i benderfynwyr a dylanwadwyr adnabod cwestiynau ymchwil yr hoffent iddynt gael eu hateb neu fylchau o ran gwybodaeth yr hoffent iddynt gael eu llenwi.

### 3.2 Dull a sampl yr ymchwil

Defnyddiodd yr ymchwil ddull ansoddol oherwydd natur yr amcanion. Roedd yn cynnwys cymysgedd o weithdy ar-lein, grwpiau ffocws ar-lein, a chyfweliadau unigol, manwl a gynhaliwyd naill ai ar-lein neu dros y ffôn. Manteision dull ansoddol i'r prosiect hwn oedd:

- Y gallu i archwilio'r amrywiaeth mewn perthynas â'r pynciau a oedd o ddiddordeb mewn mwy o fanylder nag a fyddai'n bosibl trwy ddull meintiol;
- Y gallu i gyrraedd grwpiau o ddiddordeb y byddai'n anodd i'w cynnwys fel arall gan ddefnyddio dull meintiol;
- Y cyfle i archwilio gyda chyfranogwyr eu hawgrymiadau ynghylch sut y dylai'r dyfodol edrych i bobl ifanc o ran cyfleoedd gwaith.

Anfantais bosibl y dull ansoddol hwn oedd y gallu cyfyngedig i ddod i gasgliadau pendant o'r adborth y gellir eu cymhwyso i boblogaeth, gan na fyddai'r sampl, o fwriad, yn gynrychioliadol. Fodd bynnag, mae ymchwilio ansoddol wedi'i fwriadu i ddarparu dealltwriaeth fanwl a oedd yn ofynnol ar gyfer archwilio amcanion yr ymchwil. Ei gryfderau yw'r gallu i adnabod themâu ar draws grwpiau amrywiol, darparu enghreifftiau eglurhaol o brofiadau a barn a dynodi cydgyfeiriad neu wahaniaeth barn neu brofiadau a nodir.

Defnyddiwyd dull systematig i adnabod cyfranogwyr yn ystod pob cam; gweithdy gyda'r trydydd sector, grwpiau ffocws o bobl ifanc a chyfweliadau gyda dylanwadwyr ar bolisi a gwneuthurwyr polisi.

Roedd cyrraedd cyfranogwyr posibl ym mudiadau'r trydydd sector yn her weithiau. Efallai mai'r rheswm dros hyn oedd effaith y pandemig a'r mesurau i gyfyngu arno ar gynnal gwasanaeth dan amodau o'r fath. Yn fwy cyffredinol, roedd hefyd yn amlwg ei bod yn adeg brysur iawn i rai cyfranogwyr posibl, yn enwedig ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr. Caiff y dull, y sampl a gyflawnwyd a'r dulliau recriwtio eu nodi isod. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 20 Ionawr ac 16 Mawrth 2021.

Fe adnabuwyd **mudiadau yn y trydydd sector** a oedd â rôl arwyddocaol o ran cefnogi pobl ifanc yng Nghymru, trwy adolygu'r elusennau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a thrafod sefydliadau elusennol ymbarél yng Nghymru. Fe aseswyd cyrff sy'n gweithredu dros y DU gyfan o ran eu harlwy yng Nghymru a chafodd rhai sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig eu cynnwys. Cytunwyd ar dri chategori:

- Asiantaethau â ffocws penodol ar gynorthwyo pobl ifanc i gael cyflogaeth;
- Asiantaethau sy'n rhoi amrywiaeth ehangach o gymorth i bobl ifanc er enghraifft trwy weithgarwch chwaraeon a theatrig ond sydd hefyd yn cynnig cymorth gyda chyflogaeth a sgiliau;
- Asiantaethau sy'n rhoi cymorth (gan gynnwys cyflogaeth) i grwpiau penodol o bobl ifanc megis y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a phobl ifancach anabl.

Roedd y rhan hon o'r ymchwil yn cynnwys gweithdy ar-lein dwyawr o hyd gydag **16 o fudiadau'r trydydd sector** yn cymryd rhan. Roedd y sesiwn yn cynnwys grwpiau neilltuo fel y byddai gan gyfranogwyr fwy o gyfle i siarad mewn manylder am y pynciau o ddiddordeb. Datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru restr fer o fudiadau i gysylltu â hwy. Roedd hyn yn cynnwys mudiadau a fyddai mewn sefyllfa dda i adnabod mudiadau a allai fod yn gyfranogwyr. Wedyn cysylltodd Beaufort â'r mudiadau i egluro'r prosiect a phwyso a mesur lefelau'r diddordeb – roedd lefelau ymgysylltu'n uchel.

Y mudiadau a gymerodd ran oedd: Adoption UK Cymru; Barnardo's Cymru; Y Groes Goch Brydeinig; Busnes yn y Gymuned Cymru; Gyrfa Cymru; Gofalwyr Sir Gâr; Catch 22; Creu Menter; Elite Supported Employment Agency Ltd; Ysbrydoli i Weithio; Pobl a Gwaith; Ymddiriedolaeth Shaw (Syniadau Mawr Cymru); STEM Cymru; We Mind The Gap; Ieuenctid Cymru; a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid.

***Pobl ifanc 18-24 oed*: cynullwyd *chwe grŵp ffocws ar-lein*** gyda chymysgedd o fenywod a dynion 18-24 oed, gyda 33 o gyfranogwyr ar y cyfan. Fe barodd y trafodaethau am hyd at un awr. Roedd cyfansoddiad y grwpiau fel a ganlyn:

- Dau grŵp gyda phobl ifanc ag o leiaf un plentyn dibynnol gartref. Roeddent yn cynnwys cymysgedd o amgylchiadau megis cyflogedig (gwaith ansicr ac nid mor ansicr[10]), di-waith ac mewn hyfforddiant neu addysg;

[10] Ar adeg eu recriwtio, cafodd y cyfranogwyr ystod o ddatganiadau mewn perthynas â mathau ansicr o waith a gofynnwyd iddynt pa rai os o gwbl oedd yn berthnasol iddynt hwy. Gweler Benach et al (2016) ar gyfer trafodaeth am ddiffiniadau ar gyfer cyflogaeth ansicr. *International Journal of Epidemiology*, Cyfrol 45, Rhifyn 1, Chwefror 2016, Tudalennau 232–238, https://academic.oup.com/ije/article/45/1/232/2363833

- Un grŵp gyda phobl ifanc a oedd yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig a ddim mewn gwaith ansicr nac ar ffyrlo, heb unrhyw blant dibynnol gartref;
- Un grŵp gyda phobl ifanc a oedd mewn hyfforddiant neu addysg gan gynnwys cymysgedd o leoliadau galwedigaethol ac addysg uwch, heb unrhyw blant dibynnol gartref;
- Un grŵp gyda phobl ifanc mewn gwaith ansicr neu ar ffyrlo, heb unrhyw blant dibynnol gartref;
- Un grŵp gyda phobl ifanc a oedd yn ddi-waith ac yn ceisio gwaith, heb unrhyw blant dibynnol gartref.

Roedd y sampl yn cynnwys 9 siaradwr Cymraeg a phum cyfranogwr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio'n bennaf trwy rwydwaith Beaufort o recriwtwyr ansoddol ledled Cymru. Cafodd nifer fach o gyfranogwyr eu recriwtio gyda chymorth caredig mudiad yn y trydydd sector hefyd. Y rhanbarthau yng Nghymru a gwmpaswyd gan y grwpiau ffocws oedd: Caerdydd, Sir y Fflint / Sir Ddinbych, Ceredigion, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Benfro, a Thorfaen. Felly roedd y sampl yn cwmpasu cymunedau gwledig, rhanbarthau arfordirol, ardaloedd y Cymoedd a dinasoedd ledled Cymru.

Cafodd **penderfynwyr a dylanwadwyr ar bolisi** eu hadnabod ar lefel genedlaethol (swyddogion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y bydd academaidd (Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru), Cyngres yr Undebau Llafur, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad Bevan), cyrff rhanbarthol (Bargen Ddinesig[11]), lleol (Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol) a rhyngwladol (Llywodraeth yr Alban). Ar lefel leol, cafodd cynghorwyr awdurdod lleol, ac uwch swyddog, mewn swyddi penderfynu eu cynnwys ar draws y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Roedd cynrychiolaeth o blith awdurdodau lleol yn cynnwys Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy yn ogystal ag o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Un o'r ffactorau cyfyngol o ran recriwtio'r holl gyfranogwyr a dargedwyd oedd amser ac adnoddau. Roedd hyn yn her arbennig o ystyried bod gwaith maes wedi cael ei wneud ar adeg nodweddiadol anodd o'r flwyddyn, yn ystod y pandemig a chyda chyfyngiadau symud llawn mewn grym o hyd, dros gyfnod y Nadolig a chyn cyfnod etholiad yng Nghymru.

Fe wnaeth bwrdd prosiect a oedd yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (timau lleol a chenedlaethol) oleuo ac adolygu'r dull o adnabod cyfranogwyr.

### 3.3 Canllaw trafod, dadansoddi ac adrodd

Ar gyfer pob cynulleidfa ymchwil, fe ddrafftiodd Beaufort ganllaw i'r pynciau i'w ddefnyddio yn y trafodaethau a gwblhawyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd pob canllaw wedi'i seilio'n fanwl ar y meysydd pwnc a ddisgrifir yn 3.1.

[11] Gweler https://busnes.senedd.cymru/documents/s68161/Adroddiad.pdf


Defnyddiwyd dull anwythol o wneud y gwaith dadansoddi lle gwnaeth yr ymchwilwyr gategoreiddio'r data i ddatblygu themâu a oedd yn dod i'r amlwg o gynnwys y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau. Cafodd y categorïau a'r themâu eu fframio'n fras o fewn amcanion a meysydd pwnc allweddol yr ymchwil.

Defnyddir inc trwm yn yr adroddiad i nodi themâu a newid pwnc. Mae sylwadau air-am-air dienw a wnaed gan gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn lle hynny maent yn rhoi mewnwelediad i safbwyntiau unigol am y pwyntiau a nodir. Mae gan bob sylw briodoliad sy'n dynodi nodweddion y cyfranogwr.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn werthusiad o ymyriadau na mentrau. Ei nod yw rhoi mewnwelediad ansoddol i ganfyddiadau'r gwahanol gynulleidfaoedd ymchwil am newidiadau a heriau o ran cyflogaeth ieuenctid o ganlyniad i'r pandemig. Mae'n bosibl nad yw canfyddiadau cyfranogwyr o anghenraid yn adlewyrchu realiti neu'n gwbl gywir.

Fe hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru a Beaufort Research ddiolch yn fawr i'r holl gyfranogwyr a roddodd o'u hamser gwerthfawr i gyfrannu at y gwaith hwn.

# 4. Profiadau pobl ifanc o gyflogaeth a llwybrau at gyflogaeth ers i'r pandemig ddechrau




4.1 Effaith y pandemig ar iechyd a lles pobl ifanc

4.2 Yr effaith ar bobl ifanc a llwybrau at gyflogaeth

4.3 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc

4.4 Cydnabyddiaeth i effaith y pandemig ar sectorau sy'n cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc

4.5 Cynyddu anghydraddoldeb

4.6 Heriau dod o hyd i waith da, teg a'i gadw

4.7 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg

## 4. Profiadau pobl ifanc o gyflogaeth a llwybrau at gyflogaeth ers i'r pandemig ddechrau

Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr heriau y mae pobl ifanc wedi'u hwynebu o ran cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ers i'r pandemig ddechrau, yn ôl pobl ifanc, mudiadau'r trydydd sector, penderfynwyr a dylanwadwyr. Mae hefyd yn ymdrin ag unrhyw effeithiau a nodwyd ar iechyd a lles plant dibynnol. Rhoddir sylw hefyd i brofiadau a deilliannau mwy cadarnhaol o ran cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. Mae dwy ran gyntaf y bennod hon wedi'u rhannu'n fras rhwng heriau a oedd yn fwy tebygol o fod yn newydd a heriau a oedd yn fwy tebygol o fodoli eisoes ac a oedd wedi dwysau oherwydd y pandemig. Cydnabyddir, i rai pobl ifanc, y gallai'r materion yn yr adran a ddisgrifir fel rhai a oedd yn fwy tebygol o fod yn newydd fod wedi bodoli eisoes iddynt hwy.

***Heriau a wynebwyd gan bobl ifanc a oedd yn fwy tebygol o fod yn newydd***

### 4.1 Effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc

Roedd geiriau a ddisgrifiwyd gan bobl ifanc yn yr astudiaeth hon i grynhoi eu profiadau mewn perthynas â gwaith neu ddod o hyd i waith, hyfforddiant neu addysg ers i'r pandemig ddechrau'n negyddol gan mwyaf. Y geiriau mwyaf cyffredin oedd 'dirboenus', 'diflas' ac 'anodd' (gweler y ffigur isod). Roeddent weithiau'n defnyddio geiriau megis 'gorlethol', 'amhosibl', 'ofnadwy' a 'trawmatig'. Disgrifiodd rhai eu teimladau yn ystod y cyfnod trwy ddefnyddio geiriau fel 'gorbryderus', 'nerfus' ac 'unig'. Roedd rhai a oedd wedi cael profiadau mwy niwtral neu gadarnhaol yn ystod y pandemig yn tueddu i grybwyll mai ychydig o newid yr oeddent wedi'i weld neu eu bod yn teimlo'n ffodus am nad oedd y sefyllfa wedi effeithio arnynt.




> *Amhosibl gyda'r diffyg addysg a'r diffyg hyfforddiant yn yr ardal yma lle'r wyf yn byw. Nid oes llawer o swyddi, y cwbl sydd yma yw ffatrïoedd bwyd neu ffatrïoedd gwaith dur felly does dim llawer o swyddi mewn gwirionedd, felly mae fwy neu lai'n amhosibl. (Gwryw, 18-24, plant dibynnol)*

> *Byddwn i mwy na thebyg yn dweud diflas, yn bersonol. Dyna sut y byddwn i'n ei ddisgrifio, yn syml am nad oes llawer o gyffro'n gysylltiedig â gwneud pethau ar-lein. (Benyw, 18-24, mewn addysg)*

Roedd pobl ifanc ar y cyfan o'r farn bod y cyfyngiadau symud diweddaraf yn anos i'w goddef na'r cyfyngiadau symud cyntaf a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020. Oherwydd yr adeg o'r flwyddyn a'r tywydd, nid oedd yn bosibl bod yn yr awyr agored gymaint na chwrdd â ffrindiau'r tu allan (pan oedd hynny'n cael ei ganiatáu). Dywedodd llawer o bobl ifanc eu bod yn ei chael yn **anodd bod yn gryf eu cymhelliant** ac roeddent yn dweud eu bod wedi diflasu ac yn treulio gormod o amser ar eu PlayStation neu Xbox (dynion fel rheol) neu'n gwylio'r teledu. Dywedodd rhai cyfranogwyr gwrywaidd eu bod yn colli chwaraeon tîm a chymdeithasu gyda ffrindiau ar ôl gemau. Roedd cyfranogwyr benywaidd yn colli eu rhwydweithiau cymdeithasol hefyd ond roeddent yn fwy tebygol o grybwyll sesiynau FaceTime neu Zoom neu ffonio teulu neu ffrindiau. Roedd y ddau ryw weithiau'n dweud ei bod yn anos cadw'n heini ac yn gryf eu cymhelliant gyda champfeydd ar gau.

> *Rwyf wedi arfer chwarae pêl-droed ac yna cymdeithasu wedyn. Dim ond gweld ffrindiau yn y ffordd arferol, mae mor hurt ar hyn o bryd. Mae fel gwaith heb hwyl. Drosodd a throsodd. (Gwryw, 18-24, cyflogaeth sicr)*

> *Dydw i ddim wir yn gwneud llawer, dim ond mynd am dro bob dydd. Heblaw am hynny, rwyf yn y gwely'n gwylio'r teledu gan mwyaf. Does dim byw i'w wneud mewn gwirionedd. Allwn ni ddim mynd allan yn awr, allwch chi ddim cwrdd â ffrindiau, allwch chi ddim gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd heblaw gyda'r bobl ar yr un aelwyd â chi – ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw gyda'u mamau a'u tadau. Felly allwch chi ddim gwneud unrhyw beth mewn gwirionedd. (Benyw, 18-24, ar ffyrlo)*

Roedd y rhai ar ffyrlo ar y cyfan yn colli bod yn y gwaith oherwydd y strwythur yr oedd yn ei roi i'w diwrnod, y gallu i gymdeithasu, y sicrwydd ariannol a'r ymdeimlad o gyflawniad a boddhad. Roedd rhai eisoes yn ei chael yn anodd yn ariannol gan bod taliadau ffyrlo wedi lleihau neu wrth iddynt wynebu'r disgwyliad y byddai ffyrlo'n dod i ben. Ar ben hynny, roedd rhai'n pryderu'n fawr ynghylch eu rhagolygon o ddychwelyd i'r gwaith a'u sefyllfa ariannol hirdymor. Y rhai a oedd yn **ddi-waith neu ar ffyrlo oedd fwyaf tebygol o grybwyll heriau iechyd meddwl** – roedd llawer o'r cyfranogwyr hyn yn siarad am straen, rhwystredigaeth, anhunedd, gorbryder, teimlo diffyg cymhelliant a gofid parhaus am arian.

> *Byddwn i'n dweud ei fod yn cael effaith wael ar fy iechyd meddwl. Rydych chi'n sylwi ar hynny'n bendant gyda'r diffyg amrywiaeth yn eich bywyd. Mae pob diwrnod yr un fath onid yw, mae wedi bod yr un fath am amser hir bellach? (Gwryw, 18-24, di-waith)*

> *Mae'n fy ngwneud i'n fwy gorbryderus, ac wn i ddim beth sy'n mynd i ddigwydd gyda gwaith. Rwy'n gwybod na fydd swydd gen i ar ôl hyn felly mae'n gwneud i mi boeni ychydig. Mae'n gwneud i chi feddwl pan ydych heb ddim i'w wneud hefyd. (Benyw, 18-24, ar ffyrlo)*

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo **nad oeddent yn gallu cael gafael ar unrhyw gymorth** gyda'u hiechyd meddwl a'u lles yn ystod y cyfyngiadau symud. Roeddent weithiau'n ansicr ble i fynd neu'n gyndyn o gysylltu â'u meddyg teulu pan oeddent yn amau na fyddent yn cael apwyntiad personol. Fel gyda dysgu ar-lein, roedd rhai'n fwy cyfforddus gyda rhyngweithiadau wyneb-yn-wyneb. Hefyd, roedd rhai rhieni ifainc yn teimlo bod arnynt

angen seibiant oddi wrth eu plant a bod arnynt eisiau cwmni oedolyn. Siaradodd rhai am bwysau bod gyda'i gilydd yn yr un tŷ drwy'r dydd, yn enwedig os nad oeddent yn gweithio.

> *Ar y cyfan gyda'r holl goronafeirws byddwn i'n dweud bod fy iechyd meddwl wedi gwaethygu ychydig o'i gymharu â sut oedd yn wreiddiol. Rwy'n dioddef gyda gorbryder ac iselder. Nawr, a minnau wedi bod â mwy o amser ar fy nwylo ac wedi bod yn siarad gyda phobl eraill ar-lein, rwyf wedi sylwi bod gennyf faterion iechyd meddwl eraill hefyd, sy'n amlwg wedi gwneud i mi boeni ychydig bach mwy. Mae angen i mi gysylltu â'r meddyg ond rwy'n poeni na fydd y meddygon yn siarad gyda mi, oherwydd fy mod yn gwybod nad ydynt yn gwneud unrhyw apwyntiadau na dim. Felly wedyn rwy'n poeni, os byddaf yn ffonio'r meddygon mai'r cwbl y byddant yn ei wneud fydd dweud, dydyn ni ddim yn gallu gwneud apwyntiadau, fe siaradwn ni gyda chi dros y ffôn. Nid yw apwyntiad dros y ffôn yn dda iawn, dydw i ddim yn dda ar y ffôn. Dydw i'n syml ddim yn hoffi siarad gyda phobl ar y ffôn yn gyffredinol. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Er bod y rhai mewn **cyflogaeth sicr** yn tueddu i fod yn llai tebygol o grybwyll unrhyw effaith andwyol fawr ar eu hiechyd a'u lles, roedd rhai sefyllfaoedd gweithio'n effeithio ar iechyd meddwl cyfranogwyr.

Roedd un cyfranogwr 18-24 oed yn gweithio mewn archfarchnad leol yn yr adran siopa ar-lein, a oedd wedi ffynnu ers i'r pandemig ddechrau. Er ei fod yn falch i fod â swydd barhaol, sicr (ar ôl colli ei swydd flaenorol yn ystod y cyfyngiadau symud) roedd yn cael bod y patrymau sifftiau amrywiol yr oedd yn eu gweithio yn awr yn rhoi straen ar fywyd y cartref, ei berthynas â'i bartner a'i iechyd. Roedd ei sifftiau'n newid o ddydd i ddydd – gan ddechrau weithiau am 2am, tra gallent ddechrau am 4pm ar ddiwrnodau eraill – ac roedd yn gweithio ar benwythnosau. Roedd hi felly'n anodd dod o hyd i drefn reolaidd ac roedd hyn yn effeithio arno mewn nifer o ffyrdd – roedd yn mynd heb fwyta prydau, doedd dim egni ganddo ac roedd yn bwyta diet nad oedd yn iach ac yn bwyta byrbrydau o fwyd sothach. Cafodd hefyd ei fod yn flinedig ac yn bigog gyda'i bartner ac roedd yn teimlo'i fod yn colli amser o safon gyda'i fachgen bach. Er ei fod yn ddiolchgar ei fod wedi sicrhau swydd lawn-amser (dechreuodd fel swydd ran-amser a chontract dros dro) a bod yr archfarchnad ddim yn 'gyflogwr gwael', roedd arno eisiau gweithio naill ai o 9am-5pm neu weithio patrymau sifftiau a oedd yn sefydlog am wythnos ar y tro. Dywedodd hefyd nad oedd digon o staff yn y siop ac felly bod gweithwyr yn gorfod gwneud gwaith pobl eraill a bod hyn yn creu rhagor o bwysau.

> *Yn ystod rhai wythnosau rwy'n iawn ac yn yr wythnosau eraill, ydw, rwyf wedi ymlâdd yn llwyr ac rydym yn dadlau'n fwy am bethau, yn naturiol, ac rwyf wedi troi at ddiodydd egni a phethau felly dim ond i gadw tanwydd yn fy nghorff. Oherwydd os dychmygwch chi, pan wyf wedi cael fy niwrnod o'r gwaith ar ddydd Iau, a minnau wedi cael noson lawn o gwsg y diwrnod cyn hynny, dydw i ddim yn barod i fynd i'r gwely tan 10 o'r gloch, ond os na fyddaf yn syrthio i gysgu tan 10 o'r gloch a minnau'n gorfod codi am 1am yn y bore, rwy'n rhedeg ar danc gwag. (Gwryw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Roedd y rhai mewn cyflogaeth sefydlog weithiau'n dioddef rhywfaint o **unigedd a diflastod** hefyd. Roeddent yn colli eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u ffrindiau. Ar ben hynny, roedd rhai'n cael agweddau ar weithio gartref yn gryn her, er enghraifft ymlacio ar ddiwedd y diwrnod gwaith, dysgu swydd newydd (yn anos o bell) neu weithiau dim ond cael atebion i ymholiadau.

Roedd y rhai a oedd wedi dechrau yn y brifysgol yn ystod y pandemig yn aml yn siarad am deimlo wedi'u hynysu ychydig a methu â gwneud ffrindiau newydd. Roeddent weithiau dan straen ac yn teimlo'n isel am yr holl sefyllfa, a oedd yn gwbl wahanol i'r profiad o brifysgol yr oeddent wedi bod yn edrych ymlaen ato. Roedd hefyd yn anodd i rai fethu â gweld eu teulu, os oeddent yn byw oddi cartref yn ystod y cyfyngiadau symud – roeddent yn gweld eisiau eu rhieni a'u siblingiaid. Disgrifiodd un cyfranogwr sut yr oedd pobl a oedd yn cyd-fyw wedi dechrau ymladd a hwythau wedi treulio cymaint o amser gyda'i gilydd.

Roedd mudiadau'r trydydd sector a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc yn aml yn codi'r pryder ynghylch sut yr oedd effaith y pandemig ar gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn effeithio ar iechyd meddwl a lles. Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn pwysleisio'r mater hefyd. Cafodd diffyg cyfleoedd, gweithio mewn rolau ansicr, amharu ar addysg a llwybr gyrfa ac ansicrwydd ynghylch y rhain, dysgu a gweithio o bell, tlodi mewn gwaith, rheoli dyled, gwarthnod sy'n gysylltiedig â budd-daliadau, disgwyliadau gan gyflogwyr i weithio gartref gyda phlant bach i ofalu amdanynt, canfyddiad cymdeithas am ddiweithdra a mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd meddwl eu rhoi fel enghreifftiau o ffactorau a oedd yn effeithio ar bobl ifanc. Roedd y rhai a oedd yn gweithio ond yn byw gyda rhieni'n wynebu gorbryder pellach gyda phryderon ynghylch trosglwyddo COVID-19 i eraill gartref.

> *Mae'r bobl ifanc yr wyf fi wedi siarad gyda nhw'n gaeth i'w cartrefi, yn eu gwelyau, mae wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl mewn ffordd fel nad ydynt yn gallu mynd allan a chymysgu gydag unrhyw un, ac mae hynny'n mynd i effeithio ar eu sgiliau, eu sgiliau cymdeithasol yn y dyfodol. Mae rhai pobl ifanc wedi bod yn ddi-waith am rai misoedd bellach, efallai'n mynd i rigol neu mae'n effeithio ar eu hyder ac ati. Gallaf weld y bydd yn anos iddynt gael gwaith drachefn. (Trydydd sector)*

> *Y peth penodol yr ydym yn ei weld yw iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Hyd yn oed os ydych yn ystyried dangosydd procsi ieuenctid a'r galw ar wasanaethau gofal iechyd yna rydym yn gwybod o'n gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, bod cynnydd gwirioneddol, ac yn y boblogaeth oedolion hefyd. (Dylanwadwr)*

Po hwyaf oeddent yn peidio â gweithio, po anoddaf y disgwylid iddi fod iddynt gael gwaith gan bod iechyd meddwl a sgiliau rhyngbersonol yn dioddef. Soniodd un penderfynwr am gynnydd mewn hunan-niwed ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad yn eu rhanbarth ymhlith pobl ifanc. Hefyd, yn ôl y sôn roedd data'n dangos bod pobl ifanc yn wynebu mwy o risg o **dlodi mewn gwaith** a oedd yn bwysig ar gyfer iechyd yn gyffredinol ac iechyd meddwl yn benodol.

Roedd pryderon tymor hwy'n cael eu lleisio'n rheolaidd hefyd. Er y gallai'r prif ffigyrau diweithdra fod yn dechrau gostwng, roedd **effaith greithio'r** cyfnod hwn, yn enwedig ar bobl

ifanc, yn dal i gael ei gweld. Cyfeiriwyd yn achlysurol at yr angen i ddysgu o waith David Blanchflower a David Bell ar ddiweithdra ieuenctid a'i effaith greithio hirdymor a oedd yn dra hysbys[12].

> *Ymddengys fod pobl a oedd eisoes dan anfantais wedi cael eu taro. Rwy'n meddwl mai un o'r pethau yr ydym wedi'u hadnabod, ac rydym yn siarad gyda gweinidogion yn enwedig am yr ochr ieuenctid ohono, rhywbeth y mae gan weinidogion ddiddordeb mawr iawn ynddo [yw] yr effeithiau creithio hirdymor. Eto mae tystiolaeth i awgrymu o ddirwasgiadau blaenorol y gall yr effaith ar bobl ifanc barhau'n hwy na'r effaith gychwynnol. Felly lle gallai prif gyfraddau o ran diweithdra ddechrau gostwng, gall yr effeithiau ar bobl ifanc barhau'n hwy o lawer. Rydym yn gofidio am hynny. (Penderfynwr)*

## 4.2 Yr effaith ar bobl ifanc a llwybrau at gyflogaeth

Roedd gan gyfranogwyr a oedd mewn addysg neu hyfforddiant broblemau weithiau gyda **dysgu ar-lein** ac roeddent yn cael y diffyg gwersi wyneb yn wyneb yn ddirboenus ac yn anodd ymdopi ag ef. Crybwyllodd rhai broblemau ymarferol megis mynediad at y meddalwedd cywir a chyfrifiaduron â manyleb uchel ar gyfer cyrsiau technegol. Roedd dysgwyr addysg bellach (AB) yn teimlo weithiau nad oedd dealltwriaeth gyda swm yr aseiniadau a oedd yn cael eu rhoi iddynt eu gwneud ar-lein. Gallai'r profiadau hyn adael pobl ifanc yn teimlo wedi'u gorlethu ac yn orbryderus ynghylch syrthio ei hôl hi o'i gymharu â'u cymheiriaid.

> *Allwch chi ddim gweld beth mae pobl yn ei wneud, dim ond yr hyn y maent yn ei gyflwyno, eu graddau, yr ydych yn ei weld, ac rydych yn meddwl, ydw i'n colli rhywbeth? Rwy'n ofnadwy gyda thechnoleg fel y mae hi, felly nid yw hynny'n helpu mewn gwirionedd. Mae gan bobl liniaduron da, lle da i weithio a phethau felly. A does gen i ddim gliniadur sy'n gweithio, felly'r pethau bychain sy'n ei wneud ychydig yn anos, ac rwy'n teimlo fel pe bai'n sefyll allan yn fwy pan mai dim ond ar eich sgriniau yr ydych yn gweld y bobl hyn. Dydych chi ddim yn cael gweld eu hwynebau na rhyngweithio â hwy. Mae'n teimlo'n fwy cystadleuol. (Benyw), 18-24, mewn addysg)*

Cafodd **diffyg cymorth gan brifysgolion** ei godi ar adegau gan bobl ifanc. Roedd cyferbyniad, serch hynny, rhwng gwahanol brifysgolion: roedd rhai cyfranogwyr yn cael cyfathrebiadau rheolaidd ac yn teimlo'u bod yn cael cymorth da, tra bo eraill yn cael llai o gyswllt ac yn teimlo'u bod yn cael eu gadael i fwrw ymlaen â phethau, a hwythau'n gorfod ceisio cymorth gan eu rhwydweithiau eu hunain.

Codwyd materion ymhlith mudiadau'r trydydd sector, penderfynwyr a dylanwadwyr ynghylch effaith y pandemig ar **lwybrau pobl ifanc i gyflogaeth** hefyd. Roedd y rhain yn ymwneud â chael mynediad at leoliadau a phrentisiaethau, offer, nifer y gwersi a oedd yn cael eu dysgu a'r ffaith bod effaith y pandemig ar ddysgu'n dal i gael ei theimlo mewn modd

[12] Blanchflower, D. a Bell, D. 2011. *Young People and the Great Recession*; gweler http://ftp.iza.org/dp5674.pdf

anghyfartal[13]. Lleisiwyd pryder hefyd ynghylch effaith addysg yr amharwyd arni ar bobl ifanc 15-17 oed sy'n byw mewn aelwydydd incwm is yn arbennig, a'r niwed a all fod wedi cael ei wneud i'w cyfleoedd cyflogaeth.

> *Mae hynny wedi bod yn effaith fawr ar y bobl ifanc hynny sydd fwyaf difreintiedig sydd bellaf i ffwrdd, sef nad ydynt yn gallu cwblhau eu hyfforddiant oherwydd senarios y cyfyngiadau symud. Mae hynny wedi bod yn broblem fawr. Mae cyfleoedd ar gyfer lleoliad gwaith wedi bod yn broblem enfawr i ddarparwyr hyfforddiant sy'n rhwystr i'w derbyn i gyflogaeth. (Trydydd sector)*

Roedd heriau o ran dysgu **galwedigaethol** yn cael eu nodi weithiau ar draws y cyfranogwyr yn yr ymchwil fel rhai a oedd yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd gwaith pobl ifanc, gyda phrentisiaethau a oedd wedi'u hatal dros dro ac achosion o amharu ar brosesau asesu ymarferol ac oedi gyda'r prosesau hynny. Roedd y rhai yr effeithiwyd arnynt yn teimlo rhwystredigaeth a gorbryder ynghylch beth fyddai'n digwydd nesaf. Roedd hi'n anodd dysgu heb gymorth wyneb yn wyneb.

Roedd risg y gallai cyflogwyr golli hyder yn y garfan o bobl ifanc a oedd yn ennill cymwysterau galwedigaethol nad oeddent wedi gallu dangos ansawdd eu dysgu a'u sgiliau mewn modd digonol. Serch hynny, roedd un penderfynwr yn rhagweld y byddai digon o ymchwil yn cael ei chynnal i'r pwnc yma. Roedd penderfynwr arall yn credu bod gostyngiad canfyddedig mewn cyllid ar gyfer sgiliau a hyfforddiant AB yr economi sylfaen[14] cyn y pandemig bellach yn ei gwneud yn anos byth i rai pobl ifanc fwy difreintiedig ddringo'r ysgol yrfaoedd.

Nid oedd tad ifanc di-waith yng Ngogledd Orllewin Cymru'n gallu bwrw ymlaen â'i hyfforddiant galwedigaethol am bod y Coleg AB lleol ar gau. Fe'i canfu ei hun heb ddim i'w wneud yn ystod y pandemig – cyn y pandemig roedd wedi bod yn gwirfoddoli'n rheolaidd, ond roedd cyfleoedd i wirfoddoli wedi mynd yn hesb hefyd gan bod y safle wedi cau. Roedd cyfranogwr arall yn ei arddegau hwyr yn gwneud prentisiaeth mewn gwaith saer maen ond dywedodd ei fod 'yn segur', am bod y coleg ar gau a bod asesiadau wedi peidio.

> *Rwy'n meddwl, i bobl fel fi sydd mewn crefft ac yn ceisio dysgu, does dim byd mewn gwirionedd – allwch chi ddim gwneud gwaith crefft ar-lein, alla i ddim codi carreg a dechrau ei rhoi mewn wal ar-lein. Felly nid oes unrhyw aseswyr i ddod allan i'm gweld. Ar hyn o bryd, rwy'n segur. Dydw i ddim yn ennill unrhyw gymwysterau, dim byd. Nid yw unrhyw golegau ar agor (Gwryw, mewn addysg)*

Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith bod y data'n dangos mwy o bobl ifanc yn **aros ymlaen mewn addysg** yn ystod y pandemig. Y pryder oedd y gallai hyn brofi'n broblemus pan fydd y garfan hon yn gadael addysg os oedd cyflenwad annigonol o swyddi.

> *Er y bu'r gostyngiad mawr hwn mewn cyflogaeth ymhlith pobl ifanc, mae cryn dipyn o'r rheiny wedi ymateb i hynny trwy aros mewn addysg. Mae'r nifer nad ydynt mewn*

[13] Gweler https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2021/01/Learning-in-Lockdown.pdf
[14] Gweler https://llyw.cymru/yr-economi-sylfaenol

*cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wedi codi ychydig, ond nid yn aruthrol. Felly, rwy'n meddwl y gallem fod yn pentyrru problemau ar gyfer adeg yn ddiweddarach yn y flwyddyn. (Dylanwadwr)*

### 4.3 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc

Un o'r problemau cyffredin i bobl ifanc â phlant dibynnol yn yr astudiaeth hon oedd **gofal plant** ac achosion o amharu ar eu trefn ddyddiol arferol oherwydd y coronafeirws. Yn aml nid oedd modd defnyddio rhwydweithiau cymorth teuluol yn ystod y pandemig, a oedd yn golygu bod yn rhaid i rieni addasu eu patrymau gweithio o bryd i'w gilydd. Nid oedd y rhan fwyaf mewn swyddi â thâl da ac nid oeddent yn gallu fforddio darpariaeth mewn meithrinfa breifat i'w plant, felly roedd yn rhaid iddynt ymdopi orau y gallent.
Os oeddent yn hunangyflogedig neu'n cael eu cyflogi trwy asiantaethau, nid oeddent yn cael unrhyw dâl os nad oeddent yn gallu gweithio, felly roedd incwm aelwyd rhieni'n aml yn llai. Roedd hon yn broblem nid dim ond lle'r oedd gofal plant rheolaidd yn y cwestiwn ond hefyd pan oedd sefyllfaoedd annisgwyl yn codi megis plant yn bod yn sâl a'r angen i'r teulu cyfan hunanynysu.

*Mae fy mhartner . . . yn hunangyflogedig [fel garddwr tirlunio] felly mae'n derbyn llai o gyflog er mwyn i mi fynd i'r gwaith. Dim ond unwaith yr wythnos y mae'n mynd i'r gwaith er mwyn gofalu am yr un bach. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Fel a enghreifftiwyd yn 4.2, roedd effeithiau ar ofal plant weithiau'n effeithio ar allu rhieni ifainc i ddarparu **bywyd teuluol sefydlog**. Amharwyd ar oriau gwaith rhieni, er enghraifft gorfod newid o weithio oriau rheolaidd ar ddiwrnodau yn ystod yr wythnos mewn archfarchnad i sifftiau nos gan gynnwys penwythnosau oherwydd y cynnydd mewn busnes. Prin yr oedd rhieni gyda'i gilydd fel uned deuluol.

Canfu gweithwraig gofal ifanc yng Ngorllewin Cymru fod ar ei chyflogwr eisiau iddi weithio rhagor o oriau yn ystod y pandemig ond roedd hi'n ei chael yn anodd cael gofal plant ar gyfer ei mab, a oedd yn yr ysgol feithrin. Ei fam-gu oedd yn gofalu amdano o boptu oriau'r ysgol feithrin fel arfer, ond nid oedd hyn yn bosibl mwyach pan darodd y coronafeirws am bod ei fam-gu'n fregus ac nad oeddent am greu risg y gallai hi ei ddal. Roedd yr oriau ysgol rhan-amser yn anodd dygymod â hwy heb gymorth teuluol felly bu'n rhaid iddi dynnu ei mab allan o'r ysgol feithrin. Bu hi a'i phartner yn aros gartref o'r gwaith bob yn ail i ofalu amdano, a oedd yn golygu bod incwm eu haelwyd yn llai – dim ond am yr oriau yr oedd yn gweithio yr oedd hi'n cael tâl ac roedd ei phartner yn hunangyflogedig.

> *Rwyf wedi ei dynnu allan o'r ysgol oherwydd COVID. Rydym yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant iddo yn awr, a chan fy mod i a'm partner ein dau'n gweithio'n llawn-amser, rhaid i un ohonom aros gartref o'r gwaith i ofalu am ein plentyn bach. . . . Byddai fy mam yn codi [ein mab] ar ôl ysgol, am 12, a byddai hi'n cwrdd â mi yn rhywle am 6pm pan fyddwn yn gorffen gwaith. Roedd yn hawdd iawn ond ers COVID, mae wedi bod yn anodd. Mae fy mam mewn grŵp risg uchel hefyd. Rwy'n mynd i'r gwaith gyda rhywun sydd mewn grŵp risg uchel ac mae fy mam mewn grŵp risg uchel, felly allwch chi ddim cymysgu. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Roedd mudiadau'r trydydd sector, penderfynwyr a dylanwadwyr yn disgwyl neu'n gwybod bod polisïau a oedd wedi'u bwriadu i reoli'r pandemig, fel **cau ysgolion a gweithio gartref**, yn effeithio'n arbennig ar rieni a rheini sengl â phlant bach. Hefyd, ystyriwyd yn achlysurol bod y ffaith nad oedd rhieni sengl wedi'u heithrio mwyach rhag ceisio gwaith yn debygol o ychwanegu at heriau'r rhiant gan effeithio ar y plentyn hefyd o bosibl. Hefyd, gallai fod disgwyliadau afrealistig gan rai cyflogwyr o ran pa mor effeithiol y gallai rhiant ifanc weithio gartref gan ofalu am blant dibynnol ar yr un pryd. Roedd disgwyl i effaith bod yn gaeth i'w cartref gan mwyaf, a chyda rhieni'n profi pwysau sylweddol, ddwyn goblygiadau ar gyfer iechyd meddwl a lles plant yn ogystal ag iechyd meddwl a lles rhieni.

Roedd mudiadau'r trydydd sector yn pryderu bod rhieni ifainc yn **methu â chael mynediad at rwydweithiau cymorth ffurfiol ac anffurfiol** yn ystod y cyfyngiadau symud a oedd yn arwain at 'leihau eu rhagolygon'. Nid oedd aelodau o'r teulu a fyddai fel arfer yn helpu gyda gofal plant yn gallu gwneud hynny mwyach oherwydd mesurau cyfyngu. Hefyd, cyfeiriodd un mudiad at sefyllfaoedd lle'r oedd rhieni a oedd yn weithwyr allweddol wedi symud allan o'r cartref i ddiogelu plant bregus a oedd yn golygu mai siblingiaid hŷn a oedd o bosibl mewn addysg, hyfforddiant neu'n chwilio am waith oedd y prif ofalwyr o ganlyniad.

> *Mae gen i berson ifanc yn ei arddegau y mae ei fam yn nyrs. Mae mam bellach yn byw mewn fflat fach, ac yna mae'r person ifanc yn ei arddegau'n gofalu am y sibling sydd yn yr ysgol gynradd, ac sy'n awtistig. (Trydydd sector)*

Credid fod plant dibynnol i rieni mewn grŵp oedran ychydig yn hŷn, sef 25-49, yn wynebu mwy o risg na phlant dibynnol i bobl ifanc 18-24 oed oherwydd **dyled bersonol gynyddol**, yn ôl un dylanwadwr a gwaith ei sefydliad. Roedd rhieni yn y grŵp oedran hŷn hwn yn ôl y sôn yn syrthio ar ei hôl hi gyda biliau ac yn benthyca gan olygu hyd yn oed pe baent yn cael gwaith (drachefn), ei bod yn bosibl na fyddai'n ddigon i gadw safonau byw.

Ar y cyfan, roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn tybio bod hwn yn faes pwysig ond yn tueddu i **beidio â bod yn gyfarwydd** ag unrhyw fanylder ar y pwnc. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod materion o ran sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth yn dod yn anos i'w hadfer po hynaf oedd unigolyn; felly mai dull ataliol a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant oedd y dull gorau posibl.

### *Heriau a oedd yn fwy tebygol o fodoli cyn y pandemig*

## 4.4 Cydnabyddiaeth i effaith y pandemig ar sectorau sy'n cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc

Roedd llawer o'r sectorau yr oedd pobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn eu targedu ar gyfer gwaith wedi cael eu **taro'n arbennig o galed yn ystod y pandemig**, fel manwerthu, gwallt a harddwch, campfeydd, a lletygarwch. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod wastad wedi wynebu heriau yn ceisio dod o hyd i waith (dim digon o gymwysterau, ddim yn ddigon profiadol, ddim yn gallu bod yn hyblyg oherwydd gofal plant) ond bod y pandemig wedi **dwysáu'r heriau**.

> *Hyd yn oed cyn y pandemig roeddwn i'n ei chael yn anodd iawn dod o hyd i waith. Rwy'n meddwl mai'r rheswm yw bod arnynt eisiau pobl sy'n brofiadol a phan oeddwn i'n chwilio am waith, am fy mod yn 16 pan gefais [fy merch],. . . roeddent hwy'n chwilio am rywun nad oedd yn mynd i fod yn rhiant, nad oedd yn feichiog. Roeddent yn chwilio am bobl a oedd yn fwy hyblyg ynglŷn â'r hyn y gallant ei wneud. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*



Roedd cydnabyddiaeth eang ymhlith mudiadau'r trydydd sector a phenderfynwyr a dylanwadwyr i'r her barhaus ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gweithio, wedi gweithio neu a fyddai wedi bod â'u bryd ar weithio mewn **sectorau a gafodd eu taro'n anghymesur gan y pandemig**. Roedd disgwyl ymhlith y cyfranogwyr hyn, mewn hierarchaethau busnes, bod pobl ifanc gyflogedig yn fwy tebygol o fod yn llai sicr yn ariannol ac ymhlith y cyntaf i golli eu swydd. Hyd yn oed gydag egin adferiad y gobeithir amdano yn sgîl cyflwyno brechiadau, lleisiwyd pryder ar adegau na fyddai'r sector manwerthu, er enghraifft, yn gallu gweld rhyw lawer o ddychweliad at ryngweithiadau ffisegol â siopwyr gyda hynny'n effeithio ar rolau i bobl ifanc. Yn lle hynny, gallai mannau adwerthu ar y stryd fawr gael eu haddasu i bwrpasau gwahanol neu eu cau'n gyfan gwbl.

> *Maen nhw fel arfer ar gontractau byrdymor, efallai nad ydynt yn gymwys ar gyfer ffyrlo, efallai nad ydynt wedi bod gyda chyflogwr am yn ddigon hir. Rydym yn canfod hefyd bod eu horiau'n amrywio, yn yr ystyr y gofynnir iddynt gyflenwi pan fo staff yn sâl. (Trydydd sector)*

Roedd un penderfynwr yn credu bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i ddeall y materion hyn i sectorau ar lefel eang, gan sefydliadau megis Resolution Foundation[15], y Sefydliad Economeg Newydd[16], a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith[17] ymhlith eraill. Yn ôl y sôn roedd dadansoddiadau rheolaidd ar gael hefyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid[18] ar lefel y DU, wedi'u rhannu fesul gwlad. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad oedd data ar effaith yr amgylchiadau hyn ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc ar gael yn ôl pob golwg.

> *Mae'r farchnad gyflogaeth wedi dymchwel i lawer o bobl ifanc. Rydych yn clywed llai am hynny yn awr nag oeddech yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, ond bu achosion o 300 neu fwy yn ymgeisio am swydd mewn bar. Y diwydiant lletygarwch ac arlwyo, sy'n cyflogi, . . . wyddoch chi, mae wedi anrheithio'r sector manwerthu. . . . Yr hyn sydd ddim gennym yw pobl yn edrych ar iechyd meddwl a lles unigolion yn y categorïau hyn. (Penderfynwr)*

Roedd newidiadau yn y sectorau hyn y nodwyd eu bod wedi effeithio ar bobl ifanc eisoes ar y gweill cyn y coronafeirws ac wedi cael eu cyflymu gan y pandemig, yn ôl rhai penderfynwyr a dylanwadwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn awtomeiddio a gwasanaethau ar-lein, twf yr economi gìg a gweithio gartref. Hefyd, yn seiliedig ar ddata perchnogol diweddar, eglurodd un dylanwadwr sut yr oeddent yn gweld niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn gadael Cymru i weithio yn Lloegr oherwydd y canfyddiad bod cyfleoedd gwell i'w cael. Roedd y duedd ymddangosiadol hon wedi dechrau cyn y pandemig.

> *Po fwyaf yr ydym yn siarad gyda gweithwyr iau, po fwyaf o rwystredigaeth y maent yn ei theimlo. Rwyf hefyd yn poeni . . . ein bod eisoes yn gweld pan oeddem ar fin gadael yr Undeb Ewropeaidd bod mwy o weithwyr iau â'u bryd ar adael Cymru, neu i'r rhai a oedd wedi gadael Cymru i astudio, neu i ddechrau chwilio am raglenni a chyfleoedd prentisiaeth, roeddent yn gadael ac yn mynd i Loegr. . . . Mae'n mynd yn waeth o ddydd i ddydd. (Dylanwadwr)*

Roedd enghreifftiau yn yr astudiaeth hon lle'r oedd pobl ifanc wedi profi **effeithiau mawr** ar eu cyflogaeth oherwydd y pandemig.

Cafodd tad 21 oed i faban bach a oedd yn gweithio i gwmni rheoli gwastraff yng Ngogledd Cymru alwad o'i weithle ar ei ffordd i'r gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud i ddweud eu bod yn ei ryddhau am bod busnes wedi mynd yn hesb. Gan ei fod yn cael ei gyflogi trwy asiantaeth nid oedd hawl ganddo i unrhyw rybudd â thâl na thaliad colli swydd. Nid oedd unrhyw gynilion ganddo i syrthio'n ôl arnynt ac roedd ei bartner gartref gyda'r baban, felly am ryw fis (nes iddo lwyddo i ddod o hyd i swydd arall) bu'n rhaid iddo gael benthyg arian gan ei fam-gu a thad-cu a 'defnyddio'r cerdyn credyd i'r eithaf' i ddarparu ar gyfer ei deulu.

Roedd cyfranogwr arall yng Nghymoedd De Cymru wedi bod yn gweithio mewn meithrinfa breifat ac wedi cael ei rhoi ar ffyrlo i ddechrau ond wedi colli ei swydd wedi hynny gan bod y feithrinfa'n gofalu am lai o blant a bod angen llai o staff arni o ganlyniad. Ers hynny, roedd hi

[15] Gweler https://www.resolutionfoundation.org/
[16] Gweler https://neweconomics.org/
[17] Gweler https://learningandwork.org.uk/
[18] Gweler https://www.ifs.org.uk/

wedi bod yn gweithio fel gweithwraig gofal cymunedol ond nid oedd yn cael cymaint o sifftiau ag yr oedd eu hangen arni i ddarparu incwm rhesymol ar ei chyfer. Roedd hi'n gynorthwyydd addysgu cymwysedig ond nid oedd yn gallu dod o hyd i waith mewn ysgol yn ystod y pandemig.

Pwynt arall a wnaed ynghylch cyfle i bobl ifanc oedd, pan fo'r economi yn mynd i mewn i ddirwasgiad, **bod cwmnïau'n rhoi'r gorau i recriwtio**. Roedd yn ei gwneud yn arbennig o anodd i bobl ifanc a oedd yn ymuno â'r farchnad lafur am eu bod yn tueddu i fynd i mewn i swyddi newydd neu brentisiaethau. Roedd yr her felly'n ymwneud nid dim ond â'r sectorau a oedd wedi cael eu taro'n wael gan y pandemig, ond hefyd â'r diffyg cyfleoedd a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer pobl ifanc yn y farchnad lafur.

> *[Mae prentisiaethau yn] un o'r rhaglenni cyntaf i ddod i ben mewn cyfnod anodd. Felly rwy'n meddwl bod hynny'n her gan bod cynnydd da iawn wedi cael ei wneud yno [cyn y pandemig]. (Trydydd sector)*

Cafodd y ffordd y mae **ardaloedd gwledig** wedi cael eu taro ei hadlewyrchu gan brofiadau rhai pobl ifanc yn yr astudiaeth hon. Fe wnaeth y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig sylwadau ynglŷn â chyn lleied o waith oedd ar gael yn eu hardal leol tra bo'r rhai yng Nghymoedd De Cymru wedi dweud bod canol eu trefi wedi bod yn dirywio am amser hir. Roedd hefyd yn bryder penodol ar adegau i rai penderfynwyr rhanbarthol a mudiadau yn y trydydd sector, o ystyried y ddibyniaeth mewn rhai rhanbarthau ar dwristiaeth, hamdden a lletygarwch. Nid oedd disgwyl i sector gwledig allweddol arall, amaethyddiaeth, apelio rhyw lawer fel dewis arall i bobl ifanc o ystyried y tâl isel ac, weithiau, yr oriau gwaith.

> *Yr unig leoedd sydd ar agor yma yw banciau, archfarchnadoedd, ac yna mae pawb arall yn gweithio ar ffermydd. Maen nhw'n cael swyddi gan eu teulu ac ati felly maen nhw'n iawn. (Benyw, 18-24, di-waith, ardal wledig)*

> *Mae angen i'r gymuned wledig wneud rhai o'r swyddi traddodiadol hynny'n rhai y mae'n werth eu gwneud. Felly mae'r tâl i weithio ar ffermydd a dilyn amaethyddiaeth mor isel, . . . dyw hynny i gyd yn syml ddim yn gweithio. (Penderfynwr)*

Yn gysylltiedig â hyn, roedd materion **cludiant cyhoeddus** mewn ardaloedd mwy gwledig wedi bodoli cyn y pandemig ac roeddent yn parhau i gyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth yn ôl rhai pobl ifanc, penderfynwyr a mudiadau yn y trydydd sector. Roedd gorfod rhedeg car oherwydd opsiynau cludiant cyhoeddus cyfyngedig neu nad ydynt yn bod yn golygu treuliau ychwanegol sylweddol. Roedd ganddo hefyd y potensial i wneud swyddi'n anneniadol o safbwynt ariannol. Hefyd, roedd cyfranogwyr yn meddwl bod rhaid pobl ifanc yn fwyfwy dibynnol ar eu rhieni ac aelodau o'u teulu i'w gyrru i ac o'r gweithle, yn enwedig gan bod gwersi a phrofion gyrru wedi cael eu hatal yn rheolaidd yn ystod mesurau cyfyngu. Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch dibynadwyedd gwasanaethau, gyda gyrwyr yn colli gwaith oherwydd y coronafeirws neu am eu bod yn gorfod hunanynysu, ac ynghylch dal COVID-19 ar gludiant cyhoeddus.

> *Mae cludiant yn dipyn o broblem [yn yr ardal hon yn y Cymoedd]. Maen nhw wedi newid amseroedd y bysiau ac mae'r bysiau bellach ychydig ymhellach ar wahân a*

> *dim ond nifer benodol o bobl maen nhw'n eu caniatáu ar bob bws. Os ydych yn colli bws yna, os yw eich cyfweliad am ddau o'r gloch a'r bws am hanner awr wedi un a chithau'n colli'r bws hwnnw, yna rydych wedi colli eich cyfweliad. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

#### *4.4.1 Gostyngiad mewn incwm*

Roedd gan bobl ifanc yn yr astudiaeth hon a oedd ar ffyrlo ar y pryd brofiadau cymysg. Er bod ychydig yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cyflogwyr ac yn hyderus y byddai ganddynt swyddi i ddychwelyd atynt, nid oedd llawer yn cael rhyw lawer o gymorth, os o gwbl, ac roeddent yn ansicr ynghylch eu dyfodol. Rhoddwyd enghreifftiau lle'r oedd bosys yn ôl pob golwg yn osgoi cyswllt pan oedd ar y person ifanc eisiau canfod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf. Roedd y rhan fwyaf i'w gweld fel pe baent yn cael taliad ffyrlo'r Llywodraeth, heb gyfraniad o gwbl gan eu cyflogwr, a oedd yn achosi problemau ariannol gan bod eu tâl yn mynd yn llai bob mis. Roedd rhai'n ei chael yn anodd cadw eu pennau uwchlaw'r dŵr ar eu hincwm is, ac roedd gorfod cael benthyg arian gan ffrindiau a theulu i gael deupen llinyn ynghyd weithiau'n codi cywilydd. I eraill, roedd yr effaith yn llai difrifol, gan olygu bod ganddynt lai o incwm gwario a'u bod wedi rhoi'r gorau i gynilo'n rheolaidd.

Roedd mam sengl yn ei 20iau cynnar a oedd yn byw yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi rhoi'r gorau dros dro i'w swydd fel cynorthwyydd gofal iechyd mewn ysbyty lleol am ei bod yn pryderu ynghylch y risg o ddal y feirws yn y gwaith a'i drosglwyddo i'w phlentyn bach ac aelodau bregus eraill o'r teulu. Caniataodd ei chyflogwr iddi gymryd gwyliau di-dâl, ond effeithiwyd ar ei hincwm tra nad oedd hi yn y gwaith. Cafodd Gredyd Cynhwysol ond roedd hi'n dal i ddibynnu ar gymorth gan ei mam gyda phrydau a hanfodion ar gyfer ei phlentyn.

Roedd cyfranogwr arall a oedd ar ffyrlo o'i swydd yn gweithio yn y bar mewn parc carafanau yng Ngogledd Cymru yn ei chael yn anodd yn ariannol, gan bod ei thâl ffyrlo'n lleihau'n gyson bob mis a chan nad oedd ei chyflogwr yn ychwanegu ato.

> *Roedd fy nhaliad ffyrlo cyntaf yn un gweddol uchel, ond yn awr gyda fy nhaliad ffyrlo olaf mae'n isel iawn. Mae wedi mynd â thua phedwar can punt oddi arnaf, ac mae gweld fy slip cyflog heddiw, a gweld y taliad yn mynd i lawr, wedi effeithio arnaf go iawn. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud. Dechreuais feichio llefain dros arian, oherwydd bob mis rwyf wedi bod yn cael fy nhâl ffyrlo, ond mae'n dod i ben. Mae hi mor fain arnaf, does dim arian gen i, dim byd. Rhaid i mi fy mwydo fy hun a'm partner, rhaid i ni ymorol amdanom ni ein hunain yma. Mae mor anodd, mae'n peri gofid mawr mewn gwirionedd. Dyna'r effaith fwyaf arnaf fi – swm yr arian sydd wedi cael ei ollwng o'm taliad ffyrlo. (Benyw, 18-24, ar ffyrlo)*

Hefyd, roedd llawer o'r cyfranogwyr mewn addysg lawn-amser wedi colli gwaith rhan-amser rheolaidd a oedd wedi profi'n werthfawr o ran rhoi incwm iddynt wrth astudio. Cyfyngedig oedd y cyfleoedd i ddod o hyd i swyddi rhan-amser newydd yn y pandemig, gydag effaith wael ar sectorau megis adwerthu a lletygarwch, a chystadleuaeth ffyrnig am yr ychydig o gyfleoedd a oedd yn weddill. Mewn lleoliadau mwy gwledig, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc mewn addysg a oedd wedi dychwelyd adref, disgrifiwyd enghreifftiau lle'r oedd ychydig iawn o gyflogwyr a oedd yn ei gwneud fwy neu lai'n amhosibl dod o hyd i waith rhan-amser.

Roedd y sefyllfa'n achosi gorbryder gan nad oedd diwedd yn y golwg y gallent ganolbwyntio arno.

> *Rwy'n byw mewn tref mor fach beth bynnag . . . ac yn ystod y cyfyngiadau symud, mae gennym ddwy archfarchnad sydd ar agor, felly dyna'r cwbl sydd ar agor i ni. Felly mae wedi bod yn anodd dod o hyd i rywbeth arall. (Benyw, 18-24, mewn addysg)*

Dywedwyd ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr fod pobl ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o fod wedi symud yn ôl i mewn gyda theuluoedd i helpu gyda heriau ariannol. Cydnabuwyd nad oedd hyn heb ei broblemau o ystyried ei effaith ar ddatblygu annibyniaeth a'r effaith bosibl ar fynediad at fudd-daliadau. Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod hwyhau'r hyn a ddisgrifir fel y **cyfnod ieuenctid**[19] - estyn prosesau pontio pobl ifanc i annibyniaeth – yn y DU lle'r oedd pobl ifanc yn dibynnu ar deulu am lawer yn hwy, wedi cael ei gyflymu gan y pandemig. Cyfeiriodd un penderfynwr at adborth anecdotaidd bod rhieni wedyn yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd pobl ifanc, er enghraifft yn peidio â chaniatáu iddynt dderbyn neu ailgydio mewn lleoedd yn y brifysgol oherwydd pryderon ynghylch y coronafeirws.

Gan adleisio'r safbwyntiau hyn, roedd pobl ifanc yn yr astudiaeth hon a oedd yn byw gartref gyda rhieni'n llai tebygol o fod yn unig neu o fod yn dioddef yn ariannol ond roeddent yn disgrifio heriau eraill, megis colli eu hannibyniaeth a'u rhyddid. Roedd rhai'n teimlo eu bod wedi mynd yn ôl yn blentyn.

#### *4.4.2 Profiadau mwy cadarnhaol ymhlith pobl ifanc*

Roedd pobl ifanc ar adegau'n gwneud y sylw bod newidiadau i'w hamgylchiadau cyflogaeth, er yn her, wedi gweithredu fel **sbardun i ddilyn uchelgais**. Canfu rhiant sengl yn Ne Ddwyrain Cymru fod ei chyflogwr yn bwriadu cau'r gangen o asiantaeth wyliau ar y stryd fawr yr oedd hi'n gweithio ynddi, tua'r un adeg ag yr oedd hi i fod i ddychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth. Fe'i hysgogodd i ddilyn ei huchelgais i ymgymryd â chwrs yn y Brifysgol Agored, a hithau ar yr un pryd yn tyfu busnes ar-lein.

I ychydig o rai eraill, roedd y pandemig wedi agor cyfleoedd newydd. Roedd cyfranogwr ar ganol ei hyfforddiant mynediad at ofal iechyd lefel 3 ac yn bwriadu mynd i'r brifysgol pan dorrodd COVID-19, felly fe gefnodd ar ei addysg a dechrau gweithio mewn rôl iechyd yr oedd wedi bod yn awyddus i roi cynnig arni. Roedd y pandemig wedi golygu bod digon o sifftiau ar gael ar adegau a oedd yn gweddu iddo. Roedd un arall yn gweithio fel peiriannydd telathrebu ac wedi gweld y galw am fand eang yn cynyddu'n gyflym a oedd wedi bod o fudd i fusnes.

[19] Gweler https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13676260500431628

## 4.5 Cynyddu anghydraddoldeb




Dywedodd rhai penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector fod disgwyl hefyd i'r pandemig fod wedi cynyddu **anghydraddoldebau presennol ymhlith pobl ifanc a hefyd gyda chenedlaethau hŷn**. O safbwynt hyfforddiant ac addysg, roedd rhai'n disgwyl i'r bwlch rhwng pobl ifanc amddifadus a phobl ifanc eraill gynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd y pandemig, wrth i genedlaethau iau gwblhau eu haddysg lawn-amser gyda lefelau amrywiol o ymgysylltiad a chysylltedd. Fel enghraifft, cyfeiriwyd at faterion gyda mynediad at brofiad gwaith lle gallai pobl ifanc o gefndiroedd mwy breintiedig fod wedi meddu ar y cysylltiadau i allu sicrhau'r profiad hwnnw mewn rhyw ffordd yn ystod y pandemig. Efallai mai'r canlyniad fydd mwy o ymgysylltiad â hyfforddiant ac addysg ymhlith y rhai sydd eisoes bellaf o'r farchnad lafur. Ar ben hynny, efallai y byddai pobl ifanc â chymhwyster graddedig wedi bod â mwy o allu i weithio gartref tra gallai pobl ifanc heb gymhwyster graddedig fod wedi bod mewn rolau mwy ansicr pan ddaeth y coronafeirws i'r amlwg a hwythau o bosibl ddim yn gallu gweithio gartref neu wneud hynny mewn modd cynhyrchiol o anghenraid.

Fe wnaed y pwynt hefyd bod newid cyfoeth a chyfle'n digwydd yn ôl y sôn **o genedlaethau iau i rai hŷn** a hwnnw'n newid anodd i bobl ifanc ei atal. Roedd wedi bodoli cyn COVID-19 ond y gred oedd ei fod wedi cael ei fwyhau a'i gyflymu gan y pandemig. Hefyd, dywedwyd fod nifer cynyddol o bobl ifanc yn gymwys i hawlio Credyd Cynhwysol a hwythau'n peidio â'i hawlio, er enghraifft oherwydd diweithdra cyfnodol. Disgrifiwyd y sancsiynau ar Gredyd Cynhwysol fel rhai a oedd 'yn eithriadol o galed, yn eithriadol o feichus', gyda 'llawer o gylchoedd i neidio drwyddynt os ydych yn ddi-waith am ddwy neu dair wythnos'. Yn lle hynny byddai pobl ifanc yn dibynnu ar deulu i gael cymorth neu ar fudiadau'r gymdeithas sifil lle gallent, yn ôl un dylanwadwr. Roedd pobl ifanc yn yr astudiaeth hon yn rheolaidd yn enwi teulu fel eu prif ffynhonnell cymorth.

Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod mwy o **gystadleuaeth am swyddi ar lefel mynediad gan bobl hŷn â phrofiad o gyflogaeth** yn gwaethygu'r heriau a wynebir gan bobl ifanc sy'n ceisio ymuno â'r farchnad lafur.

Pwysleisiodd rhai hefyd fod nodweddion eraill, a allai fod wedi'u cydblethu â'i gilydd yn bwysig i'w cadw mewn cof gyda'r pwnc yma, megis **grwpiau ychwanegol a oedd eisoes yn ddifreintiedig** megis gan gynnwys menywod, pobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Roedd mudiadau'r trydydd sector yn aml yn pryderu bod y pandemig yn mynd i **atal neu wrthdroi'r cynnydd** yr oeddent wedi'i wneud gyda phobl ifanc fregus a chyflogwyr. Roedd gofalwyr ifainc, er enghraifft, a oedd eisoes yn fregus yn cael eu hynysu'n fwyfwy am ei bod yn anos iddynt gael gafael ar gymorth neu seibiant o'u dyletswyddau gofalu. Roedd y bobl ifanc fregus hyn wedi dibynnu ar ryngweithio a chymorth wyneb-yn-wyneb gan weithwyr

ieuenctid y trydydd sector nad oedd yn bosibl mwyach. Codwyd pryderon tebyg hefyd ynglŷn â bregusrwydd rhai sy'n gadael gofal[20] a mynediad at gymorth.

> *Rhai sy'n gadael gofal, maen nhw fel arfer wedi'u gorgynrychioli yng ngrŵp y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[21], mae llawer ohonynt yn byw ar eu pennau eu hunain. Yr hyn yr ydym ni'n ei ganfod gyda'n pobl ifanc ni yw bod hunanysgogiad yn anhygoel o anodd. Maent mwy na thebyg wedi profi anawsterau'n hanesyddol trwy gydol eu haddysg felly mae ceisio ymgysylltu'n rhithwir wedyn yn anodd iawn. Ar ben hynny, mae gennych yr arwahanrwydd sy'n gysylltiedig â byw ar eu pennau eu hunain. Ceir y bobl ifanc nad oes ganddynt y rhwydwaith cymorth hwnnw y mae ei angen arnynt ar gyfer eu lles. Gallent fod yn ddibynnol ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio oriau craidd ac y cyfyngir arnynt o ran gallu gwneud yr ymweliadau wyneb-yn-wyneb hynny. (Trydydd sector)*

Roedd gofalwyr ifainc a'r rhai a oedd yn gadael gofal, er enghraifft, a oedd eisoes yn fregus yn cael eu hynysu'n fwyfwy am ei bod yn anos iddynt gael gafael ar gymorth neu seibiant o'u dyletswyddau gofalu. Roedd y bobl ifanc fregus hyn wedi dibynnu ar ryngweithio a chymorth wyneb-yn-wyneb gan weithwyr ieuenctid y trydydd sector nad oedd yn bosibl mwyach.

Roedd **diffyg cysylltedd neu ddyfeisiau addas** yn cael ei grybwyll weithiau fel rhwystr i gyflogaeth ar gyfer rhai pobl ifanc fwy amddifadus ac fel rhywbeth a oedd yn cyfrannu at gynyddu anghydraddoldebau. Nid oeddent yn gallu ymgeisio am swyddi na diwygio'u CVs ar eu ffonau clyfar. Hefyd, gallai cyswllt band eang gwael fod yn broblem i bobl ifanc mewn ardaloedd mwy gwledig. Roedd ceisio rhoi cymorth o'r fath ar-lein yn eithriadol o anodd.

> *Rwyf wedi dod ar draws rhai pobl ifanc nad ydynt yn gallu gwneud pethau, efallai am resymau eraill – ddim yn gallu gwneud CV, ddim yn gallu chwilio am swyddi ar-lein am nad oes gliniadur ganddynt. Mae rhai pobl ifanc heb e-bost – mae gan rai ohonynt sgiliau TGH gwael iawn hefyd – dydyn nhw ddim yn gallu creu cyfrif e-bost. Cyn y pandemig, byddwn wedi gofyn iddynt ddod i mewn i'r swyddfa, eu helpu i agor cyfrif e-bost, wyddoch chi, gam wrth gam fel yna. (Trydydd sector)*

Cafodd **materion tai** eu crybwyll ar adegau ymhlith penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector fel ffactorau a oedd yn cyfrannu at anghydraddoldebau cynyddol ar y cyfan a oedd yn effeithio ar bobl ifanc hefyd. Roedd anawsterau gyda thalu rhent pan, er enghraifft, oedd person ifanc ar yr isafswm cyflog ac ar ffyrlo. Gallai hefyd fod yn anodd i bobl ifanc ddod o hyd i lety rhent mewn dinasoedd mwy oherwydd y gost a bod angen gwarantwyr a oedd yn berchen-feddianwyr. Roedd heriau o ran llety a chludiant yn eu heithrio rhag cael mynediad at swyddi, yn ôl rhai mudiadau yn y trydydd sector. Ar ben hynny, dywedodd un dylanwadwr fod mentrau i gefnogi pobl mewn perthynas â chyfnodau

[20] Gweler https://law.gov.wales/publicservices/social-care/Local-authority-responsibilities/responsibilities-children/leaving-care/?lang=en#/publicservices/social-care/Local-authority-responsibilities/responsibilities-children/leaving-care/?tab=overview&lang=cy
[21] Gweler https://llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet

rhybudd troi allan yn dod i ben yng Nghymru[22]. Mater arall mewn perthynas â thai a amlygwyd oedd sut yr oedd cael gwared ar dollau i groesi'r bont i mewn i Gymru wedi arwain yn ôl y sôn at fewnlifiad gan brynwyr tai i mewn i Dde Ddwyrain Cymru gyda'i opsiynau mwy fforddiadwy na Lloegr. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y datblygiad hwn yn cyfrannu at brisio pobl ifanc allan o brynu tai yn y rhanbarth.

I enghreifftio'r mater, roedd ychydig o bobl ifanc yn yr astudiaeth hon wedi profi **materion tai** yn ystod y pandemig. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc eraill yn dal i fyw gyda rhieni neu wedi dychwelyd i fyw gyda rhieni tra'r oeddent mewn addysg uwch lawn-amser. Roedd nifer fach â phlant dibynnol wedi profi oedi cyn symud i mewn i gartref newydd oherwydd effaith y pandemig ar ei adeiladu.

Roedd tad ifanc di-waith, ei bartner a'i blant bach wedi aros am bron i flwyddyn ar ôl gadael eu cartref a oedd yn cael ei rentu'n breifat i allu symud i mewn i'w tŷ cymdeithasol newydd. Roeddent wedi symud i mewn gyda'i rieni ef ac yn byw allan o focsys tra'r oeddent yn disgwyl i'w cartref newydd gael ei gwblhau. Roedd cyfranogwr arall a'i phartner yn prynu'n breifat ond roedd y dyddiad cwblhau wedi cael ei symud yn ôl wyth mis oherwydd y pandemig, a oedd yn golygu bod y teulu wedi'u cau mewn fflat fach heb ardd am gyfnod estynedig. Roedd rhiant sengl arall eisoes yn byw mewn tŷ gorlawn gydag aelodau eraill o'r teulu ac yn ei chael yn her weithiau.

***Heriau pellach yr oedd pobl ifanc yn eu hwynebu***

### 4.6 Heriau dod o hyd i waith da, teg a'i gadw [23]

Nodwyd yn eang gan benderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector fod nifer o fathau o gyflogaeth yr oedd pobl ifanc yn aml yn gweithio ynddynt trwy ddiffyg dewis yn fwy tebygol o greu ansicrwydd: gwaith sydd â thâl gwael, heb ddiogelwch, ac yn ansicr. Amlygwyd nifer o faterion a oedd yn effeithio ar allu pobl ifanc i gael gafael ar waith da, teg. Roedd potensial i gyflogwyr fod dan **lai o bwysau masnachol i fabwysiadu arferion gwaith teg** megis cyflogau uwch am bod ganddynt gronfa fwy o ymgeiswyr i dynnu arnynt ar gyfer swyddi. Roedd cyfranogwyr yn ystyried bod llawer o'r gyflogaeth yn y sectorau a oedd yn cyflogi pobl ifanc yn weddol ansicr ac yn aml yn waith â thâl isel yn barod. Ar ben hynny, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai pobl ifanc yn aml heb y pendantrwydd i herio arferion gweithio amhriodol. Felly a fyddai'r pandemig yn syml yn cyflymu ansicrwydd i bobl ifanc ymhellach?

---

[22] Gweler https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/377/made) a https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=27569

[23] *Gellir diffinio gwaith da, teg fel amodau gwaith sy'n cefnogi iechyd a lles trwy'r canlynol:*
- *Tâl digonol*
- *Sicrwydd (mewn geiriau eraill nid gwaith ansicr)*
- *Peryglon yn cael eu rheoli (h.y. iechyd a diogelwch)*
- *Amgylchedd seico-gymdeithasol priodol (e.e. cymorth gan gydweithwyr a rheolwyr, diwylliant cynhwysol sy'n croesawu adborth, amgylchedd sy'n ymorol am ryngweithio cymdeithasol)*
- *Cydbwysedd â bywyd teuluol / personol*
- *Hawliau gweithwyr*

*Mae hynny'n mynd i wanhau'r sefyllfa yn y farchnad lafur a grym bargeinio, os hoffech, yr unigolion hynny ymhellach eto. Felly a fydd hynny bron â bod yn arwain at ryw fath o ras i'r gwaelod o ran safonau ac arferion cyflogaeth o fewn sectorau? Dyna ein pryder ar y cyfan am wn i. (Penderfynwr)*

*Yr hyn yr ydym yn ei weld gyda'r cyflogwyr, . . . yw y camfanteisir ar bobl ifanc. . . . Nid oes cyfrifoldeb i gyflogwyr [fuddsoddi] yn eu datblygiad personol. Maent yn syml yn gweld pobl ifanc fel nwydd rhad y gallant ei ddwyn i mewn ac y gallant ei ryddhau, ac maent yn arbed arian am bod yr isafswm cyflog i rywun sy'n un ar bymtheg, dwy ar bymtheg, yn isel iawn. (Trydydd sector)*



Roedd y ddadl bod **unrhyw swydd yn well na dim swydd** (gweler 6.9) yn cael ei hystyried yn ateb byrdymor niweidiol gan rai o fudiadau'r trydydd sector. Mewn un enghraifft, roedd mudiad yn y trydydd sector wedi bod yn gweithio gyda pherson ifanc a oedd wedi cael ei gofrestru ar brentisiaeth peirianneg cyn colli ei swydd ar ddechrau'r pandemig. Pan oedd yn chwilio am gyflogaeth newydd, dywedwyd wrth y person ifanc nad oedd unrhyw swyddi peirianneg ar gael yn lleol ac felly fe'i hanogwyd i weithio ar safle manwerthu lleol. Yn ôl y sôn fe gafodd hyn effaith ddinistriol ar iechyd meddwl a lles yr unigolyn – roedd wedi dod yn berson gwahanol.

Mewn enghraifft arall o'r her hon, os oedd rhywun yn dechrau swydd yn ystod y pandemig, byddai wedi bod yn anos teimlo **eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rôl newydd os oeddent yn gweithio o bell**. Ni fyddent wedi profi'r un lefel o raglen sefydlu, hyfforddiant na rhyngweithio cymdeithasol a fyddai'n cefnogi gwaith da o dan amgylchiadau arferol ac yn helpu gyda datblygiad gyrfa.

*Fe ddechreuais i'r swydd hon yn ystod y cyfyngiadau symud. Felly, roedd rhaid i mi ddysgu popeth ar-lein dros gyfrifiadur. Mae'n amlwg yn mynd i gymryd llawer yn hwy i mi nag y byddai yn y swyddfa gyda rhywun wrth eich ochr, yn dangos popeth i chi. (Benyw, 18-24, cyflogedig)*

Gallai'r pandemig, **ar y cyd ag effeithiau posibl Brexit**, achosi 'storm berffaith' a honno'n effeithio'n andwyol ar hawliau a safonau gweithwyr, yn enwedig i bobl ifanc, yn ôl un penderfynwr. O ystyried yr heriau, efallai na fyddai cyflogwyr yn tueddu i wneud mwy na'r lleiafswm o ran yr hyn yr oedd yn ofynnol iddynt ei wneud.

Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth achlysurol y gallai amodau cyflogaeth fel contractau dim oriau ddarparu **hyblygrwydd** dymunol i rai gweithwyr. Dywedodd dylanwadwr arall nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau andwyol penodol yn y maes hwn oherwydd y pandemig nad oeddent yn bodoli eisoes: 'mae cyflogwr gwael yn gyflogwr gwael pa un a ydym mewn pandemig ai peidio'.

Roedd pobl ifanc yn yr astudiaeth a oedd yn ddi-waith, ar ffyrlo (a ddim yn hyderus y byddent yn dychwelyd i swydd) a'r rhai mewn addysg a oedd wedi colli gwaith rhan-amser yn aml yn rhoi eu bryd ar ddod o hyd i **unrhyw fath o gyflogaeth**. Fel a drafodwyd uchod, roeddent yn dweud eu bod yn dod ar draws cyfleoedd cyfyngedig iawn, gan brofi cystadleuaeth frwd am swyddi gwag a chael eu digalonni gan y diffyg ymateb gan gyflogwyr.

Roedd un rhiant sengl yng Nghymoedd De Cymru wedi ymgeisio am ymhell dros 50 o swyddi a dim ond un cyfweliad yr oedd wedi'i gael. Nid oedd wedi clywed unrhyw beth yn ôl am y rhan fwyaf o'r ceisiadau a oedd wedi mynd at gyflogwyr megis manwerthwyr.

> *Rwyf wedi bod yn chwilio yn awr am efallai tri, pedwar mis bron. Rwyf wedi cael un cyfweliad allan o'r holl swyddi yr wyf wedi ymgeisio amdanynt. Fe ailymgeisiais am rai swyddi ac fe ail-anfonais [fy CV] ac rwy'n dal heb gael unrhyw beth yn ôl. Nid yw rhai o'r siopau'n anfon neges e-bost yn ôl i ddweud nad ydych wedi bod yn llwyddiannus hyd yn oed. Maen nhw'n syml yn gadael i chi fynd yn angof ac yna rydych yn meddwl, ydyn nhw'n mynd i gysylltu'n ôl ai peidio? (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Er nad oedd gwaith da, teg yn fater a oedd yn flaenllaw ym meddyliau'r rhan fwyaf o gyfranogwyr a oedd yn chwilio am waith, soniodd ychydig o bobl ifanc am brinder swyddi sicr. O bryd i'w gilydd roedd beirniadaeth o'r swyddi a oedd yn cael eu cynnig oherwydd y cyflog, yr oriau a'r math o gontractau (dim oriau yn aml). Dywedodd nifer fach o rieni sengl fod arnynt angen swydd a oedd yn cynnig o leiaf 16 awr yr wythnos iddi fod yn werth ei gwneud ond ychydig iawn o'r rheiny oedd o gwmpas.

Hefyd, roedd yn ymddangos fel pe bai'r rhai a oedd yn gweithio yn y **sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a manwerthu** weithiau'n cael llai o gymorth na'r rhai mewn sectorau eraill. Soniodd rhai am bwysau gan gyflogwyr i wneud rhagor o oriau neu gymryd rhagor o sifftiau. Crybwyllodd eraill ddiffyg dealltwriaeth am eu sefyllfaoedd teuluol a cholli tâl pan oeddent yn cwtogi ar eu sifftiau oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Cyfeiriodd un weithwraig mewn ysbyty hefyd at y diffyg cefnogaeth yn ei gweithle.

Roedd rhwystredigaeth yn amlwg ymhlith rhai pobl ifanc yn yr astudiaeth gyda chontractau a thelerau ac amodau cyflogaeth presennol – roedd rhai ar gontractau dim oriau ond yn peidio â chael digon o sifftiau; roedd ar eraill eisiau oriau penodedig fel y byddent yn gwybod pa oriau y byddent yn eu gweithio a faint fyddent yn ei ennill. Byddai hefyd o gymorth gyda threfnu gofal plant.

> *Ond mewn cyfnod pan fo arnaf eisiau bod yn gweithio, oherwydd fy mod ar gontract dim oriau hefyd gyda gwaith, felly hyd yn oed pan ydych yn gallu gweithio, dydyn nhw'n dal ddim yn rhoi sifftiau i chi weithiau. Mae'n weddol rwystrol ac annifyr, braidd yn ddiflas. (Gwryw, 18-24, cyflogedig)*

> *Rwy'n dal ar gontract dim oriau, yr wyf wedi bod arno am ryw bedair blynedd bellach. Rwyf wedi mynd mor bell â gofyn iddynt am gontract ar sail oriau, y mae gennyf hawl iddo. Ond mae'n nhw'n gwrthod drwy'r amser. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

### *4.6.1 Enghreifftiau o gyflogwyr da*

Roedd rhai pobl ifanc yn yr astudiaeth hon mewn cyflogaeth sefydlog ac ar y cyfan yn teimlo'u bod yn cael **eu cefnogi'n dda** gan eu cyflogwr (e.e. yn y sector cyhoeddus ac mewn gwasanaethau ariannol). Roedd y newidiadau yr oeddent hwy wedi'u profi'n ymwneud yn aml â newid i weithio gartref neu fabwysiadu arferion gweithio gwahanol, er enghraifft gwisgo cyfarpar diogelu personol yn y gwaith, yn hytrach nag unrhyw beth a oedd yn effeithio ar eu hincwm neu'u rhagolygon. Roedd y newidiadau hyn yn dal i fod yn anodd dygymod â hwy ar adegau.

Enghreifftiau o sut y gallai gwaith da, teg edrych yn ystod y pandemig oedd: cael offer i weithio gartref; cymorth gyda lles (er enghraifft cael 'awr lles' yn ystod y dydd i gael mynd allan am dro neu i wneud ychydig o ymarfer corff, ei gwneud yn glir at bwy i droi i gael cymorth os oedd angen); cael hyblygrwydd i ddewis a oeddent yn gweithio gartref, yn y swyddfa ynteu cyfuniad o'r ddau; cael sgyrsiau fideo rheolaidd gyda chydweithwyr, yn enwedig os oeddent ar ffyrlo, ond gyda hynny hefyd yn cael ei werthfawrogi gan y rhai a oedd yn gweithio gartref; cael cymryd gwyliau â thâl o waith wyneb-yn-wyneb oherwydd pryderon ynghylch aelodau bregus o'r teulu; a chael cyswllt rheolaidd â rheolwyr yn ystod ffyrlo a oedd yn sicrhau eu bod yn cael diweddariadau ac yn ffynhonnell cymorth os oedd angen.

> *Roeddwn i'n weddol ffodus mewn gwirionedd gan fy mod wedi cadw fy incwm arferol ond ar y dechrau am y pum mis cyntaf, cefais ganiatâd ganddynt i beidio â mynychu'r gwaith am bod asthma ar fy mam. Yn ffodus fe wnaethant ddal i'm talu bryd hynny, wnaethon nhw ddim cwtogi fy nghyflog, fe wnaethant adael i mi weithio gartref. (Benyw, 18-24, cyflogaeth sicr)*

### *4.6.2 Barn pobl ifanc am ragolygon yn y dyfodol*

Roedd y rhai mewn cyflogaeth sefydlog yn hyderus gan mwyaf ynghylch eu dyfodol, yn enwedig gan bod rhai wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau eu cyflogwr yn ystod y pandemig. Roedd ychydig yn poeni am eu rhagolygon eu hunain ar ôl y pandemig neu wedi newid eu cynlluniau. Roedd un yn y sector iechyd yn pryderu y gallai ei waith fynd yn hesb. Roedd un arall yn y sector darlledu wedi penderfynu bod gormod o risg pe bai'n gadael ei swydd ac yn mynd yn llawrydd. Lleisiwyd pryderon hefyd gan rai o'r rheiny a oedd ar ffyrlo ar y pryd.

Roedd rhai mewn addysg yn teimlo y byddai'r pandemig yn bendant yn **effeithio ar eu rhagolygon** o ran dod o hyd i swydd dda pan fyddent yn graddio. Roeddent yn rhagweld y byddai llai o swyddi o ansawdd ar gael. Roedd un cyfranogwr wedi ei chael yn anodd dod o hyd i waith ar ôl graddio'r haf diwethaf am nad oedd cwmnïau'n cyflogi cymaint o raddedigion ag arfer, ac felly roedd wedi dewis aros mewn addysg uwch a gwneud MSc. Dywedodd ychydig o raddedigion di-waith eu bod yn ystyried ailgydio yn eu haddysg am ei fod yn teimlo fel 'opsiwn diogel'. Ar yr un pryd, roeddent yn poeni y gallai rhagor o bobl ddewis gwneud yr un modd, gan olygu na fyddai eu rhagolygon swyddi pan fyddent yn gadael yn ddim gwell.

Roedd rhai a oedd yn ddi-waith ac yn chwilio am waith eisoes wedi **newid eu cynlluniau** neu wedi arallgyfeirio oherwydd y pandemig ac anhawster dod o hyd i waith mewn sectorau yr

oeddent yn eu targedu. Roedd ychydig wedi sefydlu busnes ar-lein bach yn gwerthu dillad ar wefannau megis Depop[24] ac roedd cyfeiriadau at eraill yr oeddent yn eu hadnabod yn sefydlu busnesau ac yn dod yn fwy entrepreneuraidd.

> *Mae rhai o'm ffrindiau wedi gwneud cyrsiau ar-lein ac maen nhw'n ceisio dechrau eu busnesau eu hunain fel technegwyr blew amrannau a phethau felly. Felly maen nhw'n symud i ffwrdd oddi wrth y rhan lletygarwch ac yn dod fel entrepreneuriaid. (Benyw, 18-24, di-waith)*

### 4.7 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg

Dywedodd siaradwyr Cymraeg yn yr astudiaeth hon, gan mwyaf, nad oedd eu defnydd o'r Gymraeg wedi newid o ganlyniad i unrhyw newidiadau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â COVID. Mewn un achos roedd myfyrwraig israddedig Gymraeg wedi bod yn edrych ymlaen at ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg yn ei phrifysgol yn Lloegr, ond oherwydd COVID nid oedd hyn wedi digwydd, a oedd yn gwneud iddi deimlo wedi'i hynysu. I'r gwrthwyneb, disgrifiodd cyfranogwr arall sut yr oedd ei ddefnydd o'r Gymraeg wedi cynyddu yn ystod y pandemig, gan ei fod bellach yn treulio mwy o amser gartref gyda'i wraig Gymraeg ei hiaith a'u dau blentyn bach.

[24] Gweler https://www.depop.com/



# 5. Ymyriadau cyfredol a'u heffeithiolrwydd canfyddedig


5.1 Profiad a chyfleoedd gwaith

5.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc

5.3 Ymgysylltiad cyflogwyr

5.4 Cymorth ariannol

5.5 Ymyriadau â ffocws ar iechyd a lles sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

5.6 Gweithio mewn partneriaeth

5.7 Cael mynediad at waith da, teg

5.8 Ymyriadau mewn gwledydd eraill

5.9 Cefnogi pobl ifanc â phlant dibynnol

# 5. Ymyriadau cyfredol a'u heffeithiolrwydd canfyddedig

Mae'r bennod hon yn amlygu ymyriadau cenedlaethol a lleol ac, yn achlysurol, mentrau rhyngwladol yr oedd cyfranogwyr yn eu cysylltu â chefnogi pobl ifanc yn ystod y pandemig mewn perthynas â chyflogaeth a llwybrau at gyflogaeth.

Dywedodd rhai cyfranogwyr, yn fwy felly ymhlith penderfynwyr, ei bod hi'n **rhy gynnar** i allu mynd ati'n iawn i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau cyfredol i gefnogi pobl ifanc gyda newidiadau a rhagolygon o ran cyflogaeth yn ystod y pandemig. Hefyd, roedd disgwyl bod y cynllun ffyrlo'n celu cryn dipyn o ddiweithdra. Dywedodd rhai ei bod yn bosibl na fyddai'r diweithdra torfol y byddid yn ei ddisgwyl mewn dirwasgiad ar y raddfa hon ond yn digwydd **unwaith y byddai ffyrlo'n dod i ben**.

> *Ymhen chwe mis, byddwn mewn sefyllfa well o lawer i ddweud bod [ymyriad] yn cael effaith wirioneddol o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith yng Nghymru. Os bydd y cynllun ffyrlo'n dod i ben, neu pan fydd yn dod i ben, . . . Wel, ni ŵyr yr un ohonom, beth fydd effaith hynny, a bod yn gwbl onest. (Penderfynwr)*

Fe wnaed y ddadl hefyd y gallai fod yn **anodd iawn mynd ati'n effeithiol i fesur** effaith polisi neu ymyriad oherwydd cyfleoedd cyfyngedig i wneud hynny a'r heriau a achosir gan redeg hapdreialon dan reolaeth. Hyd yn oed lle gallai treialon ar sail achosion a rheolaethau (yn seiliedig ar arsylwi) fod yn bosibl, byddai'n dal yn anodd cymharu tebyg â thebyg, yn ôl un penderfynwr.

**Nid oedd cymorth yn flaenllaw ym meddyliau'r** rhan fwyaf o bobl ifanc a gyfranogodd yn yr astudiaeth hon. Ychydig iawn o ffynonellau cymorth ffurfiol a grybwyllwyd fel rhai a oedd wedi cael eu defnyddio ac roedd ymwybyddiaeth isel o unrhyw sianeli cymorth. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ifanc eu bod yn dibynnu ar **deulu neu ffrindiau** am gymorth pryd bynnag yr oedd ei angen arnynt. Roedd hyn yn tueddu i ymwneud â chymorth ariannol a chymorth gyda lles. Nid oedd yr un o'r rhai ar ffyrlo neu mewn gwaith ansicr wedi cael mynediad at unrhyw gymorth na chefnogaeth ffurfiol gyda hyfforddiant, cyflogaeth neu yrfaoedd ac roeddent yn dweud na fyddent yn gwybod mewn gwirionedd ble i gael cymorth.

## 5.1 Profiad a chyfleoedd gwaith

Roedd rhai'n credu bod ymyriadau blaenorol a chyfredol yn amlygu bod cynorthwyo **pobl ifanc fwy difreintiedig i gael profiad gwaith**, lleoliadau gwaith neu swyddi'n bolisïau effeithiol ac, yn ôl un penderfynwr, fe allai hynny fod yn bwysicach na datblygiad sgiliau llawn-amser. Enwyd Twf Swyddi Cymru[25], Go Wales[26], hyfforddeiaethau, a phrentisiaethau â chymhellion fel enghreifftiau o ymyriadau effeithiol yng Nghymru a oedd yn cael eu gwerthuso o bryd i'w gilydd ac yr oedd cyfranogwyr yn meddwl eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Roedd grwpiau rheoli'n cael eu defnyddio ar gyfer gwerthusiadau fel bod graddfa'r budd yn cael ei chydnabod, meddai un penderfynwr.

---

[25] Gweler https://gyrfacymru.llyw.cymru/cael-swydd/twf-swyddi-cymru
[26] Gweler https://www.gowales.co.uk/

*Mae gennym arlwy brentisiaethau dda iawn beth bynnag ac rwy'n falch iawn o hynny a'r ffordd yr ydym wedi gwneud hynny, mewn prentisiaethau cyffredinol a modern hefyd, gyda graddedigion. Felly rydym wedi bod yn ofalus iawn gyda hynny, y ffordd yr ydym yn gweithio gyda datblygwyr a diwydiant. . . . Rydym yn rhedeg y brentisiaeth fodern honno bob blwyddyn ac yn amcanu at gynyddu hynny mewn termau real fel rhan o'n hymateb adfer i COVID. (Penderfynwr)*

Roedd **cynllun Kickstart**[27] yn cael sylw rheolaidd mewn trafodaethau fel ymyriad cyfredol a oedd yn cefnogi pobl ifanc â phrofiad a chyfleoedd gwaith. Er ei bod yn gynnar yn y broses o'i roi ar waith yng Nghymru, roedd un penderfynwr yn disgwyl y byddai 'llawer o bobl ifanc yn llifo i mewn i Kickstart wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi'. Hefyd, roedd nifer fawr o gyflogwyr ar draws ystod o sectorau yng Nghymru eisoes yn rhan o'r cynllun yn ôl y sôn, gan gynnwys rhai na fyddai'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhyngweithio â hwy fel arfer. Roedd hyn yn arwain at berthnasoedd newydd a chynnydd yn nifer y staff a oedd yn gweithio ar y cynllun. Yr effaith hirdymor bosibl oedd y perthnasoedd yn aeddfedu gyda chyflogwyr, ar yr amod eu bod yn gallu cyrraedd y mathau o ymgeiswyr yr oedd eu hangen arnynt yn y ffordd yma. Byddai hefyd yn allweddol sicrhau mai potensial y cynllun oedd creu cyfleoedd ychwanegol yn hytrach na disodli swyddi presennol. Roedd penderfynwr arall, yn ogystal â bod yn borth i fusnesau gael mynediad at Kickstart, wedi creu rolau o fewn ei sefydliad ei hun i fod yn rhan o'r cynllun.

*Byddwn i'n dweud, o ran diddordeb cyflogwyr, a bod eisiau cymryd rhan, a chynnig am gyfleoedd Kickstart, ein bod wedi cael diddordeb gwych yng Nghymru. . . . Os yw'r cyflogwyr hynny'n gweld bod perthnasoedd yn effeithiol ac yn darparu ymgeiswyr o ansawdd da ar eu cyfer, gobeithio y bydd hynny'n ein helpu i fod mewn lle gwell. (Penderfynwr)*

Er ei fod yn cael ei ystyried yn syniad da mewn egwyddor, mynegwyd barn o bryd i'w gilydd bod y cynllun Kickstart hyd yma **heb gyrraedd y nifer ddisgwyliedig o bobl ifanc**, yn ôl y sôn yn rhannol am bod ei lansiad wedi cyd-daro â mesurau cyfyngu pellach. Bu adborth anecdotaidd hefyd nad oedd y cynllun yn hawdd iawn i gyflogwyr ymgodymu ag ef wrth ymgeisio, gydag un penderfynwr yn ei ddisgrifio fel 'hunllef fiwrocrataidd' i'w sefydlu ar gyfer awdurdod lleol fel porth i fusnesau lleol; ac i fusnesau sy'n ymgeisio hefyd. Er enghraifft, roedd wedi cymryd sawl mis i sefydlu swyddi gwag er y byddai'r awdurdod lleol wedi bod yn barod i gyflogi pobl ifanc o adeg gynharach o lawer. Roedd yr oedi'n cael ei ystyried yn amser gwerthfawr a gollwyd i rai pobl ifanc a fyddai wedi elwa. Roedd disgwyl weithredu effeithiol barhau i fod yn gyfyngedig tra byddai'r cyfyngiadau yn eu lle. Roedd y dasg o ddatblygu ymyriadau tymor hwy'n cael ei hystyried yn un anodd pan oedd cymaint o ansicrwydd ynghylch sut a phryd y byddai Cymru'n dod allan o'r mesurau cyfyngu.

Materion canfyddedig pellach a amlygwyd gyda Kickstart gan gwpl o ddylanwadwyr oedd nad oedd ar raddfa ddigon mawr, nad oedd yn para'n ddigon hir, bod y trefniadau rheoli ansawdd yn gyfyngedig, nad oedd i'w weld fel pe bai'n rhoi budd llawn i'r bobl ifanc sydd bellaf oddi wrth gyflogaeth, a'i fod yn adlewyrchu cyfeiriadedd polisi 'gwaith yn gyntaf'[28] yn

[27] Gweler https://www.gov.uk/government/news/landmark-kickstart-scheme-opens-to-youth-in-wales

[28] Mae gwaith yn gyntaf yn ei gwneud yn ofynnol lleoli derbynyddion budd-daliadau lles mewn cyflogaeth ar unwaith ni waeth beth fo'u lefel addysgol na'u sgiliau. Mae cefnogwyr gwaith yn gyntaf yn credu, trwy eu cymell i gymryd rhan mewn

hytrach na defnyddio dull mwy holistaidd o ddiwallu anghenion pobl ifanc a allai fod yn fwy buddiol i'r unigolyn yn y tymor hwy. Hefyd, roedd y gofyniad i fod yn derbyn Credyd Cynhwysol er mwyn bod yn gymwys ar ei gyfer yn groes i'r tueddiadau yn ôl pob golwg, sef bod pobl ifanc yn llai tebygol o fod yn hawlio'r budd-dal er eu bod yn gymwys

Ar lefel ranbarthol, rhoddwyd enghraifft gadarnhaol o gefnogi pobl ifanc ar lwybr at gyflogaeth yn y **sector iechyd**. Roedd yn golygu bod sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn darparu 'academi brentisiaeth' ar gyfer iechyd. Roedd cyfranogwyr yn credu bod hynny'n gwneud gwahaniaeth fel ffordd ddefnyddiol ymlaen o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd.

> *Mae llu o rolau'n dal i fodoli ym myd iechyd y gallwch ddod â phrentisiaid i mewn iddynt. [Mae] academi brentisiaeth mewn gofal iechyd, a arweinir gan Addysg a Chyngor Caerdydd, mae llond gwlad o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ledled Caerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer honno. (Dylanwadwr)*

O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn cyfeirio at yr **ansicrwydd ynghylch pa mor hir y byddai mesurau cyfyngu'n para**, a oedd yn golygu na allai rhai ymyriadau a oedd wedi'u bwriadu i helpu pobl ifanc i gael gwaith fod mor effeithiol nes byddai mwy o eglurder ynghylch pryd y byddai'r mesurau'n cael eu llacio. Roedd cyfranogwyr yn meddwl ei bod yn anos i rai cyflogwyr ymrwymo yn y ffordd yma, er enghraifft gyda'r Gronfa Recriwtio Prentisiaid gan Lywodraeth Cymru[29], ac roedd rhai'n fwy tebygol o fod â'u bryd ar sicrhau bod y busnes yn dal i fynd yn hytrach na chyflogi hyfforddeion neu brentisiaid er gwaethaf y cymhellion.

Cyfeiriodd mudiadau'r trydydd sector at ddiddordeb cynyddol mewn **entrepreneuriaeth** ymhlith pobl ifanc, a welwyd yn uniongyrchol, trwy Syniadau Mawr Cymru[30]. Roedd cymorth ar-lein mwy hygyrch, ar y cyd â'r angen i ddod o hyd i waith, yn arwain yn ôl y sôn at ystod ehangach o bobl ifanc a oedd yn amcanu at ddechrau eu busnes eu hunain. Adlewyrchwyd y farn hon ymhlith pobl ifanc yn yr astudiaeth gyda chwpl o enghreifftiau o gyfranogwyr yn rhedeg eu busnes eu hunain i helpu i gael deupen llinyn ynghyd, megis gwerthu dillad ar-lein.

> *Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol iawn mewn pobl ifanc yn cael mynediad at ein gwasanaethau a'n cymorth a hwythau'n cael eu hysgogi gan anghenraid. Ac yn ddiddorol, wrth symud at arlwy ddigidol rydym yn gweld mwy o ymgysylltu o blith pobl ifanc am eu bod yn gallu aros yn ddienw. Nid oes rhaid iddynt gerdded i mewn i ystafell, nid oes rhaid iddynt ddangos eu hwynebau ar sgrîn, nid oes rhaid iddynt siarad. Gallant deipio yn yr adran sgwrsio neu gallant wneud dim ond gwrando a mynd â'r wybodaeth honno i ffwrdd gyda nhw. Felly rydym yn gweld cynnydd mewn ymgysylltu cadarnhaol (Trydydd sector)*

---

cyflogaeth gyson, y bydd derbynyddion budd-daliadau lles yn caffael arferion a ddymunir ac etheg gwaith. Gall cymwysterau addysgol a sgiliau ar gyfer swyddi gael eu caffael ar ôl eu lleoli mewn swyddi rheolaidd. Midgley, J. 2008. *Welfare Reform in the United States: Implications for British Social Policy; gweler* https://core.ac.uk/download/pdf/6524832.pdf

[29] Gweler https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/cyllid-ar-gael

[30] Gweler https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy

Mewn enghraifft derfynol, disgrifiodd un o fudiadau'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru sut yr oedd menter yn cynorthwyo menywod ifanc i gael gwaith trwy eu cyflogi'n uniongyrchol fel rhan o'r cynllun hyfforddi. Roeddent felly'n cael cyflog wrth hyfforddi i symud ymlaen at waith arall. Roeddent yn elwa trwy adael â chymwysterau, geirda, profiad a chyflog. Roedd lleoliadau gwaith, sesiynau coetsio a mentora, diwrnodau gweithgareddau a phrofiadau ar gael hefyd.

## 5.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc



Cyfeiriodd rhai penderfynwyr a rhai o fudiadau'r trydydd sector at ymyriadau presennol a oedd wedi'u bwriadu i helpu pobl, gan gynnwys pobl ifanc, i ddatblygu sgiliau a chymwysterau i wella'u siawns o gael cyflogaeth. Tynnodd rhai sylw at effeithiolrwydd canfyddedig **Cymunedau dros Waith**[31] yn y cyswllt hwn. Ei nod oedd cynyddu cyflogadwyedd unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Disgrifiwyd y gwasanaeth fel un sydd wedi'i deilwra ac yn ymatebol i anghenion pobl. Gallai mentoriaid ac ymgynghorwyr dynnu cymorth hyfforddi i lawr ar gyfer cyfranogwyr yn y rhaglen. Gallai ymwneud i ddechrau â meithrin hyder, neu sgiliau penodol eraill. Wedyn roedd y prif bwyslais yn ôl y sôn ar hyfforddiant galwedigaethol, yn nodweddiadol hyd at lefel 2, gan helpu pobl 16-24 oed a'r rhai sy'n 25 oed neu'n hŷn i gael gwaith neu fynd ar y llwybr at waith. Fel rhan o'r rhaglen, roedd ymdrechion yn cael eu gwneud yn ôl y sôn i archwilio beth yn fwy ellid ei wneud i gymell cyflogwyr i recriwtio prentisiaid ifainc a chreu mwy o hyfforddeiaethau.

Canfuwyd, pan oedd y pandemig ar ei anterth, fod y rhaglen wedi dal i allu cyrraedd rhai o'r grwpiau 'anoddaf-i'w-helpu' a'u cynorthwyo i gael gwaith oherwydd y galw cynyddol am gyflogeion logisteg. Yn anecdotaidd, roedd achosion lle'r oedd y rhai a gafodd gymorth gan y gwasanaeth wedi ysgrifennu i ddiolch i staff am y cymorth hwn. Serch hynny, roedd gwerthuso'r effaith ar y cyfan yn gymhleth gan bod unigolion yn gallu ennill arian a dal i fod ar Gredyd Cynhwysol, er enghraifft. Er hynny, yn ôl y sôn roedd miloedd lawer o bobl ifanc wedi cael eu cynorthwyo i gael cyflogaeth trwy'r ymyriad ers ei greu yn 2015. Roedd cyfranogwyr yn credu ei bod yn haws ymgysylltu â phobl ifanc na phobl hŷn ac aethpwyd y tu hwnt i dargedau ymgysylltu gyda phobl 16-24 oed.

> *Rwyf wedi gweld [Cymunedau dros Waith] yn tyfu ac yn datblygu ac yn cefnogi cymaint o bobl o gefndiroedd tlawd iawn, gan wneud gwahaniaeth enfawr ac nid dim ond i'r cwsmer yr oedd hynny. Roedd i'w teuluoedd hefyd. . . . Gwyddom fod*

[31] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/dysgu-sgiliau-newydd/cymunedau-dros-waith

*ymyriadau rheolaidd gydag anogwyr gwaith a chwsmeriaid, pobl ifanc, yn effeithiol. (Penderfynwr)*

Roedd rhai o fudiadau'r trydydd sector wedi clywed profiadau cadarnhaol gan bobl ifanc ar Cymunedau dros Waith, er enghraifft eu helpu gyda CVs, ceisiadau am swyddi, hyder a swyddi.

*Rwy'n cael adborth gweddol gadarnhaol – eu helpu i wneud ceisiadau am swyddi ac yn y blaen. Ac weithiau maent yn eu cyfeirio'n ôl ataf fi, os yw person ifanc, er enghraifft, wedi goresgyn rhwystr, eu bod wedi datblygu hyder a'u bod bellach yn barod i fynd ymlaen i'r coleg a.y.b. (Trydydd sector)*

Cafodd y rhaglen **Cymunedau dros Waith a Mwy[32]** a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei henwi fel rhaglen bellach a oedd yn cynorthwyo pobl ifanc ac eraill i gael cyflogaeth neu i ddod o hyd i lwybrau cyflogaeth. Ei nod oedd helpu'r rhai a allai gael eu gadael ar ôl am nad oeddent yn gymwys i gael cymorth gan Cymunedau dros Waith. Fe'i disgrifiwyd fel rhaglen a oedd yn defnyddio'r un model â Cymunedau dros Waith, ond a oedd hefyd yn cynnwys swyddogion ymgysylltu i annog grwpiau 'anos i'w cyrraedd' i gyfranogi. Roedd swyddogion cyswllt â chyflogwyr yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i weithredu fel pont i adnabod bylchau amlwg yn y farchnad. Yn ôl un penderfynwr, roedd cyllid o'r cynllun wedi dyblu fwy neu lai fel rhan o gynllun ymrwymiad COVID Llywodraeth Cymru a oedd wedi profi o gymorth mawr, er enghraifft trwy gyflogi mwy o fentoriaid, cymorth cyswllt â chyflogwyr a chyflawni cyrhaeddiad gwell trwy fuddsoddi mewn technoleg ddigidol. Roedd y galw am y gwasanaeth wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf yn ôl y sôn o'i gymharu â'r un adeg y llynedd.

Cafodd ymyriadau eraill a ddatblygwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi pobl ifanc eu hamlygu fel rhai a oedd yn effeithiol o bryd i'w gilydd hefyd. Roeddent yn cynnwys **Youth Offer Wales** (cyfnod dwys o 13 wythnos o gymorth gydag anogwr gwaith), **anogwyr gwaith pobl ifanc**, a sefydlu **Hybiau Ieuenctid** ochr yn ochr â sefydliadau eraill, er enghraifft gyda ffeiriau swyddi digidol. Fodd bynnag, roedd mesurau i gyfyngu ar y Coronafeirws wedi effeithio ar effeithlonrwydd yr ymyriadau felly roedd camau'n cael eu cymryd i newid i ddewisiadau eraill digidol lle'r oedd yn bosibl. Er hynny, roedd un penderfynwr yn credu bod y mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth ar lefel leol ac yn rhoi cymorth parhaus, wedi'i deilwra i bobl ifanc. Enghraifft arall a roddwyd oedd lle'r oedd pobl ifanc wedi dangos diddordeb mewn hyfforddiant galwedigaethol fel gwallt a harddwch, a lle'r oedd yr anogwyr gwaith mewn Canolfannau Gwaith yn eu helpu i ystyried cyfleoedd eraill neu waith y gallent ymgymryd ag ef dros dro nes byddai'r mesurau cyfyngu'n cael eu llacio.

Disgrifiwyd **Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid[33]** Llywodraeth Cymru gan un dylanwadwr fel menter oedd yn gweithio'n weddol dda ac yn cael ei gwella a hithau yn ôl y sôn wedi profi anghysonderau gyda chydlynwyr ymgysylltu a datblygu a oedd yn cyflawni polisi. Byddai rhai'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol, rhai gan sefydliadau'r gymdeithas

[32] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/dysgu-sgiliau-newydd/cymunedau-dros-waith-a-mwy

[33] Gweler https://llyw.cymru/fframwaith-ymgysylltu-datblygu-ieuenctid-cynllun-gweithredu

sifil, a rhai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Y gred oedd eu bod bellach yn gweithio ychydig yn agosach gyda sefydliadau'r gymdeithas sifil.

Yn ôl un penderfynwr, ers mis Ebrill 2020, roedd Cymunedau dros Waith, y prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE, a drafodir ymhellach yn 5.9)[34], a Cymunedau dros Waith a Mwy rhyngddynt wedi ymgysylltu â niferoedd mawr o bobl yn y deng mis diwethaf, a'r rheiny wedi'u rhannu rhwng pobl 16-24 oed a'r rhai sy'n 25 oed a neu'n hŷn. O'r rheiny roedd cyfran sylweddol wedi dod o hyd i gyflogaeth hefyd: 'felly mae'r dull yn gweithio' meddai'r cyfranogwr hwn wrth grynhoi.

Er hynny, roedd ymgysylltu wedi profi'n her oherwydd yr angen i newid i sianeli digidol. Yn yr un modd, dywedodd mudiadau'r trydydd sector fod rhai pobl ifanc yn teimlo'n anghysurus yn ymgysylltu â mentoriaid dros y ffôn neu ar-lein a bod anallu mentor i ymweld â'r bobl ifanc yn eu cartref yn gwneud ymgysylltu'n anos weithiau.

> *Rwy'n gwybod bod rhai, mae mentoriaid yn cwrdd â hwy mewn caffi, lle maen nhw'n teimlo'n llawer mwy cysurus ac efallai fod rhai mentoriaid yn eu gweld gartref hefyd. Ers y pandemig, dydyn nhw ddim yn gallu gwneud hyn, a byddai pobl fel y rheiny'n syrthio drwy'r rhwyd. Doedden nhw ddim yn ymateb i'w galwadau ffôn, ac nid bod mentoriaid yn rhoi'r ffidil yn y to, ond mae ganddynt bethau eraill i'w gwneud hefyd. (Trydydd sector)*

> *Allwch chi ddim cystadlu ag ymgysylltiad wyneb yn wyneb. Nid oes gan rai pobl ifanc yr hyder i weithio mewn grwpiau o bell pan ydym yn darparu ein rhaglen cyflogadwyedd. Allwch chi ddim cymharu â'r cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw ac mae hynny wedi cael effaith enfawr. (Trydydd sector)*

Hefyd, roedd **ansicrwydd** ynghylch y rhagolygon ar gyfer y rhaglenni hynny a oedd yn cael eu hariannu gan yr UE gyda chyllid yn lleihau dros y 18 mis nesaf pan oedd y galw'n debygol o gynyddu a phan oedd ar Gymru ei angen fwyaf. Cafodd pryderon eu dwysáu gan yr ansicrwydd pa un a fyddai arian i ddisodli cyllid yr UE yn cael eu ddosbarthu trwy Lywodraeth Cymru ynteu Llywodraeth y DU. Ar y cyfan, yn ôl rhai o fudiadau'r trydydd sector, roedd cyllid byrdymor ar gyfer mentrau a dull seilo canfyddedig o'u datblygu'n golygu efallai na fyddai unrhyw beth addawol yn cael digon o amser i gyrraedd ei lawn botensial.

Agwedd arall a godwyd mewn perthynas â chyflogadwyedd oedd sut yr oedd camau'n cael eu cymryd, yn ôl un penderfynwr, i gydgysylltu polisïau a oedd wedi'u bwriadu i helpu pobl a phobl ifanc i ddod o hyd i waith. Roedd y camau hyn yn galw am **weithio'n effeithiol mewn partneriaeth**. Enghraifft a roddwyd oedd pobl ifanc yn cwblhau hyfforddeiaethau ac yn dechrau hawlio Credyd Cynhwysol lle gallent fanteisio ar gyfleoedd Kickstart. Roedd gwaith wedi cael ei wneud hefyd fel bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn cydnabod Kickstart fel 'deilliant cadarnhaol' a oedd yn helpu gyda chyllid. Mewn enghraifft derfynol a roddwyd o gysylltu ymyriadau, yn ôl y sôn roedd newidiadau cadarnhaol diweddar wedi bod

[34] Gweler https://llyw.cymru/prosiect-rhieni-gofal-plant-chyflogaeth-pace

i gymhwystra i gael prentisiaethau ar gyfer y rhai ar Kickstart a oedd wedi dod i'r amlwg wrth adolygu llwybrau posibl at gyflogaeth.

O safbwynt **datblygu sgiliau**, cyfeiriwyd at **Gronfa Ddysgu Undebau Cymru**[35]: ffocws y rhaglen yw galluogi undebau llafur i ddatblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd y gweithlu, gyda phwyslais arbennig ar ddileu rhwystrau ar gyfer y rhai nad ydynt yn dysgu'n draddodiadol. Mae'n gweithio gyda chyflogwyr ac unigolion i naill ai uwchsgilio neu ail-sgilio cyflogeion i mewn i feysydd gwaith newydd neu i ennill sgiliau yn y maes y maent eisoes yn gweithio ynddo. Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod y cynllun yn 'eithriadol o effeithiol'. Yn ôl y sôn roedd ceisiadau wedi dyblu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r disgwyl oedd bod cyfran o'r ceisiadau hynny'n cynnwys pobl ifanc. Roedd ar unigolion eisiau uwchsgilio yn awr bod cyfle iddynt yn ogystal â bod eisiau newid sectorau. Roedd y ffigyrau'n cael eu harchwilio ymhellach i ganfod ble'r oedd y codiadau mwyaf wedi bod, a beth ellid ei gywain o ran iechyd a lles.

Yn yr un modd, fel rhan o raglen gyflogadwyedd, eglurodd penderfynwr sut yr oeddent yn canolbwyntio ar raglenni cyn cyflogi ac **ail-sgilio** pobl ifanc 18-24 oed trwy brentisiaethau a allai fod wedi bod yn ceisio gwaith mewn sectorau traddodiadol. Yn ôl y sôn roedd wedi bod yn 'boblogaidd iawn, iawn gyda phobl ifanc'. Ym maes adeiladu, roedd y prentis yn cael taliad mewn arian parod, blwch offer a gwarant cyfweliad. Roedd 'grant COVID' wedi cael ei ddefnyddio i hwyluso tri llwybr o'r fath a oedd yn cynnwys adeiladu, peirianneg a thwristiaeth / lletygarwch.

> *Fe ddatblygom ni dri llwybr mewn gwirionedd. Peirianneg, adeiladu a thwristiaeth a lletygarwch, ond gyda ffocws ar wasanaethau llety am mai dyna'r rhan o'r sector twristiaeth a lletygarwch lle gwelwyd ychydig bach o adferiad. Ond ydym, rydym yn gweld niferoedd da iawn, ac ychydig o effaith o ran y rhywiau hefyd. Rwy'n meddwl ein bod ni wedi gweld ychydig o ferched yn dod drwy'r cynllun hefyd – gwych! (Penderfynwr)*

Enghraifft arall mewn perthynas â sgiliau a oedd yn llwyddiannus yn ôl y sôn oedd **cynllun prentisiaeth iau** ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed mewn awdurdod lleol. Mabwysiadodd ddull ataliol lle'r oedd dysgwyr o'r oedran hwnnw nad oeddent yn ymgysylltu â lleoliad academaidd yn cael y cyfle i fynychu coleg AB. Roedd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl y niferoedd a oedd yn ennill cymhwyster, y niferoedd a oedd yn aros ymlaen mewn AB i ennill cymwysterau pellach; a chlywed yn ansoddol gan unigolion a oedd yn rhan o'r cynllun. Roedd ffigyrau'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn yr awdurdod lleol yma wedi gostwng er nad oedd yn bosibl mesur maint effaith y pandemig ar y cynllun.

[35] Gweler https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/sgiliau-yn-y-gweithle/cronfa-ddysgu-undebau-cymru-wulf



Mentrau rhanbarthol llwyddiannus eraill yn ôl y sôn, a oedd yn cael eu canmol ymhlith mudiadau'r trydydd sector, oedd **Mon CF**[36] ac **ADTRAC**[37] yng Ngogledd Orllewin Cymru. Disgrifiwyd y ddwy fenter fel rhai sy'n debyg i Cymunedau dros Waith yn yr ystyr eu bod yn rhoi cymorth wedi'i bersonoli i bobl ifanc 16-24 oed i'w helpu i oresgyn rhwystrau a gwella'u rhagolygon cyflogaeth.

> *Pan doedd un person ddim yn fodlon mynd allan o'r tŷ, fe wnaeth eu mentor eu helpu i fynd allan o'r tŷ, gan efallai fynd â hwy am dro yn y cyfnod pan oeddem yn gallu cwrdd â hwy – ddwy fetr ar wahân ac yn y blaen. (Trydydd sector)*

> *[Mon CF] Maent yn cynnig rhaglen Taith i'r Gwaith, felly o ran y rhai nad ydynt yn gyrru ac sy'n teimlo yr hoffent yrru, byddwn yn eu cyfeirio atynt i gael gwersi gyrru gan eu bod yn cynnig gwersi gyrru am ddim, ac maent yn cynnig cyrsiau eraill hefyd, megis meithrin hyder, edrych ar sgiliau cyfweliad, lleoliadau gwaith. Os ydw i'n teimlo bod gan rywun ddiffyg profiad gwaith, byddwn yn eu hatgyfeirio i gael profiad gwaith i'w helpu i gamu ymlaen at waith yn y dyfodol. (Trydydd sector)*

Cafodd camau i addasu ymyriadau presennol, lle nodwyd hynny, eu croesawu. Roedd cyllid **ReAct**[38] Llywodraeth Cymru a buddsoddiad cynyddol yn **Cymru'n Gweithio**[39] yn enghreifftiau pellach a roddwyd o gamau cadarnhaol a oedd yn helpu pobl ifanc a oedd wedi colli eu swyddi, neu a oedd wedi dod yn ddi-waith, i wella'u sgiliau a'u hyfforddiant. Rhoddwyd enghreifftiau cadarnhaol hefyd o fwy o fuddsoddi mewn **Cyfrifon Dysgu Personol**[40] ac edrych ar 'sgiliau gwyrdd' mewn perthynas â rhaglenni sgiliau cyflogadwyedd presennol. Er hynny, roedd cyfranogwyr yn dal i feddwl ar adegau bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y rhaglenni'n cyrraedd y rhai ac arnynt fwyaf angen cymorth.

Roedd disgwyl i gamau canfyddedig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu **technoleg a dyfeisiau** ddwyn budd i genedlaethau'r dyfodol a phobl ifanc gan bod hynny'n cefnogi addysg a datblygiad sgiliau parhaus ac, yn y pen draw, camau ymlaen at gyflogaeth. Eglurwyd ymhlith mudiadau'r trydydd sector fod ymdrechion llwyddiannus wedi cael eu gwneud i offeru pobl ifanc ddifreintiedig â dyfais i fynd ar-lein fel eu bod yn gallu chwilio am swydd, cadw mewn cysylltiad a pharhau â'u hastudiaethau.

### *5.2.1 Profiadau pobl ifanc o gymorth*

Ymhlith pobl ifanc yn yr astudiaeth hon a oedd yn ceisio gwaith, roedd cyfeiriadau anfynych at gael cymorth gan: Gyrfa Cymru (help gyda CVs neu eu cyfeirio at swyddi gwag posibl); Canolfan Byd Gwaith, er nad oedd hyn yn gael ei geisio nac yn cael derbyniad arbennig o

[36] Gweler https://www.moncf.co.uk/
[37] Gweler https://www.gllm.ac.uk/adtrac/
[38] Gweler https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/skills-and-training-programmes/react
[39] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/
[40] Gweler https://cymrungweithio.llyw.cymru/cyfrif-dysgu-personol

gadarnhaol; ADTRAC, asiantaethau cyflogi a WHP: JETS[41]. Roedd y rhai a oedd wedi defnyddio cymorth allanol yn sôn am brofiadau cymysg.

Cafodd mam sengl a oedd yn brwydro gyda chyflyrau iechyd meddwl gynnig hyfforddiant a chymorth gan Ganolfan Byd Gwaith. Nid oedd hi'n gallu derbyn y cynigion am nad oedd gofal plant ar gael a hithau heb neb i ofalu am ei merch yn ystod y cwrs. Roedd hefyd yn cael y galwadau ffôn rheolaidd gan y Ganolfan Waith yn frawychus ac roedd yn poeni y gallai golli ei budd-daliadau. Byddent yn ei ffonio bob chwe mis, gan ddweud yr un peth bob tro, er ei bod wedi egluro bod hyn yn ei gwneud yn bryderus iawn ac nad oedd gofal plant ganddi ar gyfer ei merch i'w galluogi i ddod o hyd i swydd. Gadawodd hyn hi'n teimlo nad oeddent yn malio am ei lles hi na lles ei merch o gwbl.

> *Dydyn nhw ddim yn malio beth yw eich sefyllfa, pwy ydych chi, faint yw eich oed. Rhaid derbyn mai felly y mae hi. Mae arnynt eisiau i chi weithio, dyna'r cwbl. Mae arnynt eisiau i chi roi'r gorau i gael y budd-daliadau a dyna'r cyfan. Na. Rydych wedi cyrraedd eich terfyn amser o beidio â'n cael ni'n eich poenydio. Nawr rydym yn mynd i fod yn eich poenydio. Ewch i gael swydd neu byddwn yn eich ffonio bob wythnos. (Benyw, 18-24 oed, plentyn dibynnol)*

Yn achlysurol iawn, roedd pobl ifanc yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi defnyddio ADTRAC. Roedd un person wedi canfod a chwblhau peth hyfforddiant mewn colur trwy'r rhaglen ac wedi ei werthfawrogi. Fodd bynnag, dywedodd un arall fod yr help yr oedd ADTRAC wedi gallu ei roi yn ystod y pandemig yn gyfyngedig iawn. Nid oedd ADTRAC yn gallu ymweld â chartrefi na sefydlu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ac roedd yn rhaid gwneud popeth dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Fe wnaeth y diffyg cymorth wyneb-yn-wyneb gyfyngu ar ei defnyddioldeb i'r cyfranogwr yma.

Nid oedd un cyfranogwr a oedd wedi cael mynediad at WHP: JETS yn siarad yn gadarnhaol iawn am y profiad. Disgrifiodd sut 'maen nhw'n mynd allan, maen nhw'n chwilio am swyddi [i chi]. Roedd yn swnio'n berffaith, yna dim ond pedwar diwrnod o hyfforddiant gawsom ac yna roeddem yn cael mynd allan a'i wneud. Nid oeddwn yn teimlo bod gen i ddigon o gymwysterau na hyfforddiant [ar gyfer y rolau]'. Dywedodd ei bod yn bennaf yn cael galwadau ffôn bob hyn a hyn i weld sut yr oedd yn gwneud a negeseuon gyda dolenni i gael gwybodaeth.

### 5.3 Ymgysylltiad cyflogwyr

Cyfeiriodd nifer fach o benderfynwyr at **Grwpiau Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth**[42] yng Nghymru. Roedd y grwpiau'n profi'n ddefnyddiol ar gyfer cynllunio'r hyn a fyddai'n digwydd lle'r oedd cyflogwyr yn disgwyl lleihau oriau gwaith neu golli swyddi unwaith y byddai ffyrlo'n dod i ben. Ystyrid bod pwyslais y grwpiau ar ystyried effaith diweithdra ar yr aelwyd yn hytrach na dim ond yr unigolyn yn bwysig. Cyn y pandemig, roedd y dull wedi helpu i leihau effeithiau andwyol o ganlyniad i'r sefyllfaoedd hyn trwy ymgysylltu â chyflogwyr mawr i sicrhau eu bod yn ystyried sut orau i wneud newidiadau o'r fath mewn ffordd a oedd

[41] Gweler https://www.gov.uk/government/news/nation-s-job-hunt-jets-off
[42] Gweler https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymrun-gweithio-chyflogadwyedd-ar-draws-cymru

yn cael yr effaith leiaf. Roedd cyrff cynrychioliadol yn ogystal â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill wedi chwarae rhan.

## 5.4 Cymorth ariannol

Amlygwyd **ffyrlo** fel ymyriad ariannol llwyddiannus a oedd yn cadw pobl gan gynnwys cyflogeion ifainc mewn swyddi. Fodd bynnag, fel a drafodwyd ar ddechrau'r bennod hon, nid oedd yn hysbys eto pa mor sicr fyddai'r swyddi hynny yn y tymor hwy. Hefyd, roedd teimlad weithiau bod gan yr ymyriad y potensial i greu 'sectorau caeëdig' gyda chyfleoedd cyfyngedig i bobl ifanc ymuno â hwy gyda'u swydd gyntaf.

> *Mae'r cynllun ffyrlo wedi bod yn gadarnhaol iawn, iawn, ond mae'n creu rhyw fath o ddeinamig o fewn y farchnad waith, felly mae'n rhyw warchod y rhai sydd ynddi. Felly os oes gennych sefyllfa, dyweder, er enghraifft bod ffyrlo'n cael ei estyn o fis Medi am bod rhyw amrywiolyn newydd [i'r feirws] o bosibl, yna rwy'n meddwl y byddai angen i chi feddwl am gymhelliad yn enwedig i bobl ifanc sy'n dod i mewn i sectorau eraill. Yn bendant mae cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer pobl sy'n recriwtio, ond rwy'n meddwl bod angen i chi feddwl yn union sut y mae'r llwybrau strwythuredig yn gweithio os oes gennych, yn y bôn, sectorau caeëdig yn yr economi lle mae'r gweithwyr presennol yn cael eu cefnogi. (Dylanwadwr)*

Fe chwaraeodd **Credyd Cynhwysol** rôl bwysig yn ôl y sôn o ran helpu pobl o wahanol oedrannau gan gynnwys pobl ifanc i ddatblygu llwybrau i wella'u bywydau. Fodd bynnag, codwyd mater o ran bod pobl ifanc yn ôl y sôn yn peidio â hawlio'r cymorth ariannol hwn pan oeddent yn gymwys (gweler  5.1).

Mewn enghraifft bellach, disgrifiodd un o fudiadau'r trydydd sector sut yr oeddent wedi rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc gyda biliau cyfleustodau trwy **gerdyn ychwanegu arian** fel bod ganddynt ragor o arian i deithio i'r gwaith ac i deithio i gyfweliadau.

Roedd cymorth ariannol yn allweddol bwysig i rai pobl ifanc yn yr astudiaeth hon, gan gynnwys budd-daliadau a ffyrlo. Roedd rhai wedi ymgeisio am Gredyd Cynhwysol ac wedi ei gael. Dywedodd nifer fach â phlant dibynnol a oedd ar Gredyd Cynhwysol pa mor bwysig oedd yr £20 ychwanegol yr wythnos wedi bod iddynt ac roeddent yn pryderu ynghylch y rhagolygon y byddai'r cynnydd hwn yn dod i ben. Soniodd un o'r rhieni hyn hefyd pa mor ddefnyddiol yr oedd y **taliad gan yr awdurdod lleol yn lle prydau ysgol am ddim** wedi profi yn ystod y pandemig.

> *Yn amlwg felly os ydynt yn rhoi diwedd ar yr arian [Credyd Cynhwysol] ychwanegol, byddaf yn cael rhwng 80 a 100 yn llai bob mis, sy'n mynd i fod yn anodd iawn i mi fy hun a'r baban. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

## 5.5 Ymyriadau â ffocws ar iechyd a lles sy'n gysylltiedig â chyflogaeth



Cyfyngedig ar y cyfan oedd y cyfeiriadau at gymorth o'r fath. Roedd disgwyl i fentrau a oedd yn bodoli cyn y pandemig i **gefnogi pobl ifanc gydag iechyd meddwl a lles** barhau i fod yn hanfodol trwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol[43], yn ôl un dylanwadwr. Roedd cysylltiadau, er enghraifft, rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ysgolion i roi i athrawon ac eraill y sgiliau yr oedd eu hangen i gefnogi lles pobl ifanc a chynnal eu cydnerthedd. Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod dulliau cyfredol i fesur deilliannau i blant a phobl ifanc yn ffordd o gadw golwg ar y gwahaniaeth yr oedd ymyriadau'n ei wneud.

> *Rwy'n gwybod bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddull o ran iechyd meddwl mewn ysgolion ond eisoes, trwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol, mae gennym rolau ataliol mewn ysgolion i roi cymorth i blant a phobl ifanc. . . . Rwy'n meddwl y bydd yn dod yn fwyfwy amlwg eleni. . . . Mae casgliad o ddeilliannau gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[44] yn ogystal â chan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Felly, rwy'n meddwl bod gennym ddigonedd o ddeilliannau, ond rwy'n meddwl bod angen i ni dracio'r rheiny ar gyfer plant a phobl ifanc. (Dylanwadwr)*

Mewn enghraifft arall, cafodd **menter ddigidol ddiweddar gan yr Adran Gwaith a Phensiynau** ei hamlinellu gan benderfynwr a oedd yn ymwneud â diogelu a chyflenwi'r Credyd Cynhwysol yn ddigidol. Roedd gan gwsmeriaid eu cyfrifon eu hunain ac roeddent yn gallu anfon negeseuon at yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y system newydd hon yn adnabod geiriau allweddol a oedd yn golygu, er enghraifft os oedd risg o hunan-niwed, bod swyddogion arweiniol ar gyfer diogelu yn cael y rhybudd ac yn gallu dadansoddi a chymryd camau dilynol fel y bo'n briodol.

Hefyd, soniwyd am bwysigrwydd **undebau llafur** o ran rhoi cyngor ynghylch hawliau gweithwyr a chymorth i bobl ifanc. Yn ôl y sôn roedd hyn yn cael ei gyflawni trwy gydweithio rhwng undebau, anogwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru.

Ar lefel leol ac fel a grybwyllwyd yn gynharach yn yr adran hon, roedd rhai o **fudiadau'r trydydd sector** wedi cydweithio'n agos gydag unigolion i'w helpu i ymdrin ag iechyd meddwl a hunanhyder, megis annog person ifanc i adael y tŷ.

## 5.6 Gweithio mewn partneriaeth

Yn fwy eang, roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr o'r farn bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer heriau cyffredinol o ran cyflogaeth yn ogystal ag ar gyfer

[43] Gweler https://llyw.cymru/byrddau-partneriaeth-rhanbarthol
[44] Gweler https://llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus

pobl ifanc. Roedd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol[45] a Grwpiau Ymateb Rhanbarthol ar Gyflogaeth yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu'n dda, yn ôl ychydig rai. Y gobaith a fynegwyd gan un cyfranogwr oedd y byddai'n bosibl gweld yn well sut yr oedd awdurdodau lleol yn rhagweld y byddai eu heconomïau'n newid yn y dyfodol, fe y gallai mudiadau cymorth fod yn ddigon ystwyth i addasu i ddiwydiannau newydd neu ddatblygol.

> *Mae a wnelo â chynaliadwyedd yn y tymor hir i greu cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, a sut y gallai hynny helpu ym maes diweithdra ieuenctid. Felly mae'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid – strategaeth Cymru ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc – yn cael ei ddatblygu. (Dylanwadwr)*

Roedd rhoi **Cynllun Restart**[46] Llywodraeth y DU ar waith yn enghraifft gadarnhaol iawn o gydweithio, yn ôl un penderfynwr. Byddai'r cynllun yn rhoi cymorth gwell i hawlyddion Credyd Cynhwysol a oedd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 12 mis i ddod o hyd i swyddi yn eu hardal leol. Er mwyn iddo lwyddo byddai'n allweddol bod darparwyr yn darparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i farchnadoedd llafur lleol.

> *Mae'n stori dda iawn i'w hadrodd am waith ar y cyd a chydweithio, yn hytrach na bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n syml yn gwneud yr hyn y mae arni eisiau ei wneud, neu Lywodraeth Cymru'n gwneud yr hyn y mae arni hithau eisiau ei wneud. (Penderfynwr)*

Cyfeiriwyd yn achlysurol at heriau posibl yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran sut y gallai weithio'n effeithiol i ategu ac ychwanegu gwerth at bolisïau ac ymyriadau ar lefel y DU gyfan a beth yn union ddylai fod yn ei wneud yn hyn o beth. Gallai ofn dyblygu ymyriadau Llywodraeth y DU olygu 'gwyro i ffwrdd' oddi wrth feysydd addawol fel Kickstart.

## 5.7 Cael mynediad at waith da, teg

Roedd ymyriadau a oedd yn gysylltiedig yn benodol â gwaith da, teg yn tueddu i beidio â chael eu codi. Yn ôl un dylanwadwr, roedd **dull gweithio cydgysylltiedig** hefyd o fudd i effeithiolrwydd Kickstart yng Nghymru, gydag arweiniad gan undebau llafur yn cydblethu ag anogwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y dull yn helpu pobl ifanc i ddeall beth oedd eu hawliau cyflogaeth. Yn fwy cyffredinol, roedd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol bod Llywodraeth Cymru'n annog busnesau i roi **mynediad i undebau llafur i recriwtio aelodau**, fel rhan o ymdrechion i wneud Cymru'n genedl Gwaith Teg[47]. Byddai'r math yma o gymorth gyda hawliau cyflogaeth yn helpu pobl ifanc a oedd wedi dod o hyd i swydd yn ystod y pandemig ac nad oeddent wedi tywyllu swyddfa. Heb arweiniad o'r fath, yn ôl y cyfranogwr, roedd yn anos iddynt ddod yn ymwybodol o'u hawliau oherwydd sgyrsiau cyfyngedig gyda chydweithwyr ac weithiau oherwydd y ffordd yr oeddent yn cael eu cyflogi, er enghraifft fel gweithwyr llawrydd.

---

[45] Gweler https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol

[46] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/restart-scheme/how-the-restart-scheme-will-work

[47] Gweler https://www.tuc.org.uk/making-wales-fair-work-nation

## 5.8 Ymyriadau mewn gwledydd eraill

Roedd y rhaglen **Developing the Young Workforce yn yr Alban**[48] yn cael ei hamlygu o bryd i'w gilydd fel modd effeithiol i sicrhau nad oedd unrhyw bobl ifanc yn cael eu gadael ar ôl[49]. A hithau wedi cael ei chreu cyn y pandemig, mae wedi'i bwriadu i gryfhau cydweithio a phartneriaeth wrth ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm mewn ardaloedd a rhanbarthau ar draws colegau, busnesau a phrifysgolion. Yn ôl y sôn roedd ei seilwaith yn cael ei ddefnyddio bellach i gyflawni'r ymateb i COVID.

Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod parhau i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt fynd trwy gyfnodau pontio'n elfen werthfawr o'r rhaglen hon a'i **Gwarant Ieuenctid**[50]. Byddai colegau a phrifysgolion yn cadw mewn cysylltiad â dysgwyr wrth iddynt symud ymlaen, i bob pwrpas yn 'gwylio drostynt' trwy'r rhaglen. Roedd **llwybr strwythuredig** i mewn i gyflogaeth yn cael ei ystyried yn allweddol bwysig i lwyddiant yn y tymor hir ar gyfer helpu pobl ifanc i gael gwaith. Yn ystod 2020 roedd cyfranogwyr yn meddwl bod y cynllun wedi dod yn agos at y targed gwreiddiol o ran nifer y prentisiaid a gyflawnwyd, a hynny er gwaethaf y pandemig. Hefyd, roeddent yn meddwl bod **Skills Development Scotland**[51] yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ifanc trwy wrthweithio'r her o ran gorfod cystadlu gyda cheiswyr gwaith mwy profiadol trwy ddarparu llwybrau strwythuredig i waith ar gyfer pobl ifanc.

> *Bydd cyflogwyr yn y pen draw'n cyflogi'r rhai mwy profiadol, ac rwy'n meddwl mai'r ffordd yr ydych yn gwrthweithio hynny yw trwy'r llwybrau strwythuredig, prentisiaid, cymorth rhaglenni a buddsoddi mewn hyfforddi'r bobl ifanc. Ac rwy'n meddwl ein bod wedi dod yn well am wneud hynny trwy'r rhaglen Skills Development Scotland. (Dylanwadwr)*

Roedd mudiadau llais ieuenctid a'r gymdeithas sifil megis **YouthLink**[52] ac **Young Scot**[53], yn ôl dylanwadwr, wedi cael eu cynrychioli'n dda wrth ddatblygu'r strategaeth ac roedd disgwyl iddynt fod yn elfen bwysig o'i llwyddiant. Ystyrid bod yr egwyddor tanategol, sef No One Left Behind, yn gwneud yr ymyriad yn fwy o weledigaeth hirdymor ar gyfer cymorth ieuenctid, gyda dull holistaidd a chyswllt uniongyrchol â gwaith teg.

Awgrymwyd fod gwersi posibl i'w dysgu o wledydd eraill lle'r oedd **diweithdra ymhlith pobl ifanc yn llai o broblem**. Rhoddwyd Denmarc fel un enghraifft lle'r oedd yn ymddangos bod llai o ymchwil i'r pwnc am ei fod yn llai o broblem a bod cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn tueddu i fod yn is. Eglurwyd fod dinasyddion Denmarc yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth i gymryd amser i feddwl beth oedd arnynt eisiau ei wneud gyda'u gyrfaoedd. Byddai ymchwilio i ddatrysiadau felly'n fuddiol.

Awgrymodd un cyfranogwr y gallai'r **berthynas rhwng y Llywodraeth a sefydliadau'r gymdeithas sifil** mewn gwledydd eraill o ran mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc

[48] Gweler https://www.dyw.scot/
[49] Gweler https://www.gov.scot/publications/no-one-left-behind-delivery-plan/
[50] Gweler https://www.gov.scot/news/delivering-the-youth-guarantee/
[51] Gweler https://www.skillsdevelopmentscotland.co.uk/
[52] Gweler https://www.youthlinkscotland.org/
[53] Gweler https://young.scot/


gael ei harchwilio ymhellach. Rhoddwyd Quebec, Canada a Gogledd Iwerddon fel enghreifftiau lle'r oedd sefydliadau o'r fath yn cael cyllid craidd a oedd yn ôl y sôn yn arwain at ddulliau mwy cydlynol o gefnogi pobl ifanc. Roedd y rhwydweithiau o elusennau ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn gryfach o lawer o ganlyniad. Hefyd, roedd yn debyg bod Gogledd Iwerddon yn ystyried datblygu Kickstart trwy roi cymhellion i gyflogwyr barhau i gyflogi pobl ifanc ar ôl i'r cyfnod cychwynnol o chwe mis ddod i ben.

### 5.9 Cefnogi pobl ifanc â phlant dibynnol

Ar rai adegau, cafodd **PaCE** (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) ei disgrifio gan benderfynwyr fel rhaglen a oedd yn cefnogi rhai yng Nghymru â plant dibynnol mewn modd effeithiol ond ei bod ar raddfa lai o lawer na Cymunedau dros Waith. Er hynny, roedd yn cael ei hystyried yn rhaglen hanfodol i'w charfan iau (16-24) o ran dileu rhwystr allweddol i gyflogaeth. Yn ôl y sôn roedd y niferoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf cyn y pandemig, ond roedd y niferoedd a oedd yn ei ddefnyddio wedi gostwng dros y deng mis diwethaf a heb gynyddu i'r graddau a welwyd gyda Cymunedau dros Waith a Mwy.

> *Nid yw'r niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi bod yn enfawr, oherwydd wrth gwrs mai'r neges o hyd i raddau helaeth yw, wel, mae yno dim ond os yw'n hanfodol – os ydych chi wir yn methu ymdopi. (Penderfynwr)*

Hefyd, cyfeiriwyd at y budd a oedd yn deillio o'r ffaith bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig taliadau uniongyrchol mewn arian parod i rieni i dalu am **brydau ysgol am ddim** yn lle talebau neu hamperi bwyd yn ystod y cyfyngiadau symud yng Nghymru. Roedd y cymorth hwn wedi cael ei groesawu gan riant ifanc yn yr astudiaeth hon.



# 6. Barn am newidiadau sy'n ymwneud â chyflogaeth a fyddai o fudd i bobl ifanc yng Nghymru yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan y pandemig


6.1 Parhau i wella ymyriadau presennol

6.2 Cyfleoedd gwaith a warentir

6.3 Canolbwyntio ar y grwpiau o bobl ifanc sy'n fwy difreintiedig

6.4 Ffocws yn ôl sector ar gyfer pobl ifanc

6.5 Sgiliau a hyfforddiant amgen ac ychwanegol i bobl ifanc

6.6 Mynd i'r afael â rhwystrau o ran seilwaith

6.7 Mwy o weithio mewn partneriaeth a chydweithio

6.8 Newidiadau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a lles

6.9 Cynyddu'r siawns o waith da, teg

6.10 Beth os ydym yn wynebu senario llai cadarnhaol yn y dyfodol?

6.11 Cefnogi'r rhai â phlant dibynnol

6.12 Y system yng Nghymru

## 6. Barn am newidiadau sy’n ymwneud â chyflogaeth a fyddai o fudd i bobl ifanc yng Nghymru yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan y pandemig

Mae’r bennod hon yn nodi themâu ar draws pob math o gyfranogwr ynghylch pa ymyriadau neu newidiadau sy’n ymwneud â chyflogaeth oedd eu hangen yn eu tyb hwy i helpu i leihau’r effaith andwyol yr oedd y pandemig yn ei chael ac y byddai’n ei chael ar bobl ifanc a chenedlaethau’r dyfodol. Cafodd cyfranogwyr eu hannog hefyd i ystyried beth ellid ei wneud ynghylch gwella’r siawns o gael neu gadw gwaith da, teg. Roedd hyn yn cynnwys eu cynorthwyo â senario mwy cadarnhaol a llai cadarnhaol ymhen blwyddyn o ran rheoli COVID-19; a gofyn pa gamau allai fod eu hangen i gyflawni deilliant cadarnhaol i bobl ifanc yn y ddau senario. Roedd rhai pobl ifanc a rhai o fudiadau’r trydydd sector yn cael y maes pwnc yma’n gryn her i ymateb iddo.

### 6.1 Parhau i wella ymyriadau presennol

Hysbysodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr fod mwy i’w elwa o ganolbwyntio ymdrechion ar ehangu **ymyriadau presennol** a oedd â’r potensial i wneud gwahaniaeth go iawn yn hytrach na cheisio dechrau o’r dechrau. Byddai’n debygol o brofi’n fwy ymarferol hefyd. Roedd cwpl o gyfranogwyr yn meddwl bod peth wmbredd o waith wedi cael ei wneud yn barod ar y pwnc yma a oedd yn atgyfnerthu’r safbwynt hwn. Dadleuwyd o bryd i’w gilydd hefyd y byddai’n well canolbwyntio ar nifer fach o ymyriadau presennol yn hytrach na cheisio gwasgaru adnoddau’n rhy denau a chynhyrchu rhestr o bosibiliadau ‘diwahaniaeth’.

> *Mwy i gymell cyflogwyr i gyflogi pobl, o ran prentisiaethau. Rwy’n meddwl mai mater o gynyddu’r ddarpariaeth bresennol a gwneud mwy ydyw. Dydw i ddim wedi fy argyhoeddi bod angen i ni fod â chyfres gwbl newydd o ymyriadau newydd. (Penderfynwr)*

Pwynt eang arall a wnaed gan nifer fach o gyfranogwyr oedd bod angen i’r newidiadau sy’n ofynnol i gefnogi pobl ifanc fod, i bob pwrpas, ‘yn niwtral o ran senarios yn y dyfodol’ hyd y bo’n bosibl. Byddai ar bobl ifanc angen cydnerthedd ni waeth beth fyddai’n digwydd, er enghraifft, a byddai angen rhwydweithiau cymorth da arnynt beth bynnag.

### 6.2 Cyfleoedd gwaith a warentir

Roedd pobl ifanc, penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau’r trydydd sector yn pwysleisio’n rheolaidd mai ffordd allweddol o wella rhagolygon cyflogaeth i bobl ifanc, yn y tymor byr a hwy, oedd **cynnig a warentir** a allai gynnwys parhau ag ymyriadau presennol neu eu hehangu. Gallai gynnwys cyflogaeth am dâl am chwe mis (er enghraifft fel Twf Swyddi Cymru) gyda gwarant o gyfweliad ar gyfer swydd ar ddiwedd hynny, profiad gwaith, lleoliadau, hyfforddeiaethau (‘tâl da pan ydych yn cael eich hyfforddi hefyd’ oedd yr awgrym gan berson ifanc) a phrentisiaethau safonol a phrentisiaethau iau â chymhellion i gyflogwyr. Roedd rhai cynlluniau fel prentisiaethau â chymhellion yn golygu y gallai fod angen newid mewn ffocws i adlewyrchu’r sectorau lle’r oedd Llywodraeth Cymru’n disgwyl gweld twf ac yn bwriadu creu swyddi.

*Mwy o gyllid tuag at brentisiaethau gradd a phrentisiaethau'n gyffredinol, a chymhellion i gyflogi prentisiaid unwaith y maent wedi cymhwyso. Eich arwain i mewn i swydd ystyrlon sydd o bwys i chi ac yr ydych yn gymwys i'w gwneud (Benyw, 18-24, mewn addysg)*

*Rwy'n meddwl y dylai mwy o gwmnïau fod yn trefnu bod swyddi hyfforddeion ar gael i gynorthwyo mwy o bobl ifanc i gamu ar yr ysgol. . . Fe wnes i fynd i faes cyfrifyddu trwy swydd hyfforddai. Felly, rwyf wedi bod yn weddol ffodus i gael y cyfle hwnnw. Rwy'n meddwl y byddai cael mwy o gwmnïau ar draws gwahanol sectorau'n cynnig swyddi hyfforddeion yn fwy buddiol i bobl ifanc. (Gwryw, 18-24, cyflogaeth sicr)*

*Y ffordd orau i baratoi rhywun ar gyfer swydd yw rhoi swydd iddynt. Yr hyn a ganfuom yn y gorffennol gyda phethau fel Twf Swyddi Cymru ac ymyriadau eraill oedd, pe baem yn rhoi cymhorthdal i gyflogwyr i ddarparu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc, bod hynny o gymorth aruthrol. (Penderfynwr)*

*Rydych yn gwarantu prentisiaeth neu le mewn coleg neu rywbeth iddynt hyd at oedran penodol, ac yna mae hynny ar y cyfan yn eu harfogi â mwy o sgiliau. . . . Dydyn ni ddim yn gadael unrhyw un ar ôl. (Penderfynwr)*

*Pe bai gennym sefyllfa lle'r oedd y Llywodraeth yn dweud, 'pan fo pobl ifanc yn mynd i mewn i'r gweithle, dylent allu cael o leiaf chwech i ddeg awr yr wythnos o waith'. Fel eu bod mewn sefyllfa, beth bynnag a ddigwydd, eu bod yn gwybod y bydd ganddynt chwech i ddeg awr yr wythnos. Gallent wneud cais am Gredyd Cynhwysol a chael ychwanegiad at yr arian hwnnw i allu fforddio byw, fel eu bod yn gallu dechrau'n fychan. (Trydydd sector)*

Awgrymodd pobl ifanc hefyd fod cwotâu'n cael eu pennu fel y byddai'n rhaid i gyflogwyr gyfweld â nifer benodol o bobl ifanc ar gyfer pob swydd. Byddai **cyrsiau hyfforddi** hygyrch, rhad-ac-am-ddim yn helpu hefyd, yn ôl rhai. Gallai hyn helpu wrth gystadlu gydag ymgeiswyr mwy profiadol. Byddai cyflwyno opsiynau profiad gwaith ar-lein neu o bell a'r rheiny'n gallu cael eu hychwanegu at CVs yn helpu yn hyn o beth hefyd.

Ystyrid ei bod yn bwysig sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni rhywbeth **gweladwy** ar y diwedd i gefnogi eu datblygiad, er enghraifft cymhwyster. Dywedodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr fod ymyriadau blaenorol a chyfredol wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhoi'r math yma o gyfle i bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc ddifreintiedig, yn bolisi effeithiol. Roedd yn hanfodol bod effeithiolrwydd ymyriadau'n wirioneddol fesuradwy ac yn defnyddio grwpiau rheoli, yn ôl un dylanwadwr, yn hytrach na dibynnu ar unigolion neu gyflogwyr yn sôn yn fras am eu heffeithiolrwydd.

I berwyl tebyg, gallai **estyniad i Kickstart** helpu hefyd, yn ôl rhai penderfynwyr a dylanwadwyr, oherwydd y mesurau cyfyngu hwy na'r disgwyl yn wreiddiol a'r effaith ar yr economi. Wedyn gallai ei estyn gysylltu â **Chynllun Restart**[54] yr Adran Gwaith a Phensiynau. Efallai y byddai angen iddo hefyd fod yn fwy hael i gyflogwyr er mwyn i'r cynllun neu

[54] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/restart-scheme

rywbeth tebyg fod o gymorth go iawn i'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig, yn ôl rhagfynegiad un dylanwadwr. Gallai fod mwy o rôl hefyd i ymyriadau presennol a oedd wedi'u bwriadu i helpu pobl economaidd anweithgar i gael gwaith cynaliadwy â chyfraddau tâl uwch, fel **ReAct**.

> *Dydw i ddim yn meddwl y gallai Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ei phen ei hun, cynllun hirdymor sy'n cyfateb i Kickstart, wedi'i ehangu mwy na thebyg, sy'n talu cymhorthdal i gyflogi pobl ifanc – math o warant swydd mewn gwirionedd. . . . Os ydynt wedi bod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am gyfnod penodol, bydd swydd â chymhorthdal ar gael. . . . Byddwn i'n ei gwneud hi'n amhosibl i bobl fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y tymor hir, oni bai eu bod yn benderfynol o fod yn anweithgar. (Dylanwadwr)*



Byddai **llwybrau strwythuredig** ar gyfer pobl ifanc i mewn i gyflogaeth a'r rheiny wedi'u seilio ar y dulliau a nodir uchod yn hanfodol yn ôl rhai dylanwadwyr. Byddent hefyd yn helpu i wrthweithio'r her o ran cyflogwyr yn dewis cyflogi ymgeiswyr mwy profiadol. Ystyrid bod parhau i **gefnogi pobl ifanc wrth iddynt fynd trwy gyfnod pontio** yn elfen werthfawr o'r rhaglen Developing the Young Workforce yn yr Alban. Fel a ddisgrifir yn 5.1 byddai darparwyr addysg yn cynnal y berthynas â'u dysgwyr drwy'r rhaglen.

> *Ceir llawer mwy o dderbyniad ymhlith pobl ifanc eich bod yn rhoi yr hyn allwch chi ac yna'n cael eich poeri allan a chithau'n gobeithio mynd â pheth profiad gyda chi, yn hytrach na bod a wnelo â datblygu a gadael yr interniaeth neu'r swydd wirfoddoli â rhyw fath o gymhwyster neu brofiad go iawn, gweladwy hyd yn oed. (Dylanwadwr)*

Roedd rhai pobl ifanc 18-24 oed yn teimlo hefyd y byddent yn cael budd o **gyngor a chymorth gyrfaoedd gwell**, i baratoi pobl ifanc yn well ar gyfer byd gwaith a'r posibilrwydd o ailhyfforddi pan fo angen. Ystyrid ei bod yn hanfodol codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol opsiynau o ran cyngor a chymorth sydd ar gael.

> *Ar y cyfan, unwaith y byddwch yn gadael y coleg, mae bwlch gweddol fawr lle mae cymorth yn y cwestiwn. Dywedais wrth fy ngholeg nad oeddwn yn dymuno mynd i'r brifysgol, fod arnaf eisiau chwilio am swydd. Cyn belled ag yr oedd fy ngholeg ac awdurdodau lleol [yn y cwestiwn] – does gen i ddim swydd nac unrhyw beth, does neb wedi anfon neges neu e-bost ataf i ddweud 'Beth wyt ti'n ei wneud?'. Rwy'n meddwl mwy na thebyg bod llawer o bobl a allai fod wedi syrthio i mewn i'r fagl honno a sydd o bosibl ddim yn gwneud unrhyw beth, a does neb yn ymwybodol nac yn ceisio'u helpu. Oherwydd fyddwn i ddim yn gwybod pwy i fynd i chwilio amdanynt neu eu ffonio, pe na bawn wedi cael swydd. (Gwryw, 18-24, prentisiaeth)*

Yn ogystal ag effeithiolrwydd rhoi cymhorthdal i'r sector preifat i ddarparu gwarantau ar gyfer pobl ifanc, roedd argymhellion hefyd ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr y gallai'r **sector cyhoeddus ei hun** wneud mwy i ddenu pobl iau i mewn i'w weithlu fel rhan o

ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater. Roedd yn cael ei gydnabod yn achlysurol nad oedd awdurdodau lleol yn gwneud digon i gyflogi pobl ifanc. Byddai'r cam hwn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater canfyddedig bod gan y sector cyhoeddus yng Nghymru weithlu sy'n heneiddio, yn ôl rhai. Gallai fod rôl i'r sector cyhoeddus gyflawni 'statws cyfeillgar i ieuenctid fel cyflogwr'.

Fel syniad byrdymor, awgrymwyd fod pobl ifanc a oedd wedi profi anawsterau gyda chwblhau eu cymwysterau galwedigaethol oherwydd y pandemig yn dal i allu cael eu cyflogi gan gyflogwyr a fyddai wedyn yn cael cymhellion i helpu'r bobl ifanc i **gwblhau eu cymwysterau wrth weithio**. Awgrymwyd mwy o **gymhellion yn gyffredinol ar gyfer y sector AB** hefyd i dyfu nifer y dysgwyr.

Byddai angen i unrhyw ymyriadau a oedd yn rhoi cymhellion i gyflogwyr fod yn **syml** i'w gweinyddu ac yn **fesuradwy** mewn modd cadarn i ganfod eu heffaith, ychwanegai penderfynwyr a dylanwadwyr o bryd i'w gilydd. Roedd newidiadau a wnaed yn gynnar yn ystod y cyfyngiadau symud wedi amlygu sut y gallai'r sector cyhoeddus a'r sector preifat symud yn weddol gyflym pan oedd angen. Roedd **cyflymder** yn cael ei ystyried yn hanfodol oherwydd yr hyn a oedd yn y fantol gydag amgylchiadau pobl ifanc. Roedd y rhai a gafodd eu taro galetaf yn debygol o fod yn fwy difreintiedig byth ac roedd y modd y tarfwyd ar ddatblygiad addysgol a gyrfaoedd wedi bod yn sylweddol i lawer.

### 6.3 Canolbwyntio ar y grwpiau mwy difreintiedig o bobl ifanc

Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn credu'n rheolaidd ei bod yn hanfodol canolbwyntio polisïau ac ymyriadau ar y bobl ifanc a oedd **fwyaf tebygol o gael eu taro galetaf** gan y pandemig a'r dirwasgiad. Roeddent yn credu mai'r canlynol oedd y rhain: pobl ifanc â sgiliau is a fyddai'n ei chael yn anodd ymuno â'r farchnad lafur, pandemig neu beidio; pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; a'r rhai ym mlynyddoedd olaf addysg orfodol a oedd wedi ymddieithrio. Roedd angen i nodweddion (gwarchodedig) ychwanegol fel ethnigrwydd ymhlith pobl ifanc gael eu deall a'u hystyried hefyd gyda'r dull hwn. Roedd teimlad bod grwpiau eraill yn dal yn debygol o ddioddef i raddau oherwydd y pandemig ond eu bod yn fwy tebygol o fod wedi'u harfogi'n well i gamu ymlaen unwaith y byddai mesurau cyfyngu wedi cael eu llacio. Roedd disgwyl bod y bwlch rhwng pobl ifanc amddifadus a phobl ifanc eraill wedi cynyddu'n fwy byth yn ystod y cyfyngiadau symud, felly roedd yn hollbwysig canolbwyntio ar gymorth ar gyfer pobl ifanc fwy difreintiedig i atal y bwlch rhag cynyddu ymhellach.

> *Mae fy maes polisi wedi rhyw ehangu. Felly bydd y rhai sydd â mynediad at y rhyngrwyd, y rhai sydd â mynediad at gymorth cymheiriaid, y rhai sydd â rhieni ymwthgar yn dod yn eu blaenau, ond nid felly'r rhai heb y pethau hynny. A bydd yn anos byth – bydd eu byd yn crebachu a bydd byd pobl eraill yn ehangu. (Penderfynwr)*

> *Fe wnaeth y dirwasgiad diwethaf daro gweithwyr iau o gefndiroedd du ac ethnig lleiafrifol yn galetach na neb arall, ac os ydych yn edrych ar y setiau diweddaraf o ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae'r un peth yn wir eto. Felly rydych yn siarad amdanynt yn cael eu taro ddwywaith mewn cyfnod byr iawn. Ac yna os ydych yn ystyried bod y toriadau o ran cymorth ar gyfer gwasanaethau ieuenctid eto wedi*

> *effeithio'n sylweddol ar bobl iau o gefndiroedd du ac ethnig lleiafrifol – rwy'n meddwl mai dyna ble y dylai'r ffocws fod. (Dylanwadwr)*

Byddai dull â ffocws mwy pendant yn gwneud sylw hefyd o ran cael yr effaith fwyaf gyda'r cyllidebau sydd ar gael, o ystyried yr **ansicrwydd ynghylch cyllid cyflogadwyedd yn y dyfodol** wrth i gymorth yr UE ddod i ben, yn ôl disgwyliadau un penderfynwr. Er hynny, tybid na allai gweinidogion ymrwymo i strategaethau hirdymor oherwydd yr etholiad a oedd ar fin digwydd yng Nghymru.

> *Rhaid i ni fod yn fwy craff. . . . Fe lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cyflogadwyedd rhwng mis Mawrth a mis Mai 18, a hwnnw'n siarad am symleiddio a lliflinio ein darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau. Byddwn yn bendant yn mynd a chyflawni hwnnw, oherwydd byddwn yn syml yn methu â fforddio dyblygu darpariaeth. Rhaid i ni dargedu'r hyn sydd gennym, yr adnoddau cyfyngedig sydd gennym, a rhaid i ni dargedu'r bobl hynny y mae ei angen arnynt fwyaf. (Penderfynwr)*

Yn fwy eang, yn ôl un dylanwadwr, byddai newidiadau ar lefel macro fel **lleihau cyni** a darparu **mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus** yn helpu i leihau anghydraddoldeb a gwrthdroi toriadau i wasanaethau yn y sector statudol a oedd yn cefnogi pobl ifanc fel canolfannau ieuenctid a hamdden.

Yn ôl nifer fach o benderfynwyr a dylanwadwyr, gallai pobl ifanc ddifreintiedig a oedd heb rwydweithiau cymorth gael budd hefyd o gymorth i ddatblygu **cydnerthedd** a gallu ystyried cyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth. Efallai fod hyn yn angenrheidiol fel sylfaen i fuddsoddi mewn ymyriadau hyfforddi a phrofiad gwaith newydd. Hefyd, gallai'r farchnad swyddi newid, gyda mwy o rolau gweithio o bell lle byddai angen sgiliau penodol a lle byddai'r angen am hunanysgogiad yn cynyddu. Roedd disgwyl i gydnerthedd gwell fod o fudd i iechyd a lles pobl ifanc hefyd.

Fodd bynnag, gallai cyrraedd y bobl ifanc hyn ddal i fod yn broblemus os oedd dull gofodol yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd pobl ifanc ac arnynt fwyaf angen cymorth, rhybuddiodd dylanwadwr a phenderfynwr. Roedd yn cael ei ystyried yn aneffeithlon ac yn 'wan' am bod nifer o bobl nad ydynt yn amddifadus yn byw mewn ardaloedd amddifadus, a bod nifer o bobl amddifadus yn byw mewn ardaloedd gweddol oludog.

I helpu i gau'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol, roedd rhai'n meddwl y gallai'r rhai a oedd wedi dioddef yn arbennig yn ystod y cyfyngiadau symud gymryd rhan mewn **wythnosau ychwanegol o addysg** yn ystod gwyliau ysgol. Roedd awgrymiadau mwy hirdymor weithiau ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr y gallai fod o fudd i rai pobl ifanc dreulio **mwy o amser mewn addysg**, gyda hynny'n cael ei ategu gan fwy o fuddsoddiad yn y sector addysg bellach. Y rheswm dros hynny fyddai nid dim ond i ganiatáu amser i gyfleoedd cyflogaeth newydd ddod i'r amlwg ond hefyd i alluogi pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn cwestiynu weithiau a oedd cymorth Llywodraeth Cymru i addysg a hyfforddiant yn y lle cywir. Roedd ei phecyn o gymorth ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, er enghraifft, yn fwy hael nag yn Lloegr yn ôl y sôn. Gallai fod yn well **symud**

**mwy o gyllid tuag at addysg bellach** neu hyfforddiant adferol ar gyfer pobl ifanc sy'n 'cael eu gadael ar ôl'.

> *Nid wyf yn meddwl y bydd yr ymyriad ysgol gyfan neu garfan gyfan yn gweithio, oherwydd ni fydd yn cau'r bwlch. . . . Pe bai gennych y plant yn dod i mewn am ychydig wythnosau dros y Pasg a thros yr haf, y cwbl y bydd hynny'n ei wneud yw dwyn budd i bawb. Os ydych yn poeni am y plant sydd wedi syrthio ar ei hôl hi, rhaid bod gennych fwriadau wedi'u targedu, â ffocws mwy pendant. (Dylanwadwr)*

> *Mae arnom angen i gymaint o bobl â phosibl aros mewn addysg i'w diogelu rhag y farchnad lafur anodd. Gallai fod yn afrealistig oni bai ein bod yn rhoi digon o gymorth i bobl ifanc wneud hynny, felly mae'n ymwneud nid dim ond ag ansawdd y cyrsiau sydd ar gael, ond mewn gwirionedd rydych yn cael cymorth hael iawn lle mae addysg uwch yn y cwestiwn. . . . Nid oes dim o gwbl o hynny ar gyfer addysg bellach. Felly mae hynny'n bryder go iawn. (Dylanwadwr)*

Er nad yw'n ymwneud yn benodol â'r pandemig, roedd galwad ymhlith mudiadau'r trydydd sector am **ddiwygio'r Lwfans Gofalwr**[55] i alluogi gofalwyr ifainc i barhau i astudio heb golli eu budd-daliadau.

> *os ydych yn gwneud mwy na 21 awr o astudio'r wythnos rydych yn colli eich Lwfans Gofalwr. Bu gen i bobl ifanc sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i'r coleg. Roedd gen i berson ifanc a oedd yn wych, ac roedd arno eisiau bod [yn y sector iechyd] ac roedd yn hyfforddi yn y coleg, ac roedd yn dwlu arno ac roedd fel pe bai'n meddwl, 'Rwyf wedi dod o hyd i fy mheth i'; ac yna fe sylweddolodd nad oedd yn gallu fforddio prynu bwyd, a phetrol i fynd â'i fam at y meddyg. Bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'w gwrs i allu fforddio byw. Ac ni ddylai pobl ifanc orfod gwneud y dewis hwnnw. (Trydydd sector)*

Ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y tymor hwy, roedd un dylanwadwr o'r farn ei bod yn bwysig bod pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant hyd at 21 oed, fel a argymhellir yn Build Back Fairer: The COVID-19 Marmot Review[56]. Hefyd yn y tymor hwy, gallai gweithlu ifanc mwy medrus helpu i ddenu swyddi gwell i Gymru. Fodd bynnag, mynegwyd barn gyferbyniol y byddai treulio mwy o amser mewn addysg yn syml yn gohirio'r mater ac yn arwain at 'ormodedd' o bobl ifanc yn cystadlu am swyddi.

---

[55] Gweler https://www.gov.uk/carers-allowance
[56] Gweler https://www.health.org.uk/publications/build-back-fairer-the-covid-19-marmot-review



Yn yr un modd, roedd pobl ifanc, penderfynwyr a dylanwadwyr yn meddwl y gellid gwneud mwy i gefnogi pobl ifanc ddifreintiedig â **chysylltedd digidol** gwell. Gallai hyn gynnwys cefnogi dysgwyr mewn addysg bellach â gliniaduron a chysylltedd, i sicrhau eu bod yn gallu parhau i ddysgu. Byddai hefyd yn hwyluso mwy o opsiynau gyrfaoedd sy'n golygu gweithio gartref a phatrymau gweithio hyblyg, fel bod pobl ifanc yn gallu cael eu galluogi i **weithio gartref** lle bynnag y bo'n bosibl. Gellid ystyried hyrwyddo'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg[57] yn fwy hefyd.

> *Mae'n achosi ychydig o bryder nad oes unrhyw gymorth gyda hynny, mewn gwirionedd. Y cwbl y bydd cynyddu'r cysylltedd neu beth bynnag yn ei wneud yw helpu pobl sydd eisoes wedi'u cysylltu. Nid y bobl sy'n cael eu gadael ar ôl. (Gwryw, 18-24, hunangyflogedig)*

Dywedodd un penderfynydd y gallai **cynlluniau prentisiaeth iau** i bobl ifanc 14-16 oed fod ar gael yn fwy eang. Gallent helpu i atal pobl ifanc sy'n ymgysylltu'n llai rhag cael eu gadael ar ôl wedi iddynt adael yr ysgol a rhoi'r cyfle iddynt aros ymlaen mewn addysg a datblygu eu sgiliau a'u cymwysterau.

Gan edrych ymhellach o lawer ymlaen at genedlaethau'r dyfodol, dywedodd dylanwadwr y dylai ymdrechion barhau i **atal y materion yn ystod plentyndod** cyn iddynt godi. Roedd tystiolaeth yn awgrymu ei bod yn ddrud ac yn aml yn amhosibl yn ymarferol unioni rhai o'r materion a brofwyd gan bobl ifanc ddifreintiedig. Roedd yr unigolyn yma'n teimlo y gellid gwneud mwy i fonitro sut yr oedd grantiau a oedd yn cael eu rhoi i ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig at y diben hwn yn cael eu defnyddio.

### 6.4 Ffocws yn ôl sector ar gyfer pobl ifanc

Cyfeiriodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr at bryderon efallai na fyddai rhai diwydiannau a oedd yn draddodiadol yn cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc yn adfer yn ddigonol i ddarparu'r lefelau gofynnol o gyfleoedd. Roeddent yn awgrymu y gallai'r deilliannau ar gyfer pobl ifanc gael eu gwella trwy ddatblygu **mwy o ffocws ar 'swyddi gwyrdd' ac addasu i newidiadau mewn sectorau**, megis y newid gan y sector adwerthu i fwy o arlwyon ar-lein a digidol a 'thwristiaeth werdd'. Roedd rhai'n meddwl y gellid manteisio ar y twf canfyddedig mewn pryderon amgylcheddol yn ystod y pandemig, gyda mwy o ffocws ar sectorau cysylltiedig a oedd yn eu tro'n fwy tebygol o gynnig sgiliau crefftus â thâl rhesymol yn ôl y sôn.

> *Yr hyn yr hoffwn i ei weld yw cynnwys mwy a mwy o bobl ifanc o'r grŵp oedran hwnnw yn y cynllun carbon sero net hwnnw oherwydd dyna lle maen nhw arni, ar hyn o bryd, a dyna beth mae arnynt eisiau ei wneud felly dewch i ni eu defnyddio i'r graddau y gallwn. (Penderfynwr)*

[57] Gweler https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab/gwybodaeth-i-rieni/lwfans-cynhaliaeth-addysg.aspx

Hysbyswyd y byddai hyn yn galw am fuddsoddiad mewn cefnogi cronfeydd **ail-sgilio** ac mewn cefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, i ystyried y dyheadau amgen hyn ar gyfer gyrfa. Byddai'n newid nid yn unig o fudd i bobl ifanc sy'n profi heriau o ran cyflogaeth ond byddai hefyd yn helpu llywodraeth leol a'r Llywodraeth genedlaethol i gyrraedd targedau o ran y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys trwy 'gynlluniau creu gwaith', er enghraifft: plannu coed, ymdrechion cadwraeth, datgarboneiddio cartrefi, ac adeiladu oddi ar y safle. Eglurodd penderfynwr arall y byddai angen i arlwyon sgiliau gael eu halinio â chynlluniau Bargeinion Dinesig[58] ar adferiad gwyrdd hefyd.

> *Rwy'n gwybod, yn sicr yn Lloegr, bod Llywodraeth y DU wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr agenda werdd ac mewn cynnig grantiau i gartrefi. . . . Mae Cymru'n ei wneud ar raddfa lai o lawer. Felly mae cyfleoedd mewn perthynas â hynny. Ac mae gyda chi dwristiaeth werdd. Ceir meysydd o fewn hynny y byddwn yn bwrw golwg arnynt i geisio ysgogi'r economi. (Penderfynwr)*

> *Rwy'n meddwl efallai y Llywodraeth yn cynnig rhyw fath o gyrsiau ar gael swydd wahanol. (Gwryw, 18-24, cyflogedig)*

> *Darparu cyrsiau hyfforddi newydd am ddim, a pheidio â gwneud i ni dalu. Ar gyfer swyddi gwahanol, er eich bod mewn maes gwahanol, pe baech yn dymuno dysgu rhywbeth arall, gallent ddarparu hynny. Mwy o amrywiaeth, ddwedwn i, heb unrhyw gost. Neu fod rhai'n costio ychydig yn unig. (Benyw, 18-24, ar ffyrlo)*

Roedd penderfynwyr yn dadlau ar adegau, er bod 'cynlluniau creu gwaith' weithiau wedi profi'n llai effeithiol yn y gorffennol yn ystod cyfnodau o ddiweithdra uchel, lle'r oedd swyddi'n cael eu creu ar gyfer tasgau nad oedd angen eu cwblhau o anghenraid, y gallai fod rôl iddynt yn y dyfodol gydag ymyriad gan y **sector cyhoeddus**. Gallai ganolbwynti ar bobl ifanc a swyddi yr oedd angen eu gwneud hyd yn oed os mai ar sail dros dro oedd hynny, i ddarparu profiad gwerthfawr. Ar ddiwedd y broses, byddai pobl ifanc yn dod allan â sgiliau newydd ac yn cynyddu eu siawns o gyflogadwyedd yn y sector preifat a hwythau i bob pwrpas wedi cael eu 'gorhyfforddi'.

> *Mae gan bob rhan o'r DU sector cyhoeddus sy'n brysur iawn, mae ganddo lawer i'w wneud. Felly ar y cyd gallem gyflogi trwch da o'r bobl hynny i wneud gwaith o godi sbwriel i ddarparu gofal cymdeithasol i helpu gyda phlant mewn ysgolion. . . . Hyd yn oed os yw ar sail fyrdymor, ac mae'n rhoi gobaith teg i bob un ohonynt. (Penderfynwr)*

Fodd bynnag, mynegwyd barn gyferbyniol gan un cyfranogwr nad oedd yn meddwl y byddai rôl i 'greu swyddi'n artiffisial', yn seiliedig ar dystiolaeth flaenorol. Roedd y dylanwadwr hwn o'r farn bod profiad gwaith a rolau yn y sector preifat yn fwy buddiol i bobl ifanc, yn enwedig y rhai â sgiliau a chymwysterau is.

---

[58] Gweler https://busnes.senedd.cymru/documents/s68161/Adroddiad.pdf

Awgrym pellach ymhlith mudiadau'r trydydd sector, penderfynwyr a dylanwadwyr ar thema sectorau oedd cefnogi ac annog mwy o bobl ifanc lle y bo'n briodol i chwilio am swyddi'r tu allan i'w hardal leol y gellid eu gwneud **gartref**. Roedd un o fudiadau'r trydydd sector wedi canfod bod gweithio gartref yn gweddu i bobl ifanc â phroblemau gorbryder a rhai dysgwyr anabl. Hefyd, gallai fod cymorth gwell i **sectorau mewn ardaloedd mwy gwledig** fel amaethyddiaeth ac ynni yn hytrach na ffocws trefol presennol canfyddedig a oedd yn llai defnyddiol i bobl ifanc mewn lleoliadau gwledig. Gellid gwneud mwy i roi i bobl ifanc a oedd wedi dychwelyd i gymunedau gwledig oherwydd y cyfyngiadau symud, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol, reswm i aros yno. Eglurodd un penderfynwr rhanbarthol yr oeddent yn cymryd camau'n barod i ddenu diwydiannau creadigol i'r ardal a oedd yn helpu i greu swyddi newydd. Roedd hefyd yn helpu gyda mater natur dymhorol lletygarwch a llety gan bod y rhai a oedd yn gweithio mewn rhai diwydiannau creadigol fel ffilm yn treulio mwy o amser yn y rhanbarth ar gyfer gwaith.

> *Rwy'n meddwl bod angen bod rhagor o waith y gellir ei wneud gartref. Technoleg yw'r dyfodol. Rwy'n meddwl mai gorau po gyntaf y gallwn neidio ar y drol. Bydd yn agor llawer mwy o gyfleoedd i bobl, yn fy marn i, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gallu teithio awr i'r ddinas. Os gallant weithio gartref ar ôl y cyfyngiadau symud, byddai hynny'n wych)*

Awgrymwyd cynyddu **buddsoddiad** mewn sectorau yr effeithiwyd arnynt ac a oedd yn darparu nifer o swyddi lleol, ac yng nghanol trefi lleol, ymhlith pobl ifanc. I rai byddai'n golygu peidio gorfod teithio mor bell i ddod o hyd i waith, er enghraifft o Gymoedd De Cymru i Gaerdydd.

A hwythau'n meddwl am bethau o safbwynt gwahanol, dywedodd penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau'r trydydd sector ar adegau sut yr oedd busnesau adwerthu a lletygarwch yn aml wedi bod yn **ystwyth ac arloesol** iawn yn eu hymgeisiau i barhau i fasnachu, er enghraifft mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol i archebu bwyd, lansio gwasanaethau danfon, mwy bwyslais ar ddosbarthu ac ati. Roedd y newidiadau hyn wedi bod yn dod i'r amlwg mewn rhai ffyrdd cyn y pandemig ond roeddent wedi cael eu cyflymu unwaith i'r pandemig daro. Roeddent yn meddwl y dylai fod gan y sectorau hyn lawer i'w roi i bobl ifanc o hyd wrth i'r genedl ddod allan o'r cyfyngiadau symud, a bod arnynt angen i'r sgiliau sydd ar gael i bobl ifanc gael eu teilwra i gymryd mantais o'r addasiadau fel mwy o ffocws ar ddosbarthu.

Hefyd, roedd disgwyl y byddai **galw cronedig** am rai rolau wrth i'r wlad ddod allan o fesurau cyfyngu'r coronafeirws. Roedd yn debygol hefyd y byddai llawer o bobl a oedd wedi llwyddo i gynilo arian y bydden wedi'i wario fel arfer a allai roi sbardun i'r economi. Dadleuodd un penderfynydd eu bod yn debygol o wario yn y sectorau yr oedd pobl ifanc yn cael eu cyflogi ynddynt, gan olygu y gallai fod cynnydd cyflym unwaith eto mewn pobl ifanc a fyddai'n cael cyflogaeth. Rhagwelid ar adegau, er ei bod yn iawn archwilio a hybu cyflogaeth trwy brentisiaethau a sectorau llai traddodiadol i bobl ifanc, y byddai trwch y gyflogaeth yn dal i fod yn y sectorau gwasanaethau mwy traddodiadol sy'n cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc. Nododd cyfranogwyr fod oedi hir, hyd yn oed yn awr, ar gyfer slotiau i ddanfon archebion bwyd ar-lein i'r cartref, er enghraifft, a oedd yn awgrymu cyfleoedd cyflogaeth. Hefyd, roedd

disgwyl y byddai busnesau'n parhau i addasu lle gallent i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer swyddi lle gallai cyflogai weithio gartref.

Awgrym arall mewn perthynas â sectorau ymhlith penderfynwyr oedd buddsoddi'n drwm mewn annog pobl ifanc i mewn i'r sector **iechyd a gofal cymdeithasol** oherwydd yr anghenion sylweddol yn y meysydd hyn hyd yn oed cyn i'r pandemig daro. Roedd un penderfynwr yn meddwl y gallai fod yn bosibl manteisio ar yr ewyllys da cryf a ddangoswyd tuag at staff iechyd a gofal cymdeithasol, a oedd wedi parhau i weithio trwy gydol y pandemig, i ddatblygu telerau ac amodau gwell iddynt. Nid oedd y cyfranogwr hwn yn meddwl bod unrhyw newid wedi bod yn strategaethau recriwtio'r GIG ers i'r pandemig ddechrau felly roedd cwestiwn a fyddai gweithwyr iechyd proffesiynol tramor mor awyddus i ddod i weithio yn y DU ag yr oeddent wedi bod yn flaenorol. Eglurodd penderfynwr rhanbarthol sut yr oeddent yn bwriadu buddsoddi mewn datblygu gofal fel gyrfa fwy deniadol.

> *Maent yn cael tâl gwael. Nid oes dyfodol ynddo. Maen nhw'n syml yn gwneud yr hyn y maent yn ei wneud, o ddydd i ddydd. Felly'r hyn yr wyf wedi'i ddweud o ran gofal ac o ran y cynnig hwnnw, . . . yw ein bod yn amcanu at greu gofal fel gyrfa, gyda chyfleoedd gyrfa y gallant gamu ymlaen atynt, gyda chymwysterau hefyd ar hyd y ffordd, llwybra ar gyfer datblygiad. (Penderfynwr)*

### 6.5 Sgiliau a hyfforddiant amgen ac ychwanegol i bobl ifanc

Fel y cyfeiriwyd ato yn 6.4 roedd yn bwysig, yn ôl rhai cyfranogwyr, ystyried ffyrdd y gallai pobl ifanc gael eu cefnogi yn ystod **cyfnodau pontio** i mewn i waith neu i mewn i gyflogaeth mewn sectorau na fyddent wedi'u hystyried yn flaenorol o bosibl. Gallai hyn gynnwys archwilio sut y gellir trefnu'n effeithiol bod **mentora a choetsio** ar gael i bobl ifanc, yn enwedig ar adegau pontio. Byddai gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i helpu i wneud i hyn ddigwydd, ymhlith awdurdodau lleol, y Llywodraeth a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Dywedodd rhai hefyd ei bod yn hanfodol datblygu sgiliau pobl ifanc mewn ffyrdd a oedd yn golygu bod y sgiliau'n **drosglwyddadwy** rhwng sectorau gan nad oedd yn bosibl rhagweld pa sectorau oedd yn mynd i ffynnu neu ddioddef. Byddai sgiliau o'r fath yn cynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd a rhyngbersonol, yn ôl rhagfynegiad un penderfynwr. Roedd hyfforddiant a sgiliau a oedd yn rhoi'r cyfle iddynt weithio **gan gadw mwy o bellter** lle nad oedd yn bosibl gweithio gartref yn cael eu hystyried yn bwysig ar adegau hefyd. Roedd rhai'n ystyried bod y mathau hyn o sgiliau a'r math hwn o gymorth yn arbennig o bwysig pe bai'r pandemig yn parhau tan y flwyddyn nesaf gyda mesurau cyfyngu rheolaidd. Roedd rhoi mwy o bwyslais ar addysgu **entrepreneuriaeth** fel rhan o'r cwricwlwm yn awgrym arall, ynghyd ag eangu ar a dysgu o arwyddion addawol o ymgysylltu â mentrau entrepreneuriaeth.

> *Ymddengys fod y sector yr oeddech yn meddwl y byddai'n tyfu'n ddramatig yn un nad yw wedi tyfu'n ddramatig. Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy. (Dylanwadwr)*

Rhoddwyd enghraifft o dystiolaeth ddiweddar a oedd yn awgrymu bod **sgiliau rhyngbersonol** yn dod yn fwyfwy pwysig i bobl ifanc â sgiliau neu gymwysterau is feddiannu arnynt, i wella'u siawns o ymuno â'r farchnad lafur. Credid mai yn y sector gwasanaethau yr oedd ymgyrchoedd mawr i greu swyddi ar gyfer pobl ifanc wedi digwydd yn ddiweddar, lle'r oedd sgiliau rhyngbersonol a 'gweddusrwydd' yn helpu pobl i sicrhau swydd. Roedd dod o hyd i ffyrdd o gyflwyno a datblygu'r mathau hynny o sgiliau'n bwysig ond roedd disgwyl hefyd y byddai'n her.

### 6.6 Mynd i'r afael â rhwystrau o ran seilwaith



Enghraifft bellach o'r hyn y gellid ei wneud yn y tymor hwy i helpu pobl ifanc i gael gwaith oedd goresgyn rhwystrau o ran **cludiant cyhoeddus**, yn ôl rhai penderfynwyr, dylanwadwyr a mudiadau yn y trydydd sector. Byddai cludiant cyhoeddus integredig, fforddiadwy, o ansawdd da, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn helpu i alluogi pobl ifanc i gael cyflogaeth ac yn darparu cyfleoedd ehangach ar gyfer cyflogaeth. Byddai teithio â chymhorthdal ar gyfer pobl ifanc yn helpu hefyd. Cyn y pandemig a chyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, roedd Cymunedau dros Waith, yn ôl un penderfynwr, wedi cysylltu cyflogwr â chyflogeion newydd a oedd wedi'u lleoli yng Nghymoedd De Cymru ar gyfer gwaith sifft gyda threfniadau teithio wedi'u teilwra. Roedd gwaith dilynol wedi cael ei wneud gydag awdurdodau lleol ar adolygu amserlenni cludiant cyhoeddus yn yr ardal i ddiwallu anghenion economaidd yn well.

> *Mae trafnidiaeth yn allweddol. Nid oes gan lawer o bobl ifanc eu cludiant eu hunain. Maent yn ddibynnol ar wasanaethau cludiant cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae llai o gapasiti o lawer ac mae hefyd yn annibynadwy. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhwystr enfawr i bobl ifanc, felly mae arnynt angen y cyllid rhag blaen i allu talu am docyn bws wythnosol, neu docyn bws misol, cyn cael eu tâl. Mae'n weddol ddrud hefyd. (Trydydd sector)*

Dywedodd penderfynwyr ar adegau fod disgwyl i waith parhaus sy'n cynnwys **Bargeinion Dinesig** ddechrau mynd i'r afael â materion cludiant yn enwedig yn yr ardaloedd hynny mewn rhanbarth nad oeddent fel arfer yn denu rhyw lawer o fuddsoddiad, er enghraifft cymunedau mwy gwledig. Byddai hyn o fudd i bobl ifanc ymhlith eraill yn y tymor hir, a hwythau'n peidio â gorfod teithio mor bell o anghenraid ar gyfer gwaith ac yn gallu aros o fewn eu dewis gymunedau.

> *Ceir rhai materion sylweddol o ran cludiant gwledig sy'n rhoi pobl iau o dan anfantais. Felly mae'n rhaid i bobl iau redeg car ac ysgwyddo cryn dipyn o dreuliau ychwanegol trwy wneud hynny. . . . Dyna'r hyn yr ydym yn canolbwyntio arno gyda'r Fargen Ddinesig. Mae a wnelo â sut yr ydym yn gweithio i sefydlu cyfartalwch a chreu cyfleoedd yn yr ardaloedd hynny nad ydynt wedi cael y buddsoddiad. (Penderfynwr)*

Ar nodyn cysylltiedig, awgrymodd penderfynwr y gallai fod o fudd talu i bobl ifanc gael eu **trwydded yrru** i helpu'r sector logisteg a oedd wedi ehangu yn ystod y pandemig gyda danfon nwyddau i gartrefi. Byddai angen iddynt gael eu cefnogi â chyfarpar diogelu personol digonol a hyfforddiant ar weithio'n ddiogel. Yn ôl y sôn roedd ymyriad tebyg yn y gorffennol wedi helpu oddeutu fil o bobl i gael gwaith.
Roedd nifer fach o benderfynwyr a dylanwadwyr yn disgwyl y byddai **tai fforddiadwy a thai cymdeithasol** yn helpu pobl ifanc â biliau, dyled, ac agosrwydd at leoliad gwaith os oedd angen. Gallai hyn gynnwys arfer rheolaethau ar renti i gefnogi pobl ifanc a oedd, er enghraifft, ar ffyrlo ac ar yr isafswm cyflog. Byddai hefyd yn golygu y gallai pobl ifanc symud allan o gartref eu rhieni.

### 6.7 Mwy o weithio mewn partneriaeth a chydweithio

Dywedodd dylanwadwr y byddai manteision i'w cael o gydweithio cryfach rhwng sefydliadau'r gymdeithas sifil a **rhwng y sefydliadau hyn a'r Llywodraeth** wrth ddatblygu polisi ac ymyriadau. Fel a amlygir yn 5.8, gellid dysgu enghreifftiau o Quebec, Canada a Gogledd Iwerddon lle credid bod gan sefydliadau'r gymdeithas sifil fwy o ddylanwad strategol. Yn ôl y sôn roedd ganddynt rôl lawer mwy integredig gyda gweithrediadau statudol a pholisi – nid dim ond fel cyfryngau cyflawni, ond hefyd fel dylanwadwyr ar strategaeth. Byddai'r dull hwn, ar y cyd â chyllid craidd ar gyfer y sefydliadau hyn, yn helpu i sicrhau cymorth mwy parhaus a dylanwad tymor hwy yng Nghymru a fyddai yn ei dro'n helpu gyda grymuso pobl ifanc, capasiti a meithrin hyder.

> *Rwy'n meddwl bod rôl y gymdeithas sifil wedi bod yn broblemus iawn yn y gorffennol, lle mae sefydliadau'r gymdeithas sifil wedi bod yn gwneud yr un gwaith i sicrhau bod pobl ifanc nid dim ond yn cael gwaith cyflogedig ond yn magu hyder, ac ati, ac yn taro targedau mewn polisïau ond heb fod yn rhan o'r polisi o gwbl. Ac mae hynny'n broblem gyda'r sector statudol hefyd yng Nghymru. Felly mae a wnelo â'r cysylltiadau hynny rhwng llywodraeth ddatganoledig genedlaethol statudol a'r gymdeithas sifil, a sut y gallai hynny weithio'n llawer gwell. Mae'n ymddangos yn ateb gweddol amlwg. (Dylanwadwr)*

Yn yr un modd, yn ôl penderfynwr, byddai angen **cydweithio wedi'i gydgysylltu a'i alinio** rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd i sicrhau bod yr holl waith a wneir i gefnogi pobl ifanc yn gydlynol ac nad oedd yn arwain at ddyblygu, gorgyffwrdd a rhaglenni sy'n cystadlu am bobl ifanc.

Disgrifiodd penderfynwr rhanbarthol sut yr oedd awdurdodau lleol wedi gallu manteisio ar effaith economaidd y coronafeirws trwy feithrin **perthnasoedd cryfach ac ehangach â busnesau**. Roedd ymgysylltiad datblygol, o ansawdd da â rhai cyflogwyr a oedd wedi bod yn cael mynediad at gymorth a chyllid. Y bwriad oedd archwilio'r potensial ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth newydd gyda'r cyflogwyr hyn. Byddai felly'n hanfodol sicrhau bod **busnesau'n llwyr ymwybodol o'r cymorth a'r cyngor** y gallent gael mynediad atynt i'w helpu i oroesi a thyfu a fyddai'n golygu mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

## 6.8 Newidiadau sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a lles

Dywedodd cwpl o benderfynwyr fod gan waith fel ymyriad trwy **bresgripsiynu cymdeithasol** rôl bwysig gydag iechyd meddwl a lles. Fodd bynnag, roedd heriau adnabod rolau addas ac ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol oherwydd y pandemig yn cael eu cydnabod. Gallai trafodaethau cychwynnol i gyflwyno ymyriad presgripsiynu cymdeithasol yn genedlaethol cyn y pandemig gael eu harchwilio unwaith eto, yn ôl penderfynwr. Hefyd, rhybuddiodd penderfynwr arall fod angen newid sylfaenol yn y ffordd y meddylir am **iechyd galwedigaethol yn y gweithle** i sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol.

> *Mae ein gwaith wedi sefyll yn llonydd oherwydd COVID, ond fe gawsom rai sgyrsiau da iawn ynghylch, er enghraifft, sut y gallem weithio'n well gyda meddygfeydd teulu. Cysylltu gwaith i fod â'r un statws â deilliant clinigol. Felly, os ydych yn cynorthwyo rhywun i ailddechrau gweithio, mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod gan bobl mewn gwaith iechyd gwell a strwythur gwell yn eu bywydau, y math yna o beth. (Penderfynwr)*

Roedd rhai o fudiadau'r trydydd sector yn credu y byddai budd i iechyd a lles pobl ifanc pe bai **cyfrifoldeb penodol ar gyflogwyr** i sicrhau eu bod yn cefnogi pobl ifanc a oedd ar ddechrau eu gyrfaoedd neu yn eu swyddi cyntaf. Roeddent yn awgrymu mentoriaid i bob person ifanc yn y gweithle y gallent droi atynt i gael cyngor ac arweiniad. Awgrymwyd hefyd y dylai fod yn ofynnol i gyflogwyr fod â rôl fwy gweithredol yn natblygiad gyrfa pobl ifanc trwy gynnig cyfleoedd yn rheolaidd iddynt uwchsgilio a datblygu.

Hefyd, roedd dylanwadwr yn credu bod angen i wasanaethau gwahanol gysylltu â'i gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi pobl ifanc yr oedd eu heriau o ran cyflogaeth yn effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Gallai hyn olygu bod staff yr Adran Gwaith a Phensiynau'n gwneud **atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth iechyd meddwl** trwy'r Ganolfan Byd Gwaith.

Cynghorodd un dylanwadwr y dylai fod **dull holistaidd** lle'r oedd diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y cwestiwn i gefnogi iechyd a lles, yn hytrach na chanolbwyntio dim ond ar y cwestiwn pa un a oedd yr unigolyn mewn gwaith ai peidio. Roedd angen ystyried ffactorau eraill megis pellter o'r farchnad lafur a datblygu ymyriadau'n seiliedig ar y pellter hwnnw neu am faint o amser y maent wedi bod mewn gwaith neu'n ddi-waith. Credid bod dull Llywodraeth y DU yn canolbwyntio'n fwy ar gynorthwyo pobl i gael gwaith yn unig – dull 'gwaith yn gyntaf' (gweler 5.1). Yn yr un modd, roedd disgwyl i fwy o ffocws ar ddatblygu **cydnerthedd** ymhlith pobl ifanc fel a ddisgrifir yn 6.3 ddwyn manteision i iechyd a lles.

Yn y tymor hwy, roedd dylanwadwr o'r farn bod dechrau'n gynnar o ran penderfynyddion cymdeithasol sy'n debygol o effeithio ar gyfleoedd gwaith yn allweddol. Roedd disgwyl y byddai angen trechu tlodi plant ac y byddai'n rhaid wrth ddull ataliol lle'r oedd cyflogaeth a materion iechyd yn y cwestiwn i wella cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol a oedd dan yr anfantais fwyaf o ganlyniad i'r pandemig.

## 6.9 Cynyddu'r siawns o waith da, teg



Pwysleisiodd rhai dylanwadwyr, penderfynwyr a mudiadau yn y trydydd sector bwysigrwydd sicrhau bod **llais pobl ifanc**, gan gynnwys y rhai nad oedd ganddynt brofiad gwaith eto o bosibl, yn rhan o'r broses o gydgynhyrchu datrysiadau ac ymyriadau. Er enghraifft, roeddent yn meddwl bod diffyg pendant o ran cynrychiolaeth o blith pobl ifanc a nodweddion amrywiaeth eraill ar y byrddau rhanbarthol a sefydlwyd yng Nghymru i fwrw golwg ar yr economi ac anghenion rhanbarthol. Yn y tymor hwy, roedd angen annog a galluogi pobl ifanc i gynrychioli eu hunain yn wleidyddol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd angen i ymwneud pobl ifanc fod yn **ddiledryw** hefyd a chael ei weld fel rhywbeth a oedd yn cael effaith i osgoi ymddieithrio pellach.

> *Ni ddylai gael ei benderfynu ar wahân gan benderfynwyr yn unig. . . . [Mae arnoch angen] y profiad personol hwnnw ohono hefyd. . . . Math syml o gynnwys yn strwythurau byrddau ac mewn timau rheoli a phethau felly oherwydd rydych yn syml yn dod â llais gwahanol wedyn i mewn i ddatrysiadau, mewn gwirionedd, ar gyfer rhai o'r materion yn hytrach na rhyw fath o sefyllfa lle mae pethau'n cael eu 'gwneud iddynt'. (Dylanwadwr)*

Pwynt cysylltiedig a wnaed ymhlith pobl ifanc 18-24 oed oedd y dylai cyflogwyr a phrifysgolion fod â **'golwg fwy holistaidd' ar botensial pobl ifanc**, o ystyried bod y pandemig wedi effeithio cymaint ar eu haddysg a'u hyfforddiant.

Roedd **codi'r isafswm cyflog** weithiau'n cael ei gynnig ymhlith penderfynwyr, dylanwadwyr, mudiadau'r trydydd sector a phobl ifanc 18-24 oed fel newid allweddol a oedd yn ofynnol i roi cyfle gwell i bobl ifanc gael mynediad at waith da, teg. Cafodd gwneud i ffwrdd â chontractau dim oriau a phennu gofynion mewn meysydd fel tâl salwch a thâl gwyliau a chyfrifoldebau gofalu eu hawgrymu'n achlysurol hefyd. Roedd mudiadau yn y trydydd sector yn disgwyl y gallai bod â mwy o waith teg ar gael olygu hefyd bod cyflogwyr a chymdeithas yn fwy cyffredinol yn tyfu i **werthfawrogi'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w gynnig yn fwy**. Roedd disgwyl y byddai heriau o ystyried nad oedd rheoleiddio cyflogaeth yn faes datganoledig; fodd bynnag, yn ôl un cyfranogwr, fe allai fod modd i oresgyn hyn gyda phwerau datganoledig mewn perthynas â phwerau argyfwng COVID-19.

> *Yn sicr mae angen cynyddu'r isafswm cyflog. Pam fyddwn i am fynd i mewn i swydd lle'r wyf yn gwneud mwy o waith na phobl eraill ac yn cael llawer llai o dâl? Mae angen newid sut mae cymdeithas yn meddwl am bobl iau. Pam fyddech chi'n teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi os mai dyna'r cwbl yr ydych yn mynd i'w gael fel tâl? (Trydydd sector)*

> *Fe allem wahardd contractau dim oriau. Dylem wneud gofynion o ran amserlenni gwaith tymor hwy ar gyfer staff. Gallem wneud gofynion ar gyfer telerau ac amodau*

*eraill sy'n ymwneud â thâl salwch, tâl gwyliau, hawlogaeth i bobl â chyfrifoldebau gofalu. (Penderfynwr)*

Yn ogystal â chynyddu'r isafswm cyflog, awgrymodd pobl ifanc yn yr astudiaeth hon hefyd y byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer contractau oriau penodedig yn rhoi mwy o sefydlogrwydd a thawelwch meddwl iddynt – roedd contractau dim oriau'n well na bod yn ddi-waith ond nid oeddent yn ddelfrydol.

*Mae'n syml yn annheg oherwydd nid yw'n sefydlog o gwbl. Gall pobl gymryd mantais dipyn bach, yn enwedig os nad ydych wedi gweithio am ddeuddydd neu dri ac yna ar y funud olaf maen nhw'n gofyn i chi ddod i mewn. Yn enwedig os oes gennych blant neu rywbeth felly. (Benyw, 18-24, di-waith)*

Yn ôl nifer fach o benderfynwyr a dylanwadwyr, dylid rhoi rhai o argymhellion yr Athro Dickens yn yr adroddiad Gwaith Teg Cymru i Lywodraeth Cymru[59] ar waith i gynorthwyo pobl ifanc yn well i gael gwaith teg. Hefyd, roedd disgwyl i gamau i gryfhau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru trwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol[60] fod â rôl bwysig o ran creu amodau gwaith mwy teg.

Dywedodd rhai, dylanwadwyr yn bennaf, y dylai fod yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n cael cyllid neu gynlluniau cymhellion gwaith neu gyflogadwyedd gan Lywodraeth Cymru **fodloni rhai amodau** sy'n ymwneud â gwaith da, teg, megis talu'r cyflog byw gwirioneddol, prentisiaethau sy'n talu'r isafswm cyflog a rhoi mynediad i undebau llafur at staff. Argymhellwyd hefyd y dylid pwysleisio'r manteision masnachol i'r cyflogwr o ganlyniad i gyfranogi. Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod potensial i ofyn am fwy gan gyflogwyr mwy a oedd wedi hawlio cyllid trwy'r Gronfa Cadernid Economaidd[61], er enghraifft gyda chyflogi prentisiaid, cynnig contractau mwy ffafriol a ffafrio sectorau gwyrddach. Hefyd (ac os nad yw'n bodoli'n barod) gallai Llywodraeth Cymru sicrhau, yn ystod ei phrosesau caffael, fod arferion gwaith teg wedi'u cynnwys fel rhan annatod.

*Rydych yn partneru gyda'r mathau cywir o sefydliadau. I ryw raddau, rydym yn gwybod ble mae'r cyflogwyr nad ydynt yn ymlynu wrth waith teg, ac maent mewn lleiafrif, diolch byth. Gallwch ddewis eich partneriaid, ac mae er lles pawb ein bod yn gwneud i hyn weithio. (Dylanwadwr)*

Gellid gwneud mwy hefyd i annog cyflogwyr i ymgysylltu â **Chontract Economaidd**[62] Llywodraeth Cymru, yn ôl penderfynwr, heblaw am y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt wneud am eu bod wedi ceisio cymorth i fusnesau gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, roedd heriau i'w goresgyn o ran monitro busnesau a oedd wedi ymrwymo i'r contract a heriau i rai busnesau bychain i gyflawni yn unol â'r contract.

Roedd penderfynwyr yn credu ar adegau mai dull pellach i roi anogaeth i ddarparu gwaith da, teg, yn enwedig i bobl ifanc, fyddai **canolbwyntio buddsoddiad mewn sectorau** o fewn

[59] Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf
[60] Gweler https://llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-atgyfnerthu-partneriaeth-gymdeithasol-papur-gwyn
[61] Gweler https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau
[62] Gweler https://businesswales.gov.wales/cy/y-contract-economaidd

yr economi a oedd yn debygol o fod yn gryfach yn y dyfodol a chydnabod bod y byd yn newid. Roedd pwyntiau unigol pellach a wnaed am gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at waith da, teg yn cynnwys y canlynol:

- Dylai **undebau llafur** barhau i fod yn rhan o weithio mewn modd cydgysylltiedig gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i negodi ar ddyluniad ymyriadau, a rhoi cymorth a chyngor ar hawliau gweithwyr;
- Yn y tymor hwy, dylid dileu **rhwystrau strwythurol** i gael mynediad at waith da, teg hefyd, er enghraifft trwy gynnig y gallu i weithio'n hyblyg. Byddai mynd i'r afael â bylchau cyflog yn ôl nodweddion gwarchodedig o fudd i bobl ifanc hefyd yn ogystal ag eraill;
- Mynd i'r afael â'r arfer o 'ddiswyddo ac ailgyflogi' ar delerau ac amodau gwaeth ymhlith rhai cyflogwyr; ac atal y posibilrwydd o bolisïau 'dim brechiad, dim swydd', yr oedd disgwyl iddynt ill dau ei gwneud yn anodd i bobl ifanc gael a chadw gwaith teg.

Mewn rhai achosion, roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn teimlo'i bod yn fwy o fater o **wneud yr hyn a oedd yn iawn i'r person ifanc**, ac efallai nad oedd disgwyl gwaith da, teg i bawb, ym mhob sefyllfa, yn bragmatig iawn o leiaf yn y tymor byrrach, yn enwedig o ystyried cyflwr y farchnad lafur a rhai sectorau. Efallai nad swydd lawn-amser neu yrfa fyddai'r cam cyntaf a oedd yn ofynnol i unigolyn a oedd wedi bod yn ddi-waith neu a oedd bellaf o'r farchnad lafur. Dadleuwyd hefyd fod cynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith neu gamu ar risg cyntaf yr ysgol profiad gwaith yn llawer pwysicach na 'beth sy'n deg neu'n weddus ym marn rhywun arall'. Gallai gwaith teg olygu pethau gwahanol i bobl wahanol, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

> *Mae ar lawer o'r bobl y mae [fy nghydweithiwr] yn siarad gyda hwy eisiau swydd, dyna'r oll. Dydyn nhw ddim yn malio am waith teg. Dydyn nhw ddim yn malio am ddiwydiannau gwyrdd y dyfodol! Mae arnynt eisiau incwm, dyna'r cyfan. Felly mae'n rhaid i ni ryw geisio sicrhau bod ein rhaglenni'n cydnabod hynny. (Dylanwadwr)*

> *Mae arnom eisiau i bobl fod mewn cyflogaeth sicr, teg, am dâl, ond rwy'n meddwl bod rhaid i ni fod yn realistig ynglŷn â sut y mae'r farchnad ar hyn o bryd, ac i rai pobl mae a wnelo â chamu ar ris cyntaf yr ysgol – cael y profiad hwnnw, ei gael ar eu cyfrif, yna camu ymlaen. (Penderfynwr)*

Hefyd, yn ôl cwpl o ddylanwadwyr, dylai cam fel cynyddu'r isafswm cyflog ar gyfer pobl ifanc gael ei drin â **phwyll**. Roeddent yn meddwl bod pobl ifanc yn creu llai o werth ychwanegol i gyflogwyr am bod ganddynt lai o brofiad. Roedd un cyfranogwr o'r farn bod mynnu'r un cyflog ac amodau i bobl ifanc â gweithwyr hŷn, mwy profiadol yn 'strategaeth risg uchel iawn'. Hefyd, gallai rheolau a rheoliadau a oedd yn atal pobl ifanc rhag ymgymryd â rhai swyddi rhan-amser neu yn yr economi gìg gyfyngu ar yr hyblygrwydd yr oedd ei angen ar rai pobl ifanc yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd posibl i gael profiad gwerthfawr. Ar ben hynny, yn y tymor byrrach, efallai na fyddai busnesau a oedd yn ei chael yn anodd parhau i weithredu oherwydd y pandemig yn gallu ateb yr holl ofynion o ran gwaith da, teg. Roedd cymorth i fusnesau felly'n allweddol bwysig hefyd.

### 6.10 Beth os ydym yn wynebu senario llai cadarnhaol yn y dyfodol?

Mewn senario llai cadarnhaol yn y dyfodol lle byddai mesurau cyfyngu'n dal i fod yn angenrheidiol ac effaith brechiadau'n gyfyngedig, roedd awgrymiadau cyfranogwyr yn seiliedig i raddau helaeth ar y themâu a ddisgrifir uchod, gyda phwyslais mwy byth ar y bobl ifanc a oedd fwyaf dan anfantais, gwarantau swyddi neu brentisiaethau a chymhellion cyflogwyr, datblygiad sgiliau priodol, cynlluniau 'creu gwaith', a hwyluso cysylltedd digidol.

Roedd **gwarant swydd**, yn enwedig i bobl ifanc mwy difreintiedig, yn cael ei bwysleisio gan rai yn y cyd-destun hwn. Byddai gwaith **y telir cymhorthdal ar ei gyfer** yn bwysicach byth yn ôl y sôn, a byddai'n fwy buddiol na dim ond sicrhau incwm sylfaenol (trwy fudd-daliadau). Byddai'n cael yr effaith gadarnhaol bosibl ychwanegol ar iechyd a lles trwy hunan-fri gwell, hyder gwell ac ymddygiadau rhag-gymdeithasol mewn amodau anffafriol. Byddai disgwyl i Gynllun Restart[63] yr Adran Gwaith a Phensiynau fod â rôl allweddol, yn ôl penderfynwr, fel y byddai pobl ifanc ddi-waith yn llifo i mewn iddo erbyn 2022. Fodd bynnag, byddai angen arfer gofal i ddiogelu rhag yr effaith ddadleoli o ran cyflogwyr yn rhyddhau staff hŷn i gyflogi cyflogeion iau trwy gynllun cymhellion. Gallai cymhellion ymwneud â chyflogau y telir cymhorthdal tuag atynt, neu seibiant ardrethi busnes neu seibiant treth.

Awgrymwyd ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr y dylid rhoi mwy o bwyslais ar fuddsoddi mewn **sgiliau a datblygiad llwybrau lefel is**, a **sgiliau trosglwyddadwy a rhyngbersonol**. Byddai'r camau hyn yn ehangu'r cyfleoedd i unigolyn a gellid eu trefnu i gyfateb i farchnad lafur a oedd wedi newid, gyda mwy o ffocws ar **sectorau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd** y mae angen iddynt gynnig gwaith da. Hefyd, gellid manteisio ar y materion gyda chyswllt wyneb-yn-wyneb a theithio mewn senario negyddol yn y dyfodol trwy gynorthwyo mwy o bobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer **gweithio gartref**, gan gynnwys bod â'r **dechnoleg** y mae ei hangen i wneud hynny. Wedyn byddai sgiliau **cydnerthedd** yn dod yn fwy hanfodol byth gyda llai o fentora a choetsio o bosibl mewn rolau swyddi lle'r oedd gweithio gartref yn gyffredin.

> *Fe allwn i weithio gartref, ond maen nhw'n syml yn gwrthod gadael i mi wneud, am ba bynnag reswm. . . . Ond rwy'n meddwl y dylent ganiatáu i ni weithio gartref, fel bod ein swydd wedi'i gwarantu, a rhoi pethau gwell yn eu lle achos os yw hyn yn mynd i barhau mae angen iddo newid onid oes? (Benyw, 18-24, ar ffyrlo)*

Roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr yn rhagweld y byddai **cydweithio** effeithiol rhwng gwahanol sefydliadau megis Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau'n hanfodol. Gellid estyn Kickstart neu efallai ddatblygu fersiwn o'r cynllun gan Lywodraeth Cymru a ariennir ar y cyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan roi cymhellion pellach i gyflogwyr gyflogi pobl ifanc. Byddai angen **perthnasoedd mwy parhaus** hefyd rhwng pobl ifanc a'r rhai sy'n eu cynorthwyo i gael gwaith.

Tri awgrym achlysurol pellach ymhlith penderfynwyr a dylanwadwyr oedd: bod y sector cyhoeddus yn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc yn ei sefydliadau ei hun; cymorth ariannol i bobl ifanc **barhau mewn addysg**; a **thystysgrifau**


[63] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/restart-scheme

**imiwnedd** y gellid eu rhoi i bobl ifanc i roi iddynt y symudedd i weithio a chan adlewyrchu'r ffaith bod y feirws yn llai tebygol o effeithio ar bobl ifanc. Byddai hyn yn lleihau'r angen am gyfyngiadau ar draws y boblogaeth gyfan. I ategu'r dull hwn, gellid buddsoddi mwy o arian i ddatblygu capasiti'r GIG a rolau y gallai pobl ifanc eu llenwi.

Ar gyfer ymyriadau o'r fath, roedd un penderfynydd yn dychmygu y byddai angen i'r Llywodraeth fod yn **frocer a chrëwr gwaith llawer mwy gweithredol**. Disgrifiwyd y swyddogaeth froceru fel un a oedd yn cael ei chyflawni ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl o oedran ysgol trwy Gyrfa Cymru, gan Lywodraeth y DU trwy'r Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer pobl hŷn, a chan sefydliadau preifat ar gyfer y rhai a oedd mewn galwedigaethau arbenigol. Tybid y byddai'n bosibl, pe gwelid newid technolegol a newid i ddulliau cyflawni oherwydd cyfuniad o awtomeiddio a'r pandemig, a phe bai angen newidiadau sylweddol yr oedd y sector preifat yn gyndyn o fuddsoddi ynddynt yn ôl pob golwg, y gallai fod rôl i ymyrraeth gan y Llywodraeth. Gallai hyn gynnwys ysgwyddo peth o'r risg, treialu ffyrdd newydd o wneud pethau neu gynorthwyo busnesau i wneud hynny.

### 6.11 Cefnogi'r rhai â phlant dibynnol

Roedd rhai pobl ifanc gan gynnwys rhieni'n meddwl y byddai **darpariaeth gofal plant well, gost-isel neu am ddim** yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyfleoedd gwaith. Un awgrym oedd estyn darpariaeth ysgolion meithrin i ddiwrnodau ysgol llawn (hyd yn oed os mai dim ond am ran o'r wythnos fyddai hynny), i hwyluso trefniant lle mae'r ddau bartner yn gweithio. Awgrym arall yn fwy eang oedd creu mentrau gofal plant mewn cymunedau.



> *Pe bai'r feithrinfa'n gallu cynnig dau ddiwrnod llawn yr wythnos a thri hanner diwrnod yr wythnos. Mae hynny'n golygu ein bod ni ein dau'n gallu gweithio dau ddiwrnod llawn yr wythnos yr un a gwneud y gwaith rhyngom wedyn. (Benyw, 18-24, plentyn dibynnol)*

Roedd penderfynwyr a dylanwadwyr yn llai tebygol o wirfoddoli newidiadau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chefnogi pobl ifanc â phlant dibynnol. Roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr yn dyfalu y byddai unrhyw newidiadau'n debygol o fod yn fater o reoleiddio a / neu gymhorthdal a'r gallu i gynnig gofal plant fforddiadwy. Yr her fyddai i ba raddau yr oedd y pwerau a'r arian ar gael i wneud hynny. Un awgrym oedd y dylid archwilio sut i gynorthwyo rhieni ifanc i ad-dalu eu dyled gynyddol o ganlyniad i ddiweithdra a'r pandemig. Syniad arall oedd hybu a hwyluso cyfleoedd rhannu swydd i'r rhai â phlant dibynnol. Yn ôl penderfynwr, roedd camau'n cael eu cymryd i archwilio ymarferoldeb estyn argaeledd gofal plant i rieni mewn hyfforddiant ac addysg.


Roedd mudiadau'r trydydd sector yn teimlo o bryd i'w gilydd y dylai cyflogwyr fod yn fwy parod i ddeall ac yn fwy ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu rhieni, yn enwedig gydag effaith y pandemig, ac y dylent felly gynnig mwy o hyblygrwydd.

### 6.12 Y system yng Nghymru

Newid posibl a godwyd gan ddylanwadwr oedd ystyried mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc fel pe bai'n **broblem strwythuredig**, er enghraifft gan ei gysylltu â materion eraill megis tlodi, daearyddiaeth, addysg, economeg ac iechyd meddwl, yn hytrach na thrin diweithdra fel bai a chyfrifoldeb yr unigolyn. Roedd ceisio gwaith, er enghraifft, yn cael pwyslais mawr yn niwygiadau lles Llywodraeth y DU. Roedd yn credu bod tystiolaeth a oedd yn dangos bod dull strwythurol yn fuddiol ond roedd yn meddwl bod angen mwy o dystiolaeth empirig ar y pwnc.

Awgrym pellach ar lefel macro gan ddylanwadwr arall oedd creu '**system budd-daliadau gydlynol yng Nghymru'**. Nodwyd fod symiau sylweddol yn cael eu gwario'n flynyddol ar hyn o bryd ar fudd-daliadau yng Nghymru a'r rheiny i gyd yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Dadleuwyd, pe bai'n gweithredu fel un system, y byddai lleihad mewn biwrocratiaeth a gweinyddu ac y gallai cymorth ariannol gael ei reoli'n fwy effeithiol, bod yn fwy hael, yn haws cael mynediad ato ac yn fwy effeithiol o ran trechu tlodi

> *Mae'n swm anferth o arian yn berthynol i'w cyllideb a does dim math o adolygiad o ran a ydynt wir yn gwneud y pethau y maent i fod i'w gwneud oherwydd eu bod i gyd yn fysedd mewn gwahanol botiau o arian mewn gwahanol leoedd. (Dylanwadwr)*



# 7. Cwestiynau ymchwil a bylchau o ran gwybodaeth

7.1 Adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n barod

7.2 Iechyd meddwl a lles

7.3 Adnabod anghenion o ran gwybodaeth ac iddi ffocws pendant i weithredu arnynt

7.4 Deall sut y byddai'r farchnad lafur yn edrych i bobl ifanc

7.5 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc

7.6 Data ar lefel Cymru o'i gymharu â lefel y DU

7.7 Yr hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau

7.8 Deall dull polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc

7.9 Chwilio dramor am ddatrysiadau posibl

## 7. Cwestiynau ymchwil a bylchau o ran gwybodaeth

Mae'r bennod olaf hon yn canolbwyntio ar adborth gan benderfynwyr a dylanwadwyr. Gofynnwyd iddynt ystyried pa gwestiynau ymchwil yr hoffent iddynt gael eu harchwilio i oleuo'u gwaith, ac amlygu unrhyw fylchau eraill o ran gwybodaeth yr oeddent hwy'n credu eu bod yn bodoli i gael dealltwriaeth well am yr hyn y gellid ei wneud i gefnogi cyfleoedd gwaith pobl ifanc yn gysylltiedig ag effaith y pandemig.

### 7.1 Adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio

O bryd i'w gilydd, dywedodd penderfynwyr a dylanwadwyr fod digon o **dystiolaeth a gwersi presennol** o ddirwasgiadau diweddar, ymyriadau polisi a data sy'n dod i'r amlwg y gellid eu defnyddio i helpu i oleuo polisi yn y maes hwn. Yn ychwanegol at y gwersi hyn, roedd darparu data'n rheolaidd, briffiadau a dadansoddiadau lefel uwch a gwaith parhaus yn golygu i rai, bod y sefyllfa i'w gweld yn weddol glir. Rhoddwyd enghraifft o weithio gyda'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth[64] ar yr effeithiau yn y maes hwn a lle y dylid cyfeirio rhaglenni. Roedd yn hysbys yn fras beth oedd yn digwydd yn y farchnad lafur ac roedd yn bwysicach gweithio ar ddarparu tystiolaeth ar effeithiolrwydd polisïau ac ymyriadau a gweld sut y gellid eu gwella i fod yn fwy effeithiol byth. Fodd bynnag, roedd cymhlethdodau ychwanegol y coronafeirws yn cael eu cydnabod hefyd, er enghraifft y dimensiwn meddygol a'r effaith ar iechyd a lles o'i gymharu â dirwasgiadau blaenorol.

> *Yn aml ceir mwstwr pan fo pobl yn ymwneud â hyn gyntaf ac maent yn dweud bod rhaid i ni gael niferoedd cyfredol, dywedwch wrthym yn fanwl beth sy'n digwydd i ba bobl. Dydw i ddim yn meddwl bod angen hynny arnom. Yr hyn sy'n bwysicach o lawer yw bod arnom angen tystiolaeth ar yr hyn sy'n effeithiol. . . . Mae hwn yn faes y mae peth wmbredd o waith wedi cael ei wneud ynddo, felly dydw i ddim yn meddwl y dylent fod yn ceisio dod o hyd i rywbeth nad oes unrhyw un arall wedi meddwl amdano. (Dylanwadwr)*

### 7.2 Iechyd meddwl a lles

Roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr yn meddwl bod angen gwneud mwy i ddeall yn well beth yw effaith newidiadau o ran cyflogaeth ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc, gan gynnwys yr **effeithiau creithio hirdymor**. Mewn un enghraifft, roedd ar benderfynwr eisiau deall yn well sut yr oedd yn rhyngweithio ag adegau pontio penodol megis o'r ysgol i gyflogaeth. Roedd gan un arall ddiddordeb mewn gwybod pa mor gydnerth oedd pobl ifanc yn debygol o fod yn wyneb yr heriau hyn a beth ellid ei wneud i gynorthwyo'r rhai a oedd yn llai tebygol o fod â rhwydweithiau cymorth i fod yn fwy cydnerth a gallu archwilio cyfleoedd newydd.

> *Mae gennym dystiolaeth dda ar yr effeithiau ar iechyd meddwl a lles i bobl ifanc yn y categori oedran 5-16, dyweder. Yr hyn yr wyf yn llai hyderus yn ei gylch yw sut y mae'r materion iechyd meddwl a lles yn rhyngweithio â'r broses bontio o'r ysgol i*

[64] Gweler https://www.employment-studies.co.uk/

*gyflogaeth, addysg bellach, neu addysg uwch. Rwy'n meddwl mai dyna y byddai gen i ddiddordeb arbennig mewn cael gwybodaeth yn ei gylch. (Penderfynwr)*

*Rwy'n meddwl bod a wnelo â deall beth allwn ni ei wneud o safbwynt polisi i feithrin y cydnerthedd hwnnw. Ac mae hynny, yn fy nhyb i, yn rhywbeth nad ydym yn canolbwyntio rhyw lawer arno (Penderfynwr)*

Fe wnaed cais gan un penderfynwr cenedlaethol am wybodaeth am unrhyw **ganlyniadau cadarnhaol a oedd wedi deillio o'r pandemig** ar gyfer cyflogaeth a beth allai hyn ei olygu i bobl ifanc a allai oleuo polisi. Er enghraifft, yn ôl y sôn roedd llawer o bobl a oedd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo wedi penderfynu sefydlu eu busnes eu hunain a oedd wedi rhoi'r hyder iddynt fynd i'r afael ag agweddau eraill ar eu bywyd a'u lles. Byddai gallu gweld budd datblygu cydnerthedd, yn ogystal ag effaith diffyg cydnerthedd, yn golygu y byddai'r penderfynwr yn fwy tebygol o fuddsoddi ynddo.

*Rwy'n meddwl y byddem yn gwybod wedyn ble i fuddsoddi arian [gyda'r wybodaeth honno]. . . . Mewn gwirionedd, efallai fod angen i ni fuddsoddi mewn sgiliau ymdopi ar gyfer pobl ifanc hefyd, a'r math o sgiliau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â hynny. Felly ceir cydnabyddiaeth bod angen buddsoddi cryn dipyn o arian mewn sgiliau cymdeithasol, mewn sgiliau cydnerthedd, mewn sgiliau lles meddyliol. Oherwydd heb hynny fel sylfaen allwch chi ddim sefydlu'r holl gyrsiau hyfforddi a swyddi ond, wyddoch chi, rydych yn eu sefydlu i fethu wedyn. (Penderfynwr)*

Rhagwelid y byddai angen **astudiaethau meta** oherwydd cyflymder y newid gyda'r pandemig. Nid oedd amser i aros i ymchwil wreiddiol gael ei gwneud, yn ôl un penderfynwr. Y budd a fyddai'n deillio o astudiaethau meta ar iechyd meddwl a lles i'r cyfranogwr yma fyddai helpu i ddwyn eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch polisi o ystyried y gallai gwahanol farn a blaenoriaethau gael eu darparu gan wahanol ddylanwadwyr mewn perthynas ag ystod o safbwyntiau. Byddai gan bob un fan cychwyn gwahanol ar gyfer eu safbwynt gan ddibynnu ar eu rôl. Roedd y data a oedd ar gael ar hyn o bryd yn darparu darluniau gwahanol, o bosibl trwy dueddiadau gwahanol o ran y dull o gasglu data.

Roedd awgrym hefyd fod diffyg dyfnder dealltwriaeth am y pwnc yma ar gyfer pobl ifanc. Roedd ofn peidio â bod yn llwyr ymwybodol o faint y risg i bobl ifanc ar gyfer y penderfynwr hwn – efallai na fyddai'n rhaid i heriau o ran lles fod yn ddifrifol yn glinigol i fod yn sylweddol. Roedd y penderfynwr hwn hefyd yn teimlo bod llawer i'w elwa o gasglu **mewnwelediad o fath ethnograffig gan ymarferwyr** i effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn hytrach na dibynnu ar fodelu a data megis derbyniadau i ysbytai a chapasiti i ddatblygu ymyriadau. Roedd pobl a oedd yn gweithio 'ar lawr gwlad' yn fwy tebygol o weld yr effaith ar waith a dylid eu grymuso i ddarparu'r mewnwelediad hwn. Cafodd yr alwad am fwy o ddealltwriaeth fanwl o'i gymharu â'r data meintiol, lefel uchel sydd ar gael ar gyfer Cymru ar hyn o bryd ei hadleisio gan gwpl o gyfranogwyr eraill.

*Mae gennyf fwy o ffydd yn hynny [profiadau ymarferwyr] nag sydd gennyf yn y broses o fodelu'r defnydd o gapasiti, oherwydd wedyn mae llwyth o bethau'n dod i mewn hyd yn oed i'r broses o fodelu'r defnydd. Mae pobl yn nodi ffigyrau rhy isel ar*

*gyfer capasiti ac yn nodi ffigyrau rhy uchel ar gyfer y galw am eu bod am gynnwys hyblygrwydd yn y system. (Penderfynwr)*

Rhoddwyd enghraifft bellach gan benderfynwr o fod angen deall yn well beth oedd effaith **gweithio gartref**, yn enwedig ar bobl ifanc. Y meysydd a oedd o ddiddordeb oedd effeithiau ariannol, datblygiad personol ac iechyd meddwl a lles yn enwedig i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd. Amlygodd dylanwadwyr bynciau ychwanegol o ddiddordeb mewn perthynas â'r bwlch yma o ran gwybodaeth ar adegau hefyd. Roeddent yn dyfalu y gallai pobl ifanc fod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn llety a rennir neu â lle cyfyngedig a heb i unrhyw asesiad risg gael ei gynnal. Gallai pobl ifanc fod wedi profi mwy o effeithiau hefyd o ganlyniad i ddiffyg rhyngweithio cymdeithasol â chydweithwyr, bod ar eu colled am nad oeddent yn gallu meithrin rhwydweithiau cefnogol yn y gweithle; a dioddef effeithiau'r cynnydd mewn monitro digidol gan gyflogwyr.

*Faint o weithwyr yng Nghymru sy'n gallu parhau gweithio gartref o safbwynt ariannol ar hyn o bryd? Oherwydd ni fu dadansoddiad o hynny ychwaith. . . . Dyna'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth asesiadau risg – ni roddwyd unrhyw ystyriaeth go iawn i'r ffaith, os nad oes gennych yn ffisegol ddigon o le yn eich cartref, sut mae hynny'n gweithio? (Dylanwadwr)*

Un maes cysylltiedig y gellid ei ddeall yn well oedd archwilio **rôl sefydliadau'r gymdeithas sifil** a sut yr oeddent yn gweithio gyda'r Llywodraeth i fynd i'r afael â diweithdra ac iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc, yn ôl un dylanwadwr. Gellid dysgu gwersi o fannau fel Quebec, Canada lle'r oedd y Llywodraeth yn darparu cyllid craidd i'r gymdeithas sifil fynd ar drywydd ei hamcanion. Yn ôl y sôn roedd wedi arwain at fwy o undod o lawer o ran y gymdeithas sifil. Roedd yn annog sefydliadau i gydweithio yn hytrach na chystadlu â'i gilydd am gyllid prin ar gyfer prosiectau, yr ystyrid ei fod yn digwydd yng Nghymru.

### 7.3 Adnabod anghenion o ran gwybodaeth ac iddi ffocws pendant i weithredu arnynt



Eglurodd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr y byddai'n werthfawr defnyddio **dull croestoriadol** lle mae'r heriau i bobl ifanc yng Nghymru yn y cwestiwn: pa nodweddion unigol gan gynnwys nodweddion gwarchodedig oedd fwyaf tebygol o olygu bod pobl ifanc yn wynebu risg (e.e. anghenion addysgol arbennig), pa nodweddion lle (e.e. cymunedau amddifadus) a ble oedd anghydraddoldeb wedi cynyddu'n fwyaf sylweddol. Y ddelfryd i un dylanwadwr fyddai bod â set ddata a fyddai'n cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig yn ôl pa bynnag thema yr oedd rhywun yn ymchwilio iddi. Roedd disgwyl i hynny fod yn amhrisiadwy i unrhyw un a oedd yn gweithio ar newid polisi a chynllunio ar gyfer yr hyn yr oedd arnynt eisiau ei gyflawni yn y dyfodol.

*Byddem yn edrych yn arbennig ar natur groestoriadol y ffactorau risg hynny ar gyfer y mathau hynny o bobl ifanc. . . . Yna byddwn yn cynnal rhyw fath o astudiaeth ethnograffig ar gyfer y grwpiau hynny o unigolion yn y lleoedd hynny. (Penderfynwr)*

*Bydd wastad bwlch mewn data. Yn arbennig, data defnyddiadwy sydd ar lefel Cymru ond sy'n ystyried gwahanol nodweddion gwarchodedig. Felly bydd gennych yn nodweddiadol ddata ynghylch ethnigrwydd, ynghylch rhywedd, ynghylch oedran, ynghylch anabledd. Ond nid oes dim ohono'n cydberthyn. Felly dyna fy nghasbeth allweddol. (Dylanwadwr)*

I wneud penderfyniadau gwybodus, byddai'n bwysig deall beth oedd y sefyllfa **cyn y pandemig** i boblogaethau difreintiedig o'i gymharu â'r sefyllfa flwyddyn yn ddiweddarach, fel bod effaith y coronafeirws yn gallu cael ei deall yn llawn. Byddai'r wybodaeth hon yn helpu i hwyluso cymorth ac ymyriadau â ffocws mwy pendant i bobl ifanc a'u dibynyddion, yn ôl dylanwadwr.

Lleisiwyd pryder hefyd gan ddylanwadwr ynghylch effaith **tarfu ar addysg i bobl ifanc 15-17 oed** sy'n byw mewn aelwydydd incwm is a sut oedd eu rhagolygon yn edrych o ystyried y niwed a all fod wedi cael ei wneud i'w sgiliau a'u cyfleoedd gwaith. Yn yr un modd, o safbwynt cyflogwyr a phobl ifanc, roedd penderfynwr yn awyddus i ddeall beth fu effaith **tarfu ar brentisiaethau** a chyflogaeth ddilynol bosibl, fel y gallai'r awdurdod lleol archwilio sut y gallai helpu.

Hefyd, roedd **tlodi cudd** yn un maes lle byddai mwy o ddealltwriaeth o fudd i ddylanwadwyr a phenderfynwyr, ar adegau. Enghraifft ddiddorol oedd edrych ar bobl ifanc ar gontractau dim oriau a oedd yn perthyn i'r dosbarth hunangyflogedig. Maes arall oedd cael dealltwriaeth well am y gyfran o bobl ifanc 18-24 oed a oedd ar ffyrlo ond nad oeddent yn cael tâl mwyach oherwydd natur eu contract achlysurol. Hefyd, roedd yn debygol y byddai angen gwaith i ddeall yn well sut i gynorthwyo rhieni â **dyled uwch** yr oeddent yn ei chael yn anodd ei had-dalu, yn ôl dylanwadwr arall.

*Rydym yn teimlo bod cryn dipyn o bobl ifanc 18-24 oed sy'n gudd, . . . efallai eu bod ar ffyrlo ond nad ydynt yn cael unrhyw gyflog ar ffyrlo oherwydd eu sefyllfa gytundebol. Ac nid ydynt ar Gredyd Cynhwysol, ac maent mwy na thebyg yn byw gartref gyda mam a dad, neu maent yn cysgu ar soffa yn nhŷ ffrind. Eto, allwn ni ddim rhoi ein bys ar hynny. (Penderfynwr)*

I gwpl o benderfynwyr, maes allweddol yr oedd arnynt angen ei ddeall yn well oedd **sut i gyrraedd y bobl ifanc a oedd fwyaf difreintiedig** ac wedi ymddieithrio fwyaf yr oedd cymorth eisoes ar gael iddynt. Cyn y pandemig, roedd swyddogion ymgysylltu'n gallu ymweld ag ardaloedd tebygol a dod o hyd i'r bobl ifanc hyn ond nid oedd hynny wedi bod yn bosibl am bron i flwyddyn. Roedd y bwlch o ran gwybodaeth yn ymwneud â diffyg gwybodaeth bendant am faint o bobl ifanc oedd yn cael eu colli a beth ellid ei wneud i'w cyrraedd. Byddai gwybod mwy am y garfan hon yn helpu gyda chynllunio gwasanaethau a chapasiti hefyd, er enghraifft mewn perthynas ag iechyd meddwl.

### 7.4 Deall sut y byddai'r farchnad lafur yn edrych i bobl ifanc

I rai dylanwadwyr ac, yn achlysurol, penderfynwyr roedd yn bwysig deall sut y byddai'r farchnad lafur yn edrych i bobl ifanc yn y dyfodol a'r effaith y gallai unrhyw newidiadau ei chael ar eu cyfleoedd bywyd. Roedd cyfeiriadau at fod eisiau gwybod a fyddai angen hybu mwy o entrepreneuriaeth; ac a oedd dewisiadau eraill yn yr arfaeth o ystyried y cynnydd mewn awtomeiddio ac arlwyon ar-lein mewn sectorau a oedd yn draddodiadol yn cyflogi niferoedd mawr o bobl ifanc. Roedd un dylanwadwr yn meddwl bod angen meddwl a chynllunio mewn mwy o fanylder i gefnogi pobl ifanc a fyddai'n ymuno â'r farchnad lafur yn y dyfodol agos.

> *Ar ôl y pandemig sut mae hynny'n edrych heblaw am ddweud wrthyf eich bod yn mynd i greu economi gylchol, rydym yn mynd i fod yn cynorthwyo busnesau yng Nghymru i sefydlu eu pencadlysoedd yng Nghymru, a rhywsut mai dyna fydd yr ateb i bopeth. Nid yw hynny'n mynd i newid contractau gwael. Nid yw hynny'n mynd i newid bywydau pobl a lleihau effaith greithio'r dirwasgiad hwn. (Dylanwadwr)*

Roedd rhai dylanwadwyr ac, yn achlysurol, penderfynwyr yn credu bod angen syniad mwy eglur o sectorau lle disgwylir **twf** a lle **byddai Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ei hymdrechion** ymhell rhag blaen er mwyn gallu rhoi'r rhaglenni **hyfforddi** a datblygu **sgiliau** angenrheidiol ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Roedd cwpl o ddylanwadwyr yn disgwyl y byddai adeiladu tystiolaeth ar werth y sector addysg bellach i gyfleu'r achos dros fwy o fuddsoddiad o'i gymharu ag addysg uwch, a hynny'n gyson â'r anghenion a ragwelir mewn sectorau, yn allweddol. Ystyrid ei bod yn bwysig deall yn well sut yn union y byddai pobl ifanc yn cael eu cefnogi i mewn i sectorau lle gellid buddsoddi mewn seilwaith i greu cyfleoedd gwaith. A oedd a wnelo â buddsoddi mewn sectorau gwyrdd ynteu'n fwy â gwyrddu'r economi ar draws pob sector, lle gallai fod cyfleoedd i bobl ifanc?

Yn ôl un dylanwadwr, fodd bynnag, byddai'n rhaid wrth bwyll wrth dargedu sectorau datblygol penodol megis swyddi sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac ôl-ffitio ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Er bod cyfleoedd ar gael, y gred oedd nad oeddent ar raddfa fawr iawn yn berthynol i nifer y bobl a oedd yn barod i weithio. Roedd hefyd yn cael ei ystyried yn **risg ceisio arfer rheolaeth dros yr economi** fesul sector. Yn ôl y sôn, roedd sectorau sefydlog presennol a hyd yn oed sectorau mawr, a allai fod yn dirywio yn cynnig mwy o gyfle i greu swyddi nag ynni gwyrdd, er enghraifft. Hefyd, roedd sectorau o'r fath yn cael eu hamlygu o bryd i'w gilydd fel rhai a oedd yn weddol 'ystwyth' yn yr ystyr y gallent ail-agor yn gyflym iawn, yn wahanol i fathau eraill o fusnes. Roedd bwlch o ran gwybodaeth yn dal i fodoli, felly, o ran **sut y byddai'r sectorau mwy traddodiadol i bobl ifanc yn dod ymlaen** wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio.

> *Ceir perygl go iawn o ryfyg ynghylch tybio bod gennym ysgogiadau economaidd nad oes gennym mewn gwirionedd. Rwy'n meddwl bod yr hinsawdd yn fater pwysig iawn ac mi fyddwn ni'n datgarboneiddio, ond mae'r syniad bod llawer o swyddi yn y sectorau hyn yn gyfeiliornus. (Dylanwadwr)*

Roedd ar rai eisiau gwybod pa mor helaeth yr oedd y **galw cronedig mewn rhai sectorau o fewn y farchnad lafur** (e.e. lletygarwch, twristiaeth a hamdden) yn debygol o fod; a pha mor

gyfnewidiol allai'r sectorau hynny ddal i fod i bobl ifanc. Roedd ffyrlo i bob pwrpas wedi arafu llif gweithwyr i mewn ac allan o'r sectorau hyn a oedd hefyd yn effeithio ar ragolygon pobl ifanc. Gallai deall y ddeinameg hon a'r potensial ar gyfer galw cronedig ddarparu tystiolaeth wedyn i ddatblygu ymyriadau pellach.

> *Rwy'n meddwl bod lle i ni wneud ychydig mwy o, 'Felly, beth sy'n mynd i ddigwydd pan fydd rhai o'r sectorau hynny'n ail-agor?'. Faint o'r swyddi hynny sy'n dychwelyd, os nad yw'r swyddi hynny'n dychwelyd, beth sy'n digwydd i'r bobl ifanc hynny, i ble maen nhw'n mynd? Beth maen nhw'n ei wneud? Rwy'n meddwl bod darn mawr o waith i'w wneud ynglŷn â hynny. . . . Y goblygiadau wedyn gan gysylltu tlodi ac iechyd. (Dylanwadwr)*

Ar lefel ranbarthol, roedd penderfynwr yn ei chael yn anodd gwybod **sut i ddenu cyflogwyr annhraddodiadol i'r rhanbarth** a byddai'n croesawu cymorth yn y maes hwn. Rhoddwyd yr enghraifft o'r ystod o bobl ifanc grefftus a oedd wedi ymgeisio am rôl greadigol yn y sefydliad, gan ddynodi nad oedd y sector creadigol yn cael ei gynrychioli'n dda yn y rhanbarth. Y gred oedd mai pobl ifanc oedd y rhain a oedd wedi dychwelyd i'r rhanbarth oherwydd y pandemig ac a oedd wedi parhau i chwilio am waith. Roedd ar y penderfynwr eisiau deall yn well sut i ddefnyddio'r gronfa newydd hon o dalent a hwyluso cyfleoedd fel y gallai'r bobl ifanc hyn gyfrannu i'r economi ranbarthol.

Dau angen ychwanegol a amlygwyd yn achlysurol ymhlith dylanwadwyr oedd deall yn well i ba raddau:

- Y byddai pobl hŷn â phrofiad o gyflogaeth bellach yn cystadlu â phobl ifanc am swyddi lefel mynediad, ac effaith debygol hynny ar gyfleoedd pobl ifanc;
- Yr oedd y seilwaith cywir yn ei le i gefnogi pobl ifanc mewn cyflogaeth, fel cludiant cyhoeddus fforddiadwy, o ansawdd da a thai fforddiadwy.

### 7.5 Effaith heriau o ran cyflogaeth ar blant dibynnol pobl ifanc

Roedd disgwyl i'r pwnc yma fod yn fater o bwys ond un yr oedd angen ei ddeall yn well er mwyn i ymyriadau gael eu datblygu i gefnogi pobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn. Roedd rhai pobl ifanc (yn ogystal ag oedolion o bob oed) a oedd **mewn cyflogaeth ansicr yn methu â fforddio peidio â gweithio** ac roedd rhai penderfynwyr a dylanwadwyr yn meddwl eu bod felly'n gwneud dewisiadau a allai ddod â'u haelwyd i gysylltiad â COVID-19. Roedd hwn yn faes y gellid ei archwilio ymhellach. Roedd un penderfynwr yn awyddus i weld gwaith ansoddol gydag ymchwil feintiol wedi hynny i helpu i oleuo polisi yn y maes hwn. Byddai pobl ifanc hefyd a ddaeth yn rhieni am y tro cyntaf yn ystod y pandemig ac a fyddai wedi methu â chael amrywiaeth o gymorth oherwydd y mesurau a oedd yn eu lle i gyfyngu ar COVID-19. Byddai mewnwelediad i'r garfan hon o fudd hefyd, yn ôl penderfynwr arall.

> *Byddai cael ymdeimlad â'r materion hynny'n dda. Eto, byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o waith ethnograffig gan fy mod yn meddwl bod rhai o'r pethau hyn yn mynd i fod yn fach iawn o ran nifer, neu â gwahaniaethau bach iawn rhyngddynt o ran eu heffaith. Mae angen i chi wneud y gwaith caib a rhaw yna cyn y gallwch lunio offerynnau arolwg effeithiol. (Penderfynwr)*

*[O ran rhieni ifainc a'r effaith ar ddibynyddion], rydym mwy na thebyg yn peidio â'i adnabod a'i weld ar lefel statudol – effaith hynny a'r effaith y mae'n ei chael ar eu hiechyd a'u lles. (Penderfynwr)*

Hefyd, cyfeiriwyd at gynnydd yn ôl y sôn mewn cyfraddau amddiffyn plant yn ystod y pandemig a sut yr oedd angen deall y mater yma'n well hefyd. Fe'i disgrifiwyd fel 'darlun anhysbys' gan ddylanwadwr. Bwlch arall o ran gwybodaeth a godwyd gan benderfynwr oedd i ba raddau yr **effeithiwyd ar y sector gofal plant gan y pandemig**; a pha mor awyddus fyddai rhieni i ddefnyddio'r gwasanaeth oherwydd ofnau ynghylch y coronafeirws. Roedd hyn yn cynnwys bylchau mewn gwybodaeth ynghylch pa effaith fu ar fathau mwy anffurfiol o ofal plant megis cymorth ar ôl ysgol.

### 7.6 Data ar lefel Cymru o'i gymharu â lefel y DU



O bryd i'w gilydd, dywedodd penderfynwyr a dylanwadwyr, ar y cyfan, nad oedd digon o **ddata cadarn ar lefel Cymru** ynghylch pobl ifanc ac effaith diweithdra. Gallai hyn gynnwys bod â darlun gwell i ddangos pa bobl ifanc oedd ar ffyrlo, pa gyfran oedd wedi symud o'r sector twristiaeth a lletygarwch i mewn i sectorau eraill; y rhesymau dros ddiweithdra pobl ifanc cyn y pandemig o'i gymharu ag ar ôl y pandemig; a beth ellid ei wneud i sicrhau bod cenhedlaeth 'ddim yn mynd ar goll' ac i'w helpu i gael gwaith (drachefn). Yn ôl un penderfynwr rhanbarthol, roedd eu dull cyfredol o geisio deall y dirwedd ffyrlo ar gyfer pobl ifanc yn yr awdurdod lleol yn anodd oherwydd data cyfyngedig. Gallai eu gwasanaethau ieuenctid gael eu lleoli'n fwy effeithiol pe bai data gwell ar gael. Byddai casglu gwybodaeth am **safbwyntiau pobl ifanc** yn bwysig hefyd i sicrhau y ceid darlun holistaidd. Angen pellach am wybodaeth i un penderfynwr oedd data sy'n amlygu effaith Kickstart yng Nghymru.

*Rydym yn tybio bod grŵp uchel iawn o bobl ifanc sydd wedi syrthio allan o'r sector twristiaeth a lletygarwch, ac mae hynny i gyd yn seiliedig ar y ffaith ein bod yn gwybod bod ffyrlo wedi cael effaith fawr ar y sector hwnnw yn [yr awdurdod yma]. Ond dydyn ni ddim yn gwybod, os ydym yn canolbwyntio ar ymyriad, ai dyna yw'r defnydd gorau o'n hadnoddau sef eu canolbwyntio ar bobl a allai fod wedi syrthio allan o'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch? Pan fo'n bosibl mewn gwirionedd eu bod wedi mynd i mewn i swyddi eraill ar lefel mynediad. . . . Does gennym ni ddim data i ganfod hynny. (Penderfynwr)*

Dywedodd penderfynwr hefyd fod diffyg data ar lefel Cymru yn y meysydd a oedd yn ymwneud â **gwaith teg**, megis ar gydymffurfio â'r isafswm cyflog, a fyddai o gymorth i oleuo polisi. Gallai fod diffyg cadernid yn y data ar y lefel hon ac nid oedd data ar gael gan awdurdodau ar lefel y DU a oedd yn gweithio ar ôl troed y DU. Fodd bynnag, fel gyda rhai

cyfranogwyr eraill, pwysleisiwyd fod mwy o ddata **ansoddol** yn hanfodol hefyd ar brofiadau unigolion, i helpu i ychwanegu ystyr at ddata meintiol.

Gallai data ddefnyddiol ar lefel Cymru ynghylch pobl ifanc gynnwys bod â thystiolaeth o faint y negyddoldeb tuag at **gontractau dim oriau** a maint yr effaith ar bobl ifanc sy'n gweithio i'r mathau hynny o gontract. Roedd y penderfynwr hwn yn tybio bod yr economi gig yn amhoblogaidd ymhlith y rhai a oedd yn gweithio ynddi ond yn teimlo y byddai o fudd i wneud penderfyniadau pe gwelid tystiolaeth o ganfyddiadau ac effaith. Er enghraifft, gallai effeithio ar y modd yr oedd y sefydliad yn caffael gwasanaethau.

## 7.7 Yr hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau

Gan adeiladu ar sylwadau cynharach yn y bennod hon, nodwyd ar adegau gan benderfynwyr a dylanwadwyr y byddai o gymorth bod â dealltwriaeth well am yr hyn yr oedd ar bobl ifanc ei eisiau neu ei angen o ran cyfleoedd gwaith ac i'w helpu i ymuno neu ail-ymuno â'r farchnad lafur. Roedd yn thema a ddaeth i'r amlwg ymhlith mudiadau'r trydydd sector hefyd. Codwyd yr angen gan un penderfynwr mewn perthynas â'r broses o alinio cyflogwyr sy'n ymrwymo i'r cynllun Kickstart â phobl ifanc sy'n gymwys i gael y cymorth. Byddai angen siarad gyda phobl ifanc a staff cymorth lleol. Dywedodd dylanwadwr ei bod yn bwysig i wasanaethau gael eu tywys gan egwyddor yr hyn a oedd yn iawn i'r person ifanc, a sut yr oedd ar bobl ifanc angen cael eu harfogi i ymdrin â thirwedd gyflogaeth a oedd yn debygol o newid. Gallai fod yn wir, er enghraifft, fod cymorth gyda thai'n fuddsoddiad gwell na cheisio mynd i'r afael â mater contractau dim oriau; ond byddai angen mwy o dystiolaeth ar y pwnc.

> *Yr hyn y mae arnom eisiau ei wneud yw sefydlu pobl ifanc fel rhanddeiliaid allweddol o ran trefnu'r dyfodol. Mae arnom eisiau eu grymuso mewn gwirionedd i fod â llais, i gael dweud eu dweud ac i ddylanwadu ar benderfyniadau a dylanwadu ar bolisi. (Trydydd sector)*

Roedd sut orau i ymgysylltu go iawn â phobl ifanc, yn enwedig y rhai a oedd leiaf tebygol o ymgysylltu ag ymyriad, fel bod eu llais yn gallu cael ei glywed wrth ddylunio ymyriadau'n fwlch o ran gwybodaeth a amlygwyd gan un penderfynwr rhanbarthol. Roeddent hwy'n cynnal ymgynghoriadau ond yn teimlo mai'r un bobl oedd yn ymateb mwy na thebyg ac yn amau a oedd pobl ifanc yr oedd arnynt angen clywed oddi wrthynt yn ymgysylltu â hwy o anghenraid. Roedd yn teimlo fel pe bai'r sefydliad, i ryw raddau, yn llunio gormod o dybiaethau ynghylch yr hyn yr oedd pobl ifanc yn ei feddwl a'r hyn yr oedd arnynt ei angen. Mewn cyferbyniad, roedd rhai o fudiadau'r trydydd sector yn addasu ac yn defnyddio platfformau megis WhatsApp i ymgysylltu â phobl ifanc. Roeddent yn ymwybodol o'r angen i wneud yr iaith a ddefnyddid mor hygyrch â phosibl i hybu ymgysylltiad ag ystod ehangach o bobl ifanc.

Roedd un penderfynwr yn pryderu ynghylch yr **effaith y gallai rhieni fod yn ei chael** ar bobl ifanc a oedd yn byw gartref. Roedd disgwyl i'r cydbwysedd dylanwad fod wedi symud oddi wrth sefydliadau addysg a hyfforddiant, ymgynghorwyr gyrfaoedd a chymheiriaid tuag at aelodau'r teulu nad oeddent yn y sefyllfa orau i gynghori eu plant o bosibl. Dywedodd y penderfynwr hwn, pe bai'r ddeinameg hon yn cael ei deall yn well, y byddent yn archwilio sut orau i addysgu rhieni'n fwy effeithiol am y pwnc.

### 7.8 Deall dull polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc

Fe wnaeth un dylanwadwr gais am ddealltwriaeth well ynghylch pa un a oedd amrywiad yn nulliau polisi'r llywodraethau datganoledig ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc a oedd yn herio'r syniad o gyfundrefn lles ryddfrydol fel a geir ar lefel y DU. Yn ôl y sôn roedd yr ail o'r rhain wedi achosi hyblygrwydd yn y farchnad swyddi ac ansicrwydd, yn enwedig i bobl ifanc, gyda chontractau masnachol yn disodli mathau eraill o gontract.

Yn ôl y sôn roedd ystyried dull mwy strwythurol o ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc o fudd, yn hytrach na bod unigolyn ar fai; neu mai cyfrifoldeb yr unigolyn ydoedd yn llwyr. Roedd yn golygu mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc fel pe bai'n broblem strwythurol a oedd yn gysylltiedig â phethau eraill fel tlodi, economeg, daearyddiaeth, cefndir, addysg ac iechyd meddwl a oedd hefyd yn cael eu hachosi gan faterion strwythurol. Roedd y cyfranogwr hwn yn credu bod angen am fwy o ymchwil empirig yn y maes hwn.

### 7.9 Chwilio dramor am ddatrysiadau posibl

Fel a amlygwyd yn 5.8, gallai archwilio'r dulliau a ddefnyddir gan wledydd eraill ddarparu gwersi gwerthfawr. Gellid gwneud gwaith pellach i bwyso a mesur y dull yn **Nenmarc** oherwydd ei chyfraddau diweithdra is ymhlith pobl ifanc. Gellid dysgu gwersi o'r Alban hefyd.

Awgrymodd un dylanwadwr y gallai'r **berthynas rhwng y Llywodraeth a sefydliadau'r gymdeithas sifil** mewn gwledydd eraill i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc gael ei harchwilio ymhellach, i asesu pa wahaniaeth y gallai dulliau o'r fath ei wneud yng Nghymru.

## 8. Casgliad

Ar y cyfan, roedd cytundeb eang ynglŷn â phwysigrwydd a natur yr heriau; a bod y rhain yn faterion cymhleth ac aml-ddimensiwn. Yn ogystal â'r her o ran cael, cadw a chyfranogi mewn gwaith da, teg, roedd materion a godwyd yn cynnwys effeithiau'r cyfyngiadau symud dros dro, megis dysgu gartref, neu faterion a oedd yn bodoli eisoes megis natur cyflogaeth i bobl ifanc, Brexit a heriau cael mynediad at gredyd cynhwysol.

Er bod penderfynwyr a dylanwadwyr o'r farn bod nifer o ymyriadau ar gael, heblaw am y cynllun ffyrlo, nid oedd pobl ifanc yn yr astudiaeth hon, ar y cyfan, i'w gweld fel pe baent yn gyfarwydd â hwy nac yn cael mynediad at y cymorth. Er bod safbwyntiau gwahanol ynghylch beth allai'r datrysiadau a'r cwestiynau ymchwil sy'n dal heb eu hateb fod, datblygodd thema gref ynglŷn ag adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn ei le a sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o ddatblygu cymorth.

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

beaufortresearch